
Cau'r Bwlch

Adroddiad sicrwydd
Comisiynydd y Gymraeg
2019-20



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner



Cyhoeddwyd yn unol ag adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Medi 2020

Rhagair y Comisiynydd

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn heriol i bawb ohonom, ac rydym wedi gorfod addasu'n gyflym i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffyrdd gwahanol. Dros y misoedd nesaf byddaf yn edrych yn ôl ar yr argyfwng, er mwyn deall sut y cafodd darpariaeth Gymraeg sefydliadau ei heffeithio, a dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.

Mae'r pandemig wedi dangos gwerth gwydnwch, arweiniad ac arbenigedd, a'r hyblygrwydd i defnyddio staff yn greadigol. Mae wedi'n gorfodi i gyflymu datblygiadau yn y ffordd rydym yn defnyddio technoleg. Mae'r argyfwng yn debygol o newid y ffordd rydym yn gweithio am byth.

Mae'n bosib y bydd sefydliadau'n mynd ati i ailfeddwl yn sylweddol am y ffyrdd y maent yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae hyn yn gyfle arbennig i roi lle canolog i'r Gymraeg.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy nghanfyddiadau ynghylch perfformiad sefydliadau wrth weithredu dyletswyddau iaith yn 2019-20 – cyn i Covid-19 effeithio arnom. Ond wrth i sefydliadau fynd ati i weithredu ar y canfyddiadau, bydd angen iddynt wneud yn siŵr fod eu trefniadau'n hybu eu darpariaeth Gymraeg yn y normal newydd.

Wrth i mi ddadansoddi perfformiad sefydliadau yn 2019-20, des i bryderu bod bwlch yn agor rhwng sefydliadau sy'n cydymffurfio'n dda ac yn gwella'n barhaus, a'r sefydliadau sydd heb drefniadau digonol.

Mewn rhai sefydliadau, mae trefniadau strwythuredig a gwaith caled bellach yn golygu eu bod yn cydymffurfio â'r safonau gan greu cyfleoedd dibynadwy i ddefnyddio'r Gymraeg. Ond mae rhai sefydliadau heb ddefnyddio'r safonau fel sbardun i wella trefniadau a sicrhau bod ganddynt ddigon o gapasiti Cymraeg i ddarparu'r gwasanaethau y mae gan bobl hawl i'w derbyn.

Gyda dros bedair blynedd wedi mynd heibio ers i'r safonau ddod yn weithredol am y tro cyntaf, fy nisgwylid yw bod pob sefydliad yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion a osodwyd arnynt. Dros y cyfnod nesaf, byddaf yn ystyried y dystiolaeth sydd gennyf ynghylch perfformiad sefydliadau, ac yn cymryd pa bynnag gamau cymesur sy'n angenrheidiol i ddelio ag unrhyw ddiffyg neu fethiant.

Dylai pob siaradwr Cymraeg allu cael disgwyliadau uchel o sefydliadau cyhoeddus. Mae'n amser i bob sefydliad fod yn gwneud y pethau sylfaenol bob tro – defnyddio'r Gymraeg yn ysgrifenedig; cael digon o staff sy'n siarad Cymraeg i allu darparu gwasanaethau derbynfa a ffôn; a dilyn trefniadau cadarn ar gyfer asesiadau allweddol o ran anghenion sgiliau swyddi a phenderfyniadau polisi.

Lle mae gwasanaethau'n cael effaith uwch ar lesiant pobl, dylid gallu cymryd yn ganiataol y byddant ar gael yn Gymraeg. Mae angen i'r safonau greu gwelliant cyflym yng ngwasanaethau sefydliadau iechyd, ac rwyf o'r farn y dylai cynghorau sir weithio tuag at gynnal cyfarfodydd ynghylch llesiant yn Gymraeg yn ddiofyn gyda siaradwyr Cymraeg.

Rwy'n awyddus i allu cymryd yn ganiataol fod gwasanaethau sylfaenol yn cael eu darparu fel mater o drefn, fel bod modd i ni dreulio'n hamser yn mynd i'r afael â'r materion mawr fydd yn gwneud gwahaniaeth strategol i ddyfodol y Gymraeg. Rwyf am weld sefydliadau'n creu shifft yn iaith defnyddwyr gwasanaethau a staff y sefydliad, ac yn ystyried o ddifri sut gall holl drefniadau gweithredu'r sefydliad hybu'r Gymraeg yn economaidd, addysgol a chymdeithasol.

Ni fyddaf yn caniatáu sefyllfa lle mae sefydliadau'n parhau i fethu â chwrdd â'r gofynion a osodwyd arnynt. A lle bo sefydliadau'n barod i arloesi er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg, byddaf yn cefnogi a hwyluso'u gwaith.



Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg
Medi 2020



Mae fersiwn cryno o'r ddogfen hon [ar wefan y Comisiynydd](#).

1	Cyflwyniad	5
1.1	Pwrpas yr adroddiad	5
1.2	Sail tystiolaeth	7
2	Darparu a hybu gwasanaethau	9
2.1	Argaeledd gwasanaethau Cymraeg	10
2.2	Ansawdd gwasanaethau Cymraeg	22
2.3	Dylunio gwasanaethau i gynyddu defnydd o'r Gymraeg	24
2.4	Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg	30
2.5	Tystiolaeth am ddefnydd o wasanaethau	33
3	Trefniadau cydymffurfio	34
3.1	Monitro mewnol	35
3.2	Atebolrwydd cyhoeddus	37
3.3	Gweithredu ar sail cwynion a phrofiadau defnyddwyr	41
3.4	Arweiniad ac arbenigedd	45
3.5	Cyfieithu	48
3.6	Allanoli a phlatfformau trydydd parti	50
4	Capasiti'r gweithlu	53
4.1	Gosod gofynion sgiliau Cymraeg wrth recriwtio	54
4.2	Adnabod sgiliau Cymraeg y gweithlu	60
4.3	Gwella sgiliau Cymraeg staff	62
4.4	Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol fel iaith gwaith	65
5	Hybu'r Gymraeg	67
5.1	Asesu effaith penderfyniadau polisi	68
5.2	Polisi dyfarnu grantiau	74
5.3	Gweithredu strategaethau 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg	76

1 Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad

- 1.1.1. Dyma'r chweched adroddiad sicrwydd i'r Comisiynydd ei gyhoeddi. Pwrpas adroddiadau sicrwydd yw rhoi barn y Comisiynydd ar y modd y mae sefydliadau'n gweithredu i gydymffurfio â'u dyletswyddau iaith, gan roi sylw penodol i brofiadau defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg.
- 1.1.2. Rydyn ni eisiau i sefydliadau ddefnyddio'r adroddiad fel sail i wella sut maent yn gweithredu. Gallant wneud hynny drwy feincnodi eu perfformiad eu hunain yn erbyn y tueddiadau a nodir yn yr adroddiad, a drwy efelychu'r arferion llwyddiannus sy'n cael eu disgrifio.
- 1.1.3. Mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â'r materion y mae angen i sefydliadau weithredu arnynt dros y misoedd nesaf. Mae'n cynnwys tystiolaeth ynghylch:
 - o **Perfformiad sefydliadau** wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg a chymell pobl i'w defnyddio
 - o **Trefniadau cydymffurfio** – yr hyn y mae sefydliadau'n ei wneud er mwyn sicrhau bod eu darpariaeth yn cydymffurfio
 - o **Capasiti'r gweithlu** – sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg yn y rolau cywir
 - o **Hybu'r Gymraeg** – cyfrannu at ffyniant y Gymraeg drwy ystyried effaith y Gymraeg ar benderfyniadau polisi a grantiau, a gweithredu strategaethau hybu'r Gymraeg.

Gweithredu ar sail canfyddiadau'r adroddiad

- 1.1.4. Cyfrifoldeb sefydliadau yw cydymffurfio â'r dyletswyddau a osodwyd arnynt. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig arweiniad clir ynghylch sut i sicrhau bod hynny'n digwydd.
- 1.1.5. Mae arweiniad arall hefyd ar gael i sefydliadau. Yn benodol:
 - o Cyhoeddwyd [cod ymarfer](#) y Comisiynydd i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ym mis Chwefror 2020. Mae'r cod ymarfer yn arweiniad i sefydliadau er mwyn egluro beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt wrth weithredu'r safonau, gan dynnu ar eu profiad cychwynnol o weithredu'r safonau. Mae'r cod ymarfer wedi derbyn cydsyniad Gweinidogion Cymru. Gellir dibynnu ar gynnwys y cod wrth ystyried a oes methiant i gydymffurfio â safon ai peidio. Mae'r cod yn berthnasol i'r safonau yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, sef y safonau ar gyfer awdurdodau lleol, Gweinidogion Cymru a'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae'r Comisiynydd yn bwriadu cyhoeddi rhagor o godau ymarfer ar gyfer rheoliadau eraill yn y dyfodol.
 - o Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi cyfres o [ddogfennau cyngor arferion da](#). Mae'r dogfennau ymarferol, cynhwysfawr hyn yn cynnig awgrymiadau ynghylch dulliau o fynd ati i gydymffurfio â gofynion y safonau a hyrwyddo'r Gymraeg o ran hybu defnydd o wasanaethau

Cymraeg; gweithredu ar sail dewis iaith; goruchwyllo cydymffurfiaeth; adroddiadau blynyddol safonau'r Gymraeg; a dyfarnu grantiau.

- 1.1.6. Fel y nodwyd yn y rhagair, lle bynnag mae gwaith monitro sy'n sail i'r adroddiad hwn wedi amlygu methiant gan sefydliad, byddwn yn ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hwnnw, gan ystyried defnyddio holl bwerau'r Comisiynydd.

Covid-19

- 1.1.7. Nid yw'r dystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad hwn yn deillio o'r cyfnod pan oedd yr argyfwng Covid-19 yn amharu ar allu sefydliadau i weithredu.
- 1.1.8. Parhaodd safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg yn weithredol yn ystod y cyfnod, ac mae'n bwysig fod hawliau siaradwyr Cymraeg yn cael eu parchu er gwaetha'r argyfwng.
- 1.1.9. Gall yr argyfwng fod wedi cael peth effaith ar allu sefydliadau i gydymffurfio. Yn ystod 2020-21 byddwn yn craffu ar sut y gwnaeth yr argyfwng effeithio ar wasanaethau Cymraeg sefydliadau a'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hwyluso dysgu gwersi at y dyfodol. Wrth ymgysylltu â sefydliadau yn 2020-21 er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaeth yn gwella, byddwn yn ystyriol o'r amgylchiadau wrth drefnu cyfarfodydd, casglu tystiolaeth ac ati.

1.2 Sail tystiolaeth

1.2.1. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac amrywiol, gan gynnwys:

- **Monitro** – cynnal arolygon profiad defnyddwyr (gwirio gwasanaethau fel gohebiaeth, ffôn, derbynfeydd, arwyddion, peiriannau hunanwasanaeth, dogfennau, hunaniaeth gorfforaethol, apiau, gwefannau ac ati); gwirio adroddiadau blynyddol, dogfennau atodol a hysbysebion swyddi; a gofyn i sefydliadau am dystiolaeth drwy astudiaethau thematig ynghylch asesu effaith penderfyniadau polisi, asesu gofynion sgiliau swyddi, cyfarfodydd ynghylch llesiant, a strategaethau 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg
- **Ymgysylltu** – cynnal grwpiau trafod ledled Cymru gyda charfannau amrywiol o siaradwyr Cymraeg
- **Cyswllt â sefydliadau** – argraffiadau swyddogion sy'n delio â sefydliadau wrth roi cefnogaeth i gydymffurfio, gosod safonau, a chynnal ymchwiliadau.

1.2.2. Fel yn 2018-19, mae canlyniadau'r arolygon gwirio'n seiliedig ar wirio gwasanaethau sampl o draean y sefydliadau hyn (ond ni chynhwyswyd unrhyw dribiwnlysoedd eleni):

Grŵp o sefydliadau	Sefydliadau penodol	Dyletswyddau
Rheoliadau rhif 1	Cynghorau sir, parciau cenedlaethol a Llywodraeth Cymru (26 sefydliad)	Gweithredu safonau ers 30/03/2016
Rheoliadau rhif 2	Sefydliadau cenedlaethol amrywiol (32 sefydliad)	Gweithredu safonau ers 25/01/2017
Rheoliadau rhif 4	Tribiwnlysoedd Cymru (7 sefydliad)	Gweithredu safonau ers 30/03/2017
Rheoliadau rhif 5	Heddluoedd, comisiynwyr heddlu a throsedd, a gwasanaethau tân (16 sefydliad)	Gweithredu safonau ers 30/03/2017
Rheoliadau rhif 6	Prifysgolion a sefydliadau addysg bellach (25 sefydliad)	Gweithredu safonau ers 01/04/2018
Rheoliadau rhif 7	Byrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG, a chynghorau iechyd cymuned (18 sefydliad)	Gweithredu safonau ers 30/05/2019
Cynlluniau iaith	Adrannau ac asiantaethau gweithredol Llywodraeth y DU a chwmnïau a sefydliadau eraill sy'n gweithredu cynlluniau iaith	Gweithredu cynlluniau iaith (dim bwriad o osod safonau arnynt yn y dyfodol agos)

1.2.3. Gwiriwyd y gwasanaethau dair gwaith yn ystod y flwyddyn yn y rhan fwyaf o achosion. Yn unol â'n harfer, adroddir ar brofiad y defnyddiwr yn hytrach na chydymffurfiaeth â safonau neu gynlluniau iaith – weithiau mae'r canlyniadau'n cynnwys sefydliadau nad oedd dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r gofynion penodol (e.e. wedi herio'r ddyletswydd, diwrnod gosod heb basio, safon heb ei gosod, gofynion is wedi eu gosod, neu'n gweithredu cynlluniau iaith).

1.2.4. Mae methodoleg lawn, a rhestr o'r sefydliadau perthnasol, ar ddiwedd yr adroddiad.

- 
- 1.2.5. Lle rydym yn cyfeirio at arferion sefydliadau, rydym yn gwneud hynny am ein bod yn credu y gall sefydliadau eraill ddysgu o'r arfer – naill ai drwy efelychu'r arfer neu addasu eu trefniadau. Nid yw'r ffaith ein bod yn cyfeirio at arfer gan sefydliad yn golygu, o angenrheidrwydd, fod y sefydliad hwnnw'n cydymffurfio'n llawn â'r holl ofynion.

2 Darparu a hybu gwasanaethau

Gyda chynnydd i'w weld o ran argaeledd nifer o wasanaethau, a pherfformiad ar y cyfan yn symud i'r cyfeiriad cywir, y demtasiwn yw bodloni ar y canlyniadau hyn. Ond mae rhai rhesymau i bryderu ynghylch gallu siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau yn eu dewis iaith.

Ni wnaeth rhai sefydliadau ddarparu gwasanaethau penodol yn Gymraeg ddim un o'r troeon y gwnaethon ni wirio'r gwasanaethau hynny.

Ni welwyd y gwelliant angenrheidiol yng ngwasanaethau derbynfa sefydliadau. Ac ar rai o'r gwasanaethau eraill lle mae perfformiad yn eithaf ffafriol, fel dogfennau, cyfryngau cymdeithasol a gwefannau, mae'n rhaid gofalu nad yw trefniadau'n llacio.

Mae rhai sectorau – sefydliadau iechyd, a'r rheiny sy'n gweithredu cynlluniau iaith – yn cydymffurfio'n llai aml na'r gweddill. Er nad oes gwahaniaeth mawr ym mherfformiad cynghorau yng ngwahanol ardaloedd Cymru ar y rhan fwyaf o wasanaethau, mae rhanbarthau de Cymru ar ei hôl hi ar wasanaethau derbynfa a ffôn.

Mae angen i sefydliadau fynd i'r afael o ddifri â'r cyfrifoldeb i hyrwyddo gwasanaethau – gyrru cynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg. Golyga hyn newid dyluniad gwasanaethau, gan ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn ddiofyn lle bo modd (yn enwedig pan fo effaith uwch ar unigolion, fel mewn cyfarfodydd ynghylch llesiant), a rhoi gwybod i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau sydd ar gael.

Mae enghreifftiau o gynnydd sylweddol yn y defnydd o rai gwasanaethau Cymraeg, sy'n amlygu potensial am gynnydd pan gaiff gwasanaethau eu dylunio a'u hyrwyddo'n effeithiol – ond cymharol brin yw'r enghreifftiau hyn. Mae'r camau sydd angen eu cymryd i wella cydymffurfiaeth yn glir yn adrannau dilynol yr adroddiad hwn, a chyfrifoldeb sefydliadau yw mynd ati'n syth i gwrdd â'r gofynion.

Barn y Comisiynydd

"Mae defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn gallu bod yn hassle oherwydd y ffordd mae rhai sefydliadau yn trin y Gymraeg a'r ffordd mae nhw yn trin siaradwyr Cymraeg. Mae lot o ofyn i bobol frwydro i gael gwneud pethau yn Gymraeg."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod


"Mae'n ddigon hawdd deud bod gennych chi hawl i ddefnyddio'r Gymraeg ond os nad ydyn nhw yn gweithredu yn Gymraeg yr un mor sydyn na'r Saesneg mae'n gwneud synnwyr i ddefnyddio'r Saesneg."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod


2.1 Argaeledd gwasanaethau Cymraeg

Canlyniadau gwirio – prif wasanaethau

- 2.1.1. Fel y gwelwyd y llynedd, mae perfformiad yn gryfach ar gyfer gwasanaethau a deunyddiau lle mae modd eu darparu unwaith ac am byth drwy sicrhau bod testun neu systemau ar gael yn Gymraeg.



- 2.1.2. Mae perfformiad hefyd yn gryfach ar gyfer gwasanaethau a deunyddiau lle mae angen anfon testun at siaradwr Cymraeg (naill ai i ddelio â'r mater neu i'w gyfieithu), ond lle nad oes pwysau amser sylweddol. Roedd hysbysebion swyddi'n eithriad i hyn, gyda dan hanner yr hysbysebion ar gael yn Gymraeg er bod sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol neu'n ddymunol ar gyfer 81%.



- 2.1.3. Wedi dweud hynny, gyda'r safonau bellach yn weithredol ers ychydig flynyddoedd, byddem yn disgwyl bod y canlyniadau ar gyfer rhai gwasanaethau – fel tudalennau gwe, ffurflenni, peiriannau hunanwasanaeth a chyfryngau cymdeithasol – yn well.
- 2.1.4. Unwaith eto eleni, roedd perfformiad yn wannach ar gyfer gwasanaethau personol – lle mae angen i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg fod ar gael mewn lleoliad penodol ar yr adeg pan fo'r gwasanaeth yn cael ei gyrchu er mwyn darparu gwasanaeth personol.



55%

**o alwadau ffôn y deliwyd
â nhw'n llawn yn Gymraeg**



46%

**o ymholiadau derbynfa
y deliwyd â nhw
yn Gymraeg**

- 2.1.5. Mae'r tabl isod yn dangos pa mor aml y bodlonwyd y maen prawf a nodir, allan o'r holl droeon y gwnaethon ni brofi'r gwasanaethau.

Prif ganlyniadau – gwirio gwasanaethau 2019-20

GOHEBIAETH	
Gohebiaeth Gymraeg – wedi derbyn ymateb (unrhyw iaith)	73%
Gohebiaeth Saesneg – wedi derbyn ymateb (unrhyw iaith)	79%
Gohebiaeth Gymraeg – wedi derbyn ymateb yn Gymraeg (lle derbyniwyd ymateb o gwbl)	92%
GALWADAU FFÔN	
Opsiynau awtomatig ar gael yn Gymraeg	90%
Delio â'r alwad a darparu ateb cyflawn yn Gymraeg	55%
Delio â rhan gyntaf yr alwad yn Gymraeg, yna trosglwyddo i aelod staff di-Gymraeg i roi ateb ar bwnc penodol	4%
Delio â rhan gyntaf yr alwad yn Saesneg, yna trosglwyddo i aelod staff sy'n siarad Cymraeg	6%
DERBYNFEYDD	
Cyfarchiad Cymraeg neu ddwyieithog	37%
Ymateb Cymraeg neu ddwyieithog i gyfarchiad cwsmer	37%
Delio â'r ymholiad yn Gymraeg	46%
FFURFLENNI	
Ffurflen ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	78%
DATGANIADAU I'R WASG	
Datganiad ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	82%
LLYFRYN / PAMFFLED / TAFLEN / CERDYN	
Deunydd ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	68%
HUNANIAETH GORFFORAETHOL	
Logo'n ymddangos yn Gymraeg	88%
GWEFANNAU	
Rhyngwyneb a dewislenni ar gael yn Gymraeg	92%
Tudalennau ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	81%
FACEBOOK	
Enw / dolen cyfrif yn Gymraeg	62%
Negeseuon ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	74%
TWITTER	
Enw / dolen cyfrif yn Gymraeg	61%
Negeseuon ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	70%
SWYDDI	
Hysbysebion swyddi'n cynnwys categori angen sgiliau Cymraeg	82%
Hysbysebion swyddi yn Gymraeg	47%
PEIRIANNAU HUNANWASANAETH	
Peiriannau hunanwasanaeth yn gweithio'n llawn yn Gymraeg	75%
ARWYDDION	
Arwyddion â'r holl destun yn Gymraeg	89%

Dibynadwyedd gwasanaethau Cymraeg

- 2.1.6. Mae'r canlyniadau uchod yn seiliedig ar gyfanswm y troeon y gwnaethon ni gyrchu'r gwasanaeth neu'r deunydd, ar draws yr holl sefydliadau. Gan ein bod yn gwirio pob gwasanaeth fwy nag unwaith ar gyfer pob sefydliad, gallwn hefyd weld a wnaeth y sefydliadau gwrdd â'r meini prawf bob tro, weithiau, neu ddim o gwbl.
- 2.1.7. Ar gyfer pob gwasanaeth, gydag ambell eithriad fel tudalennau gwe, roedd rhwng tua hanner a thri chwarter y sefydliadau wedi darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg bob tro. (Mae'r ganran isel ar gyfer gwefannau'n ganlyniad i'r ffaith ein bod wedi gwirio nifer eithaf sylweddol o dudalennau, gan gynyddu'r siawns am lithriadau, e.e. testun yn rhannol Saesneg.)
- 2.1.8. Ond ar gyfer pob gwasanaeth hefyd, roedd rhai sefydliadau na wnaeth lwyddo i fodloni'r maen prawf ddim un waith – rhwng tua 5% a 20% o sefydliadau ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau. Roedd hyn ar ei waethaf gyda galwadau ffôn a hysbysebu swyddi (dros chwarter sefydliadau heb ddarparu gwasanaeth ffôn llawn yn Gymraeg), ac yn enwedig gyda derbynfeydd (dros hanner sefydliadau heb ddelio ag unrhyw ymholiad yn Gymraeg).
- 2.1.9. Mae hynny'n gadael rhai sefydliadau oedd yn gallu darparu gwasanaeth neu ddeunydd yn Gymraeg weithiau, ond nid bob tro.

Canlyniadau gwirio – wnaeth sefydliadau fodloni'r meini prawf bob tro?

	Canlyniad ar sail pob tro y cyrchwyd y gwasanaeth / deunydd	Sefydliadau wnaeth fodloni'r maen prawf bob tro	Sefydliadau heb fodloni'r maen prawf o gwbl
GOHEBIAETH			
Gohebiaeth Gymraeg – wedi derbyn ymateb (unrhyw iaith)	73%	48%	8%
Gohebiaeth Saesneg – wedi derbyn ymateb (unrhyw iaith)	79%	52%	4%
Gohebiaeth Gymraeg – wedi derbyn ymateb yn Gymraeg (lle derbyniwyd ymateb o gwbl)	92%	77%	2%
GALWADAU FFÔN			
Delio â'r alwad a darparu ateb cyflawn yn Gymraeg	55%	36%	26%
DERBYNFEYDD			
Delio â'r ymholiad yn Gymraeg	46%	45%	52%
FFURFLENNI			
Ffurflen ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	78%	63%	9%
DATGANIADAU I'R WASG			
Datganiad ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	82%	72%	11%
LLYFRYN / PAMFFLED / TAFLEN / CERDYN			
Deunydd ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	68%	53%	19%
HUNANIAETH GORFFORAETHOL			
Logo'n ymddangos yn Gymraeg	88%	79%	4%
GWEFANNAU			
Tudalennau ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	81%	31%	6%
FACEBOOK			
Negeseuon yn Gymraeg (cyflawn)	74%	40%	14%
TWITTER			
Negeseuon yn Gymraeg (cyflawn)	70%	46%	17%
SWYDDI			
Hysbysebion swyddi'n cynnwys categori angen sgiliau Cymraeg	82%	46%	14%
Hysbysebion swyddi ar gael yn Gymraeg	47%	54%	27%
ARWYDDION			
Arwyddion ar gael yn Gymraeg	89%	76%	11%

Cymharu canlyniadau 2019-20 a 2018-19

2.1.10. Yn y rhan fwyaf o achosion, dilynwyd yr un fethodoleg yn 2019-20 a 2018-19, ac felly gallwn gymharu'r canlyniadau.



92%

o wefannau â rhyngwyneb
a dewislenni Cymraeg
(2018-19 – 72%) ▲ 20%



92%

o'r ymatebion i e-bost
Cymraeg yn Gymraeg
(2018-19 – 91%) ▲ 1%



90%

o opsiynau awtomatig
ffôn ar gael yn Gymraeg
(2018-19 – 73%) ▲ 16%



89%

o arwyddion ar gael
yn Gymraeg
(2018-19 – 93%) ▼ 4%



88%

o logos sefydliadau
ar gael yn Gymraeg
(2018-19 – 78%) ▲ 10%



82%

o hysbysebion swyddi'n
cynnwys categori angen
sgiliau Cymraeg
(2018-19 – 67%) ▲ 15%



82%

o ddatganiadau i'r wasg
ar gael yn Gymraeg
(2018-19 – 77%) ▲ 5%



81%

o dudalennau gwe
ar gael yn Gymraeg
(2018-19 – 73%) ▲ 8%



78%

o ffurflenni ar gael
yn Gymraeg
(2018-19 – 73%) ▲ 5%



74%

o negeseuon Facebook
ar gael yn Gymraeg
(2018-19 – 63%) ▲ 12%



73%

o ymholiadau e-bost
Cymraeg wedi cael ateb
(2018-19 – 81%) ▼ 8%
Saesneg: 79% (2018-19 – 85%) ▼ 6%



70%

o negeseuon Twitter
ar gael yn Gymraeg
(2018-19 – 66%) ▲ 4%



68%

o ddeunyddiau fel
llyfyrnau ac ati ar
gael yn Gymraeg
(2018-19 – 78%) ▼ 9%



55%

o alwadau ffôn y deliwyd
â nhw'n llawn yn Gymraeg
(2018-19 – 52%) ▲ 3%



47%

o hysbysebion swyddi
ar gael yn Gymraeg
(2018-19 – 24%) ▲ 23%



46%

o ymholiadau derbynfa
y deliwyd â nhw yn Gymraeg
(2018-19 – 46%) ▲ 0%



37%

o ymholiadau derbynfa â
chyfarchiad cychwynnol
Cymraeg / dwyieithog
(2018-19 – 40%) ▼ 3%

- 2.1.11. Wrth gwrs, gan ein bod yn arolygu traean o sefydliadau'n unig, nid yr un sefydliadau a arolygwyd yn ystod y ddwy flwyddyn dan sylw, ond rydyn ni o'r farn fod y sampl yn ddigonol i allu gweld sut mae profiad defnyddwyr wedi newid o flwyddyn i flwyddyn. Arolygwyd holl sefydliadau rheoliadau rhif 1 yn ystod y ddwy flynedd dan sylw (er mai dim ond traean ohonynt a gynhwyswyd yn y sampl) ac mae'r tueddiadau ar gyfer y sampl cyfan yn cydfynd â'r rhai ar gyfer sefydliadau rheoliadau rhif 1 ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau.
- 2.1.12. Ar gyfer y mwyafrif mawr o wasanaethau, gwelwyd cynnydd rhwng 2018-19 a 2019-20. Nid yw'r cynnydd yn ddramatig yn y rhan fwyaf o achosion, ond mae'n galonogol iawn fod y patrwm mor gyffredin ar draws ystod eang o wasanaethau.
- 2.1.13. Mae'n ymddangos fod sefydliadau'n rhoi mwy o sylw i'r Gymraeg wrth recriwtio, ac mae'r canlyniadau o ran rhyngwyneb gwefannau ac opsiynau ffôn yn awgrymu bod sefydliadau'n gwneud newidiadau i'w systemau a fydd yn gwella gwasanaethau Cymraeg unwaith ac am byth.
- 2.1.14. Awgryma'r cynnydd gyda gwasanaethau fel cyfryngau cymdeithasol, datganiadau a ffurflenni fod sefydliadau bellach yn fwy ymwybodol o'r angen i gyfieithu deunydd cyn ei gyhoeddi. Nid yw'n glir, gan ystyried y patrwm hwn, pam y gwelwyd gostyngiad o 9% yn argaeledd deunyddiau fel llyfrynau, taflenni ac ati, a gostyngiad o 4% ar gyfer arwyddion.
- 2.1.15. Gwelwyd gostyngiad o ran cyfraddau ymateb i ohebiaeth Gymraeg, ond roedd gostyngiad tebyg yn Saesneg hefyd.
- 2.1.16. Doedd dim llawer o symud o ran delio â galwadau ffôn yn Gymraeg, gyda'r cynnydd yn fychan. Eleni, fe wnaethon ni ychwanegu opsiwn o nodi bod sefydliadau wedi ateb galwad yn Saesneg ac yna trosglwyddo i siaradwr Cymraeg. Yn achos sefydliadau sy'n gweithredu safonau, nid yw hyn yn ffordd dderbyniol o gydymffurfio, ond dyna ddigwyddodd mewn 6% o achosion. Yn 2018-19 cafwyd rhyw elfen o wasanaeth Cymraeg mewn 63% o alwadau; 65% oedd y ganran gyfatebol eleni.
- 2.1.17. Mae'n siom nad yw gwasanaethau derbynfa wedi gwella o gwbl, ac yn bryder mawr ei bod yn ymddangos fod staff derbynfa'n llai ymwybodol nag o'r blaen o'r angen i gyfarch yn Gymraeg. Mae angen i sefydliadau fynd ati i wella'u gwasanaethau derbynfa ar sail yr hyn rydym yn ei ddweud yn yr adroddiad hwn ynghylch trefniadau cydymffurfio a chodi capasiti – yn benodol recriwtio staff a pharatoi'r gweithlu.
- 2.1.18. Gwasanaethau ffôn a derbynfa yw'r mwyaf heriol i'w gwella gan fod angen buddsoddiad mewn staff, ac felly mae angen i sefydliadau fynd ati ar fyrder i gynyddu eu capasiti er mwyn gwella perfformiad ar gyfer y gwasanaethau hyn.

Canlyniadau gwirio – newid rhwng 2019-20 a 2018-19

	2019-20	2018-19	Newid
GOHEBIAETH			
Gohebiaeth Gymraeg – wedi derbyn ymateb (unrhyw iaith)	73%	81%	▼ 8%
Gohebiaeth Saesneg – wedi derbyn ymateb (unrhyw iaith)	79%	85%	▼ 6%
Gohebiaeth Gymraeg – wedi derbyn ymateb yn Gymraeg (lle derbyniwyd ymateb o gwbl)	92%	91%	▲ 1%
Gohebiaeth Gymraeg – amser ymateb	1.04 diwrnod	2.8 diwrnod	▼ 1.8 diwrnod
GALWADAU FFÔN			
Opsiynau awtomatig ar gael yn Gymraeg	90%	73%	▲ 16%
Delio â'r alwad a darparu ateb cyflawn yn Gymraeg	55%	52%	▲ 3%
Delio â rhan gyntaf yr alwad yn Gymraeg, yna trosglwyddo i aelod staff di-Gymraeg i roi ateb ar bwnc penodol	4%	11%	▼ 8%
Delio â rhan gyntaf yr alwad yn Saesneg, yna trosglwyddo i aelod staff sy'n siarad Cymraeg	6%	–	▲ 6%
DERBYNFEYDD			
Cyfarchiad Cymraeg neu ddwyieithog	37%	40%	▼ 3%
Ymateb Cymraeg neu ddwyieithog i gyfarchiad cwsmer	37%	57%	▼ 20%
Delio â'r ymholiad yn Gymraeg	46%	46%	–
FFURFLENNI			
Ffurflen ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	78%	73%	▲ 5%
DATGANIADAU I'R WASG			
Datganiad ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	82%	77%	▲ 5%
LLYFRYN / PAMFFLED / TAFLEN / CERDYN			
Deunydd ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	68%	78%	▼ 9%
HUNANIAETH GORFFORAETHOL			
Logo'n ymddangos yn Gymraeg	88%	78%	▲ 10%
GWEFANNAU			
Rhyngwyneb a dewislenni yn Gymraeg	92%	72%	▲ 20%
Tudalennau ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	81%	73%	▲ 8%
FACEBOOK			
Negeseuon ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	74%	63%	▲ 12%
TWITTER			
Negeseuon ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	70%	66%	▲ 4%
SWYDDI			
Hysbysebion swyddi'n cynnwys categori angen sgiliau Cymraeg	82%	67%	▲ 15%
Hysbysebion swyddi ar gael yn Gymraeg	47%	24%	▲ 23%
ARWYDDION			
Arwyddion ar gael yn Gymraeg	89%	93%	▼ 4%

Cymharu canlyniadau rhwng sectorau

- 2.1.19. Mae'n bwysig nodi mai cyfartaledd sydd i'w weld yma. Er bod patrymau sectorol eithaf clir i'w gweld, mae pob sector yn cynnwys sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel yn gyson, a gall y gwrthwyneb fod yn wir hefyd.
- 2.1.20. Mae perfformiad sefydliadau rheoliadau rhif 1 a rheoliadau rhif 2 yn well na'r cyfanswm ar gyfer pob gwasanaeth / deunydd heblaw derbynfeydd (ac arwyddion yn achos rhif 1), gyda'r perfformiad yn sylweddol well yn y rhan fwyaf o achosion.
- 2.1.21. Mae perfformiad sefydliadau rheoliadau rhif 5 yn fwy cymysg. Mae cyfanswm perfformiad y sector dros 10% yn salach na'r cyfanswm ar gyfer gohebiaeth, ffurflenni, datganiadau, hunaniaeth gorfforaethol, a chyfryngau cymdeithasol – ond dros 10% yn well na'r cyfanswm ar gyfer elfennau o alwadau ffôn, derbynfeydd ac arwyddion.
- 2.1.22. Mae perfformiad sefydliadau rheoliadau rhif 6 yn agos at y cyfanswm ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau, gydag ambell eithriad – dros 10% yn salach ar gyfer llyfrynnau, a dros 10% yn well ar gyfer Twitter a Facebook.
- 2.1.23. Roedd perfformiad sefydliadau rheoliadau rhif 7 dros 10% yn well na'r cyfanswm ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol a chynnwys categori iaith swyddi, ond dros 10% yn salach na'r cyfanswm ar gyfer gohebiaeth, ffurflenni, derbynfeydd ac arwyddion. Roedd y perfformiad ar gyfer galwadau ffôn yn cymharu'n arbennig o wael â'r cyfanswm – 15% o gymharu â 59%. Mae sefydliadau rheoliadau rhif 7 wedi dechrau gweithredu safonau yn ystod y flwyddyn 2019-20. Awgryma'r canlyniadau hyn fod lle i'r safonau sbarduno gwelliant sylweddol yn y cyfnod sydd i ddod.
- 2.1.24. Ar gyfer sefydliadau cynlluniau iaith, mae'r perfformiad yn eithaf agos at y cyfanswm ar gyfer ffôn, gohebiaeth a ffurflenni, ond mae'r perfformiad dros 10% yn salach na'r cyfanswm ar gyfer datganiadau, llyfrynnau, hunaniaeth gorfforaethol, gwefannau, Facebook, Twitter, swyddi, derbynfeydd ac arwyddion.

Canlyniadau gwirio – sectorau

	Sampl cyfan	Rheoliadau rhif 1	Rheoliadau rhif 2	Rheoliadau rhif 5	Rheoliadau rhif 6	Rheoliadau rhif 7	Cynlluniau iaith
Ymateb Cymraeg i ohebiaeth Gymraeg (lle derbyniwyd ymateb)	92%	95%	95%	78%	100%	81%	93%
Galwadau ffôn – opsiynau awtomatig yn Gymraeg	90%	98%	100%	75%	100%	83%	71%
Galwadau ffôn – delio'n llawn yn Gymraeg	55%	60%	70%	60%	63%	15%	56%
Derbynfeydd – delio â'r ymholiad yn Gymraeg	46%	42%	39%	75%	44%	43%	40%
Ffurflenni ar gael yn Gymraeg	78%	83%	100%	69%	70%	52%	76%
Datganiadau i'r wasg ar gael yn Gymraeg	82%	96%	96%	67%	81%	91%	48%
Llyfrynau etc ar gael yn Gymraeg	68%	92%	79%	67%	52%	63%	43%
Logo'n ymddangos yn Gymraeg	88%	100%	80%	67%	96%	100%	74%
Tudalennau gwe ar gael yn Gymraeg	81%	96%	95%	75%	77%	81%	53%
Negeseuon Facebook ar gael yn Gymraeg	74%	95%	85%	63%	81%	70%	39%
Negeseuon Twitter ar gael yn Gymraeg	70%	96%	88%	51%	83%	62%	30%
Hysbysebion swyddi'n cynnwys categori angen sgiliau Cymraeg	82%	80%	88%	54%	79%	92%	0%
Hysbysebion swyddi ar gael yn Gymraeg	47%	80%	100%	11%	58%	19%	0%
Arwyddion ar gael yn Gymraeg	89%	88%	100%	100%	95%	78%	67%

Cymharu canlyniadau mewn gwahanol ardaloedd o Gymru

- 2.1.25. Drwy grwpio canlyniadau awdurdodau lleol fesul ardal, gellir gweld a yw perfformiad yn amrywio wrth gymharu gwahanol ranbarthau o fewn Cymru. Mae'r tabl isod yn nodi'r perfformiad fesul rhanbarth yn 2019-20, gyda'r newid ers 2018-19 wedi ei ddangos hefyd. Mae'r canlyniadau hyn ar sail y holl droeon y cyrchwyd y gwasanaethau neu'r deunyddiau gan sefydliadau yn yr ardal dan sylw.
- 2.1.26. Yn adroddiad sicrwydd 2018-19, Hawlio Cyfleoedd, nodwyd bod y data'n awgrymu nad oes perthynas uniongyrchol rhwng y ganran o siaradwyr Cymraeg mewn ardal a pherfformiad sefydliadau. Mae'r un tueddiadau i'w gweld eleni, gyda rhywfaint o newid:
- Mae perfformiad ar ei orau gyda sefydliadau'r gogledd-orllewin, ond mae'r perfformiad yn gyffelyb ar gyfer y gogledd-ddwyrain a'r canolbarth a'r gorllewin hefyd
 - Mae perfformiad sefydliadau'r gogledd-ddwyrain yn dal yn debyg i'r canolbarth a'r gorllewin er bod y ganran o siaradwyr Cymraeg yno dipyn go lew yn llai
 - Yn adroddiad 2018-19, nodwyd bod perfformiad sefydliadau yng nghanol de Cymru'n rhagori ar orllewin de Cymru a dwyrain de Cymru, er bod y ganran o siaradwyr Cymraeg yno'n debyg. Nid yw'r canlyniadau'n amrywio i'r fath raddau rhwng y tri rhanbarth hyn eleni. Mae'r canlyniadau'n amrywio tipyn o wasanaeth i wasanaeth, ond roedd perfformiad sefydliadau gorllewin de Cymru a dwyrain de Cymru wedi gwella'n sylweddol ar nifer o wasanaethau yn 2019-20.
- 2.1.27. Ar y cyfan, gydag ambell eithriad, mae'r perfformiad yn eithaf tebyg rhwng y rhanbarthau ar wasanaethau a deunyddiau ysgrifenedig. Mae'r amrywio mwyaf i'w weld yn achos gwasanaethau personol:
- Delio â galwadau ffôn: gogledd-orllewin 100%, canolbarth a gorllewin 83%, gogledd-ddwyrain 78%, canol de Cymru 56%, gorllewin de Cymru 33%, dwyrain de Cymru 22%
 - Delio ag ymholiadau derbynfa: gogledd-orllewin 100%, canolbarth a gorllewin 75%, gogledd-ddwyrain 33%, tri rhanbarth y de 0%
 - Mae tipyn o amrywio o ran cynnwys categori angen sgiliau Cymraeg mewn hysbysebion swyddi hefyd – gogledd-orllewin 100%, canolbarth a gorllewin 94%, dwyrain de Cymru 82%, gogledd-ddwyrain 74%, canol de Cymru 59%, gorllewin de Cymru 55%.

Canlyniadau gwirio cynghorau sir fesul rhanbarth (newid o gymharu â 2018-19)

	Holl gynghorau	Gogledd-orllewin ¹	Canol a gorllewin ²	Gogledd-ddwyrain ³	Gorllewin de Cymru ⁴	Canol de Cymru ⁵	Dwyrain de Cymru ⁶
Canran a nifer siaradwyr Cymraeg	19% 562,016	49% 146,168	32% 159,788	16% 58,238	12% 60,133	11% 77,703	10% 59,986
Ymateb Cymraeg i ohebiaeth Gymraeg (lle derbyniwyd ymateb o gwbl)	94% ▲2%	100% ▲2%	100% ▲2%	100% ▲2%	100% ▲11%	86% ▼3%	83% ◀▶
Galwadau ffôn – opsiynau awtomatig ar gael yn Gymraeg	98% ▲2%	100% ◀▶	100% ▲22%	100% ◀▶	100% ◀▶	100% ◀▶	93% ▲7%
Galwadau ffôn – delio'n llawn â'r alwad yn Gymraeg	58% ▲2%	100% ◀▶	83% ▲8%	78% ▼8%	33% ▲11%	56% ▼15%	22% ▲4%
Derbynfeydd – delio â'r ymholiad yn Gymraeg	32% ▼23%	100% ◀▶	75% ◀▶	33% ◀▶	0% ▼66%	0% ▼66%	0% ▼17%
Ffurflenni ar gael yn Gymraeg	85% ▲20%	100% ◀▶	100% ◀▶	89% ▼11%	78% ▲34%	89% ▲22%	67% ▲28%
Datganiadau i'r wasg ar gael yn Gymraeg	95% ▼2%	100% ◀▶	100% ◀▶	100% ◀▶	78% ▼22%	100% ◀▶	94% ▲5%
Llyfrynau etc ar gael yn Gymraeg	92% ▲14%	100% ▲11%	100% ◀▶	100% ◀▶	78% ▲22%	78% ▲28%	94% ▲22%
Logo'n ymddangos yn Gymraeg	100% ▲6%	100% ◀▶	100% ◀▶	100% ◀▶	100% ◀▶	100% ◀▶	100% ▲22%
Tudalennau gwe ar gael yn Gymraeg	95% ▲3%	100% ▲2%	99% ▲1%	97% ▼1%	97% ▼1%	96% ▲7%	89% ▲6%
Negeseuon Facebook ar gael yn Gymraeg	95% ▲16%	100% ◀▶	97% ▲13%	100% ◀▶	89% ▲20%	91% ▼7%	94% ▲40%
Negeseuon Twitter ar gael yn Gymraeg	96% ▲12%	100% ◀▶	98% ▲14%	98% ▲5%	100% ▲24%	87% ▼13%	93% ▲25%
Hysbysebion swyddi'n cynnwys categori angen sgiliau Cymraeg	79% ▲6%	100% ▲5%	94% ▲31%	74% ▼9%	55% ▼31%	59% ▲9%	82% ▲10%
Hysbysebion swyddi ar gael yn Gymraeg	79% ▼5%	73% ▼26%	100% ▲2%	97% ▲2%	74% ▼1%	100% ◀▶	37% ▲3%

¹ Môn, Gwynedd, Conwy

² Powys, Ceredigion, Sir Gâr, Sir Benfro

³ Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam

⁴ Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr

⁵ Rhondda Cynon Taf, Caerdydd, Bro Morgannwg

⁶ Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy, Merthyr Tudful, Torfaen

2.2 Ansawdd gwasanaethau Cymraeg

- 2.2.1. Fe wnaethon ni edrych ar nifer o feini prawf er mwyn gweld a yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 2.2.2. Roedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn fwy ffafriol na'r Saesneg o ran amseroedd ymateb i ohebiaeth. Fodd bynnag, roedd gohebiaeth Saesneg ychydig yn fwy tebygol o gael ateb oedd yn ateb yr ymholiad yn llawn, ac o gael deunydd ychwanegol.
- 2.2.3. Ar gyfer y gwasanaethau eraill lle roedd modd gwirio, awgryma'r ffigurau fod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn tua 10% o achosion. Nid yw'r ffigwr hwn yn anferth, ond mae'n bwysig cofio y gall amharu ar ffydd pobl mewn gwasanaethau Cymraeg. Ar gyfer dogfennau ac ati, rhesymau cyffredin dros nodi bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol oedd bod testun ar goll, yn anghywir, neu'n llai amlwg yn y fersiwn Cymraeg, neu fod diwyg y fersiwn Saesneg yn well.

Canlyniadau gwirio – ansawdd gwasanaethau

GOHEBIAETH	
Gohebiaeth Gymraeg – amser ymateb ar gyfartaledd	1.04 diwrnod
Gohebiaeth Saesneg – amser ymateb ar gyfartaledd	1.12 diwrnod
Gohebiaeth Gymraeg – ymateb yn ateb yr ymholiad yn llawn	93%
Gohebiaeth Saesneg – ymateb yn ateb yr ymholiad yn llawn	100%
Gohebiaeth Gymraeg – darparwyd deunydd ychwanegol gyda'r ymateb	49%
Gohebiaeth Saesneg – darparwyd deunydd ychwanegol gyda'r ymateb	52%
Gohebiaeth Gymraeg – ymateb yn cynnwys llofnod / manylion cyswllt	84%
Gohebiaeth Saesneg – ymateb yn cynnwys llofnod / manylion cyswllt	81%
FFURFLENNI	
Ffurflenni'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	11%
DATGANIADAU I'R WASG	
Datganiadau'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	11%
LLYFRYN / PAMFFLED / TAFLEN / CERDYN	
Deunydd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	9%
HUNANIAETH GORFFORAETHOL	
Logo'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	5%
GWEFANNAU	
Tudalennau'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	11%
FACEBOOK	
Negeseuon yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	13%
TWITTER	
Negeseuon yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	11%
ARWYDDION	
Testun ar arwydd heb ei osod fel mai'r Gymraeg sy'n debygol o gael ei darllen gyntaf	16%
Testun ar arwyddion ddim yn gywir o ran ystyr a mynegiant	10%

2.3 Dylunio gwasanaethau i gynyddu defnydd o'r Gymraeg

- 2.3.1. Yn adroddiad sicrwydd 2018-19, Hawlio Cyfleoedd, fe wnaethon ni ddefnyddio ein hymchwil gwreiddiol a theori er mwyn dangos pwysigrwydd dylunio gwasanaethau mewn ffordd sy'n gwthio pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn hytrach na'r Saesneg. Fe wnaethon ni annog sefydliadau i gynnig gwasanaethau Cymraeg yn ddiofyn neu'n rhagweithiol – ddylai defnyddwyr ddim gorfod mynd allan o'u ffordd i ddefnyddio'r Gymraeg. Dylai'r iaith fod yn ddealladwy, gyda gwasanaethau'n ddwyieithog os oes modd.
- 2.3.2. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, cynhaliwyd gweithdai gwella gyda sefydliadau'n trafod dulliau ymarferol o fynd ati i greu cynnydd yn y nifer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg. Cynhaliwyd y gwaith monitro a'r cyfarfodydd sy'n sail i lawer o'r dystiolaeth yn y bennod hon tua'r un pryd â'r gweithdai, ac felly roedd yn rhy gynnar ar y pryd i weld newid sylweddol.

Cynnig y gwasanaeth Cymraeg yn ddiofyn neu'n rhagweithiol

- 2.3.3. Ar y cyfan, doedd sefydliadau ddim wedi gwneud newidiadau sylweddol i'w harferion.
- 2.3.4. Fodd bynnag, roedd ambell sefydliad wedi gwneud newidiadau syml ac effeithiol fel bod y gwasanaeth Cymraeg yn ymddangos fel yr opsiwn mwyaf amlwg. Er enghraifft:
- o Gwelodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod y niferoedd sy'n ffonio Floodline yn Gymraeg yn isel, ond roedd yr opsiwn ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth Cymraeg yn rhif 5, felly newidiwyd y drefn fel bod y gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnig yn syth i alwyr o Gymru. Byddant yn monitro'r defnydd o'r gwasanaeth yn dilyn y newid hwn
 - o Mae gwefan S4C yn Gymraeg yn ddiofyn.

Gwasanaethau sy'n apelio at siaradwyr Cymraeg

- 2.3.5. Dywedodd rhai sefydliadau eu bod yn talu sylw i ystadegau defnydd ac yn ceisio'u defnyddio i sicrhau bod eu gwasanaethau Cymraeg yn ateb anghenion siaradwyr Cymraeg.
- 2.3.6. Er enghraifft, mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru gyfrifon Twitter ar wahân yn Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r cynnwys ar y ddau gyfrif yn debyg ac yn rhannu'r un wybodaeth, ond maent yn defnyddio ystadegau ymgysylltiad er mwyn amserlennu trydariau yn y ffordd sy'n cael y mwyaf o ddarllenwyr yn y ddwy iaith.
- 2.3.7. Dywedodd mwy nag un sefydliad fod siaradwyr Cymraeg yn fwy parod i ddarllen dogfennau cryno yn Gymraeg. Gall hyn fod oherwydd bod dogfennau cymhleth yn arfer cael eu cyhoeddi yn Saesneg yn unig, bod fersiynau Cymraeg yn arfer bod mewn iaith anodd ei deall neu'n cynnwys gwallau. Nododd y ddau sefydliad isod fod ymgysylltiad wedi gwella ar gyfer y ddwy iaith wrth gyflwyno gwybodaeth mewn ffordd fwy syml ac atyniadol, ond bod y gwelliant yn fwy yn achos y Gymraeg:

- Mae Ofcom wedi gweld bod siaradwyr Cymraeg yn fwy tueddol o ymgysylltu â gwybodaeth sy'n cael ei chyflwyno ar ffurf fideos, ac felly'n bwriadu defnyddio mwy ar y cyfrwng
- Gwelodd Archwilio Cymru gynnydd mawr yn yr ymgysylltiad Cymraeg â'i adroddiad blynyddol cyffredinol yn sgil newid fformat yr adroddiad (yn y ddwy iaith) i fod yn fyrrach ac yn llai cymhleth, defnyddio iaith gliriach, a dylunio'n fwy atyniadol.

2.3.8. Dywedodd rhai sefydliadau fel Cyngor Celfyddydau Cymru ac Estyn eu bod wedi datblygu eu tŷn llais corfforaethol yn ystod y flwyddyn, gan olygu bod eu deunyddiau bellach yn fwy dealladwy i ddarllenwyr.

Gweithredu ar ddewis iaith

2.3.9. Clywsom fod rhai sefydliadau wedi rhoi trefniadau mewn lle i sefydlu dewis iaith defnyddwyr a gweithredu ar hynny ym mhob cyswllt dilynol. Er enghraifft:

- Mae Cronfa Gymunedol y Loteri'n adnabod dewis iaith fel rhan o'r sgwrs gychwynnol ag ymgeiswyr a derbynwyr grantiau. Caiff y dewis iaith ei gofnodi ar system rheoli cyswllt y sefydliad, sydd ar gael i staff ym mhob lleoliad – i mewn ac allan o'r swyddfa – gan eu bod yn defnyddio tabledi
- Mae Heddlu De Cymru wedi datblygu dull o adnabod a chofnodi unigolion sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg gyda nhw er mwyn gallu teilwra gwasanaethau ar eu cyfer lle mae hynny'n bosib, gyda 4,500 o unigolion wedi eu hadnabod hyd yma. Mae hyfforddiant i staff yn cynnwys sut i ddelio â siaradwyr Cymraeg a phwysigrwydd cofnodi'r dewis iaith.

Dewis iaith cleifion mewnol mewn ysbytai

2.3.10. Mae safonau penodol wedi eu gosod ar sefydliadau iechyd, sy'n ei gwneud yn ofynnol:

- Gofyn i gleifion mewnol ar eu diwrnod cyntaf yn yr ysbyty a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn ystod eu ymweliad
- Rhoi gwybod am y dymuniad hwnnw i staff sy'n debygol o gyfathrebu â'r cleifion hynny.

2.3.11. Mae BIP Betsi Cadwaladr yn prif-ffrydio gofynion y safonau drwy ei Gynllun Achredu Wardiau, sy'n cyflwyno cyfres o safonau i staff ynghylch ansawdd, diogelwch a gofal cleifion ar wardiau. Yn dilyn llwyddiant ei beilota ar wardiau penodol yn Ysbyty Gwynedd ar ddechrau 2017, cafodd Cynllun Dewis Iaith BIPBC ei ymestyn i gynnwys holl wardiau Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Glan Clwyd erbyn mis Mai 2019.

2.3.12. Golyga'r cynllun fod angen gofyn i gleifion beth yw eu dewis iaith. Wedi gwneud hyn – ac os yw'r claf yn cytuno i fod yn rhan o'r cynllun – gosodir maged logo iaith Gwaith ar y bwrdd gwyn magnetig wrth ymyl / uwchben gwely'r unigolyn, er mwyn arddangos i staff eu bod i gyfathrebu â nhw drwy gyfrwng y Gymraeg. Y tu hwnt i Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Glan Clwyd, mae'r Cynllun Dewis Iaith eisoes hefyd yn weithredol ar wardiau mewn nifer

o ysbytai cymunedol, a'r bwriad oedd i'w ymestyn ymhellach, drwy ei gyflwyno ar wardiau yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac mewn mwy o leoliadau cymunedol yn y gogledd-ddwyrain, yn ystod 2019-20.

- 2.3.13. Ar yr un pryd, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd bellach wedi dechrau peilota defnyddio sgriniau electronig i arddangos gwybodaeth am gleifion ar rai wardiau penodol yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae modd gosod y logo iaith Gwaith wrth enwau cleifion ar y sgriniau hynny, er mwyn ei gwneud yn haws i bawb weld pa unigolion sydd wedi dweud bod yn well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg.
- 2.3.14. Mae dau fwrdd iechyd arall wedi cyhoeddi pecyn ward, sy'n cynnwys adnoddau fel magnedau, laniards a phosteri i hwyluso adnabod a rhannu gwybodaeth am ddewis iaith cleifion mewnol a gallu iaith staff. Ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf mae wardiau gofal i'r henoed a phlant wedi eu derbyn, tra bod pob ward ymhob ysbyty ar draws tair sir ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi eu derbyn. Lluniwyd adnoddau i godi hyder staff neu eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg fwyfwy. Mae BIP Hywel Dda wedi adnabod pencampwyr iaith ym mhob ward bron, sydd ar gael i ddarparu cyngor neu nwyddau ac i ysbrydoli cydweithwyr.

Cyfarfodydd sy'n ymwneud â llesiant

Cefndir

- 2.3.15. Mae'n rhaid i gynghorau sir alluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd sy'n ymwneud â'u llesiant os ydynt yn dymuno hynny. Yn achos pob un ond dau o'r cynghorau, mae'n dderbyniol defnyddio cyfieithu ar y pryd.
- 2.3.16. Ceir dehongliad cyfreithiol o 'llesiant' yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn unol â hynny, gall cyfarfodydd ynghylch llesiant fod ynghylch 'iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol', 'amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod', 'addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden', 'perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol', 'cyfraniad a wneir at y gymdeithas', 'sicrhau hawliau a hawlogaethau', 'llesiant cymdeithasol ac economaidd', ac 'addasrwydd llefydd preswyl'. I blant, mae'n cynnwys 'datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol', ac i oedolion mae'n cynnwys 'rheolaeth ar fywyd pob dydd' a 'chymryd rhan mewn gwaith'.
- 2.3.17. Mae'r codau ymarfer i'r ddeddf yn pwysleisio pwysigrwydd y Gymraeg wrth asesu anghenion gofal unigolion. Yn benodol, mae paragraff 52, [cod ymarfer 3](#) yn nodi y "dylid cynnal asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg fel sy'n briodol i'r unigolyn neu'r teulu dan sylw. Ni ddylai gofyn am gael asesiad cyfrwng Gymraeg ohirio'r broses."
- 2.3.18. Fe wnaethon ni ofyn i 11 cyngor sir ateb cyfres o gwestiynau am eu cydymffurfiaeth â'r safonau hyn. Ymatebodd yr 11 sefydliad i'r cais.

Cyfarfodydd a gynhelir

- 2.3.19. Roedd y sefydliadau'n cynnal amrywiaeth fawr o gyfarfodydd sy'n ymwneud â llesiant unigolion, gyda'r rhai a nodwyd amlaf yn cynnwys:
- cyfarfodydd – amlddisgyblaethol / aml-asiantaeth; strategaeth diogelu/gwarchod; lles gorau; cynllunio gofal; cyfarfodydd ymgynghori/ asesu.
 - asesiadau – gofal / iechyd meddwl; cefnogaeth anabledd dysgu; iechyd / therapi galwedigaethol; tai, addasiadau tai a digartrefedd; gofal cymdeithasol ar gyfer gofalwyr, oedolion a phlant; galluedd meddyliol; asesiadau statudol a datganiadau anghenion addysgol arbennig
 - cyfweliadau – tystion sy'n agored i niwed; dan amheuaeth o bobl agored i niwed; ar gyfer gofalwyr / rhieni; adborth dinasyddion
 - eraill – cynadleddau achos; ymyriadau cyngor i ddefnyddwyr; apwyntiadau iechyd galwedigaethol a sesiynau cwnsela; ceisiadau bathodyn glas.
- 2.3.20. Roedd amrywiaeth o wahanol adrannau'n cael cyfarfodydd ag unigolion ynghylch eu llesiant, gan gynnwys adrannau addysg, priffyrdd, cynllunio, tai, safonau masnach, gwasanaethau cymdeithasol (oedolion a phlant), cefnogi pobl a gwasanaethau democrataidd.

Trefniadau i gydymffurfio â'r safonau

2.3.21. O ran trefniadau sefydliadau ar gyfer sefydlu dewis iaith:

- Nododd yr 11 sefydliad eu bod yn gofyn i unigolion os oeddent yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd o'r fath, gyda 3 sefydliad yn cadarnhau bod y dewis yn cael ei gynnig ar hyd y cyfnod cysylltu
- Cyfeiriodd 3 sefydliad at gynnig rhagweithiol, gyda 3 sefydliad arall yn nodi bod dewis iaith yn cael ei adnabod ar y pwynt cyswllt cyntaf. Nododd 2 sefydliad nad dymuniad iaith oedd dan sylw ond angen iaith, tra bod sefydliad arall yn adnabod iaith unigolyn cyn unrhyw gyfarfod
- Cadarnhaodd 2 sefydliad nad oedd trefn benodol ar draws holl adrannau'r sefydliad i gofnodi dewis iaith, gyda rhai adrannau heb systemau meddalwedd. Rhai adrannau hefyd heb unrhyw brosesau ffurfiol ar gyfer hyn
- Cyfeiriodd un sefydliad at system TG Eclipse, gyda nifer o gyfeiriadau at system WCCIS fel system lle roedd dewis iaith yn cael ei gofnodi.

2.3.22. O ran trefniadau sefydliadau ar gyfer galluogi unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfodydd os ydynt yn dymuno gwneud hynny:

- Nododd y mwyafrif o sefydliadau nad oeddent wedi defnyddio gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd llesiant, gan nodi y byddent yn ffafrio canfod staff sy'n siarad Cymraeg i gynnal y cyfarfod. Cyfeiriodd un sefydliad at natur sensitif a chyfrinachol cyfarfodydd o'r fath. Roedd 2 o'r sefydliadau hynny wedi cylchredeg canllaw / cyfarwyddyd i'w staff o ran sut i fynd ati i drefnu'r cyfarfodydd
- Awgrymodd 4 sefydliad mai defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd fyddai eu ffordd nhw o alluogi unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfodydd
- Darparodd un sefydliad nifer o atebion gwahanol gan amryw adrannau. Awgrymai hyn fod anghysondeb ar draws y sefydliad, gyda rhai adrannau yn defnyddio cyfieithu ar y pryd yn ganolog, ond rhai adrannau heb brosesau pendant mewn lle.

Staffio

2.3.23. Nododd rhai sefydliadau fod ganddynt ddigon o siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu gofal cymdeithasol i gwrdd â'r galw. Dywedodd eraill eu bod yn recriwtio mwy o staff, yn asesu sgiliau eu staff presennol, neu'n gwella sgiliau'r staff hynny.

2.3.24. Dywedodd Cyngor Sir Gâr fod ei Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Gofal a Chymunedau, sy'n cael ei gadeirio gan y Pennaeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, wedi cynnal ymarferiad data manwl i edrych ar y gweithlu. Cynhyrchodd y Cyngor adroddiad yn adnabod bylchau yng nghofnodion data sgiliau staff. Arweiniodd y gwaith at 5 cam gweithredu gan gynnwys:

- Cynnal sampl newydd o ddata sgiliau staff drwy asesiad ffurfiol yn hytrach na hunanasesu a chanfod fod 50% o'r sampl wedi tan-asesu
- Cwrs dysgu Cymraeg arbenigol 'Y Gymraeg i ofalwyr' a dargedwyd at staff mewnol a staff sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth ar ran y Cyngor;
- Peilot recriwtio am weithwyr cymdeithasol i swyddi lefel 4 Cymraeg yn hytrach na lefel 2 a thargedu ardaloedd daearyddol penodol.
- Awdit iaith yn dangos nifer fawr o swyddogion gofal cartref ar lefel 2. Cynhaliwyd cynllun hyfforddi penodol gyda'r nod o symud y swyddogion hynny i fyny un lefel i fod yn fwy hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Defnydd

- 2.3.25. Doedd y mwyafrif o sefydliadau ddim yn casglu data am nifer y cyfarfodydd llesiant a gynhaliwyd yn Gymraeg. Rhannodd 4 cyngor ffigurau a oedd yn dangos defnydd isel iawn. Rhannodd un sefydliad ddata ynghylch y nifer o'u cleientiaid gofal cymdeithasol sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf, ond doedd dim data ar gael fesul cyfarfod. Mae'r diffyg data'n ei gwneud yn anodd asesu digonolrwydd trefniadau sefydliadau, ac felly dylai sefydliadau fynd ati i gasglu gwell data.
- 2.3.26. Mae'r argraff gyffredinol – mai isel yw'r nifer o gyfarfodydd a gynhelir yn Gymraeg – yn destun pryder. Mewn sefyllfaoedd sensitif fel cyfarfodydd ynghylch llesiant – yn enwedig asesuadau a chyfarfodydd gofal cymdeithasol – i nifer fawr o siaradwyr Cymraeg bydd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg yn eu gwneud yn fwy cyfforddus ac yn fwy abl i fynegi eu teimladau a'u anghenion. Gall hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfodydd wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r deilliannau i'r unigolion dan sylw.
- 2.3.27. Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol gofyn i'r unigolion dan sylw a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, ac yna gweithredu ar sail hynny. Ond – gan fod gallu defnyddio'r Gymraeg yn gallu bod yn greiddiol i lesiant unigolion – nid yw'r safonau'n atal sefydliadau rhag cynnal cyfarfodydd yn Gymraeg yn ddiofyn os ydynt yn gwybod bod yr unigolion yn siarad Cymraeg. Wrth gwrs, mae'n bosib iawn y bydd angen recriwtio a hyfforddi mwy o staff sy'n siarad Cymraeg i alluogi hyn.

2.4 Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg

- 2.4.1. Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau hyrwyddo'u gwasanaethau Cymraeg. Mae nifer o ofynion penodol ynghylch gwneud hyn fesul gwasanaeth, ac mae yna hefyd gyfrifoldeb cyffredinol ar sefydliadau i hyrwyddo pob gwasanaeth Cymraeg.
- 2.4.2. Mae angen cymryd pob cyfle i wneud yn siŵr fod defnyddwyr yn gwybod am y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael. Mae'n bwysig pwysleisio wrth ddefnyddwyr fod y sefyllfa wedi gwella, a bod eu profiadau'n debygol o fod yn well nag yn y gorffennol.
- 2.4.3. Fel gyda dylunio gwasanaethau Cymraeg, roedd hwn yn fater a drafodwyd yn adroddiad sicrwydd 2018-19 a gweithdai gwella dilynol.

Hyrwyddo gwasanaethau penodol

- 2.4.4. Wrth wirio gwasanaethau yn 2019-20, fe wnaethon ni edrych ar nifer o feini prawf er mwyn gweld a oedd sefydliadau'n hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg.

Arolygon gwirio – hyrwyddo gwasanaethau

Llyfrynau, taflenni etc – fersiwn Saesneg yn datgan bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg	7%
Ffurflenni – fersiwn Saesneg yn datgan bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg	19%
Datganiadau i'r wasg – fersiwn Saesneg yn datgan bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg	22%
Peiriannau hunanwasanaeth – iaith ddiofyn yn Gymraeg neu ddwyieithog	25%
Gohebiaeth Saesneg – ymateb yn cynnwys datganiad yn croesawu gohebiaeth Gymraeg	31%
Derbynfeydd – pob aelod o staff y dderbynfa a oedd yn siarad Cymraeg yn gwisgo bathodyn yn nodi hynny?	36%
Gohebiaeth Gymraeg – ymateb yn cynnwys datganiad yn croesawu gohebiaeth Gymraeg	41%
Galwadau ffôn – neges peiriant ateb yn rhoi gwybod bod modd gadael neges yn Gymraeg	43%
Hysbysebion swyddi – ffurflen gais yn rhoi lle i nodi dewis iaith asesu	47%
Derbynfeydd – arwydd yn datgan bod croeso i ddefnyddio'r Gymraeg	51%
Hysbysebion swyddi – datganiad yn croesawu ceisiadau Cymraeg	58%
Galwadau ffôn – cynnig rhagweithiol o wasanaeth Cymraeg ar ddechrau'r alwad	67%
Gwefannau – tudalen sblash neu debyg yn cynnig y Gymraeg yn rhagweithiol?	69%
Peiriannau hunanwasanaeth – cynnig rhagweithiol o wasanaeth Cymraeg	75%
Tudalennau gwe – botwm 'Cymraeg' ar y fersiwn Saesneg	91%

- 2.4.5. Mae'n ymddangos mai canran eithaf isel o sefydliadau sy'n cymryd camau syml er mwyn rhoi gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael – cynnwys datganiad mewn llofnod e-bost ac ar ddeunyddiau, er enghraifft, neu roi bathodyn iaith Gwaith i staff derbynfa.

- 2.4.6. Ar wefannau, mae botwm newid iaith yn nodwedd gyffredin ac felly'n ffordd glir o roi gwybod i bobl fod y dudalen ar gael yn Gymraeg. Mae dau draean o sefydliadau hefyd yn rhoi cynnig rhagweithiol ar eu gwefannau, er enghraifft drwy ddefnyddio pop-yp neu dudalen sblash.
- 2.4.7. Mae canran debyg o sefydliadau'n defnyddio neges wedi ei hawtomeiddio ar ddechrau galwadau ffôn i roi dewis iaith rhagweithiol i bobl sy'n ffonio.
- 2.4.8. Yn ogystal â recriwtio swyddogion sy'n siarad Cymraeg i ganolfannau gwaith ar draws Cymru, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cymryd camau er mwyn ceisio cynyddu faint o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg. Gwnaed hyn ar draws Cymru. Er enghraifft, dyluniwyd poster yn hyrwyddo'r gwasanaeth Cymraeg a'i osod mewn lle amlwg yn yr holl ganolfannau gwaith ar draws Cymru. CCymerwyd camau eraill hefyd mewn canolfannau unigol. Er enghraifft, yng nghanolfan gwaith y Fenni, rhoddwyd nodyn dwyieithog yn nyddlyfr yr holl hawlwyd Credyd Cynhwysol a oedd yn cysylltu â'r swyddfa honno i dynnu sylw at y gwasanaeth Cymraeg sydd ar gael.
- 2.4.9. Mae Heddlu Gogledd Cymru'n nodi ar dudalennau cyflwyno timau plismona cymunedol a yw pob un o'r swyddogion yn siarad Cymraeg, neu'n dysgu Cymraeg neu'n siarad dim ond ychydig o Gymraeg, fel bod modd i bobl ffonio swyddog sy'n siarad Cymraeg os dymunant. Mae'r Heddlu hefyd wedi datblygu bathodynau felcro 'Siarad Cymraeg' a 'Dysgu Cymraeg' ar gyfer gwisgoedd Swyddogion Heddlu a Swyddogion Cefnogi Cymuned, er mwyn galluogi'r cyhoedd i adnabod sgiliau iaith staff yn gyflym pan fyddant ar ddyletswydd, a chyfrannu at ddelwedd ddwyieithog y sefydliad.
- 2.4.10. Mae Cyngor Sir Gâr wedi mynd ati i hyrwyddo lleoliadau gofal plant, gan nodi ar dudalennau gwe gwybodaeth i deuluoedd pa ganolfannau sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg a chyfeirio at y ddarpariaeth mewn llyfryn i hyrwyddo bod yn ddwyieithog yn y sir.

Ymgyrchoedd cynhwysfawr

- 2.4.11. Er bod enghreifftiau clodwiw o hyrwyddo gwasanaethau i'w gweld, ar y cyfan prin yw ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd sylweddol gan sefydliadau i wasanaethau Cymraeg.
- 2.4.12. Mae Cyngor Sir Gâr wedi parhau â'i ymgyrch 'Pa bynnag ffordd...', gan greu fideo'n dangos aelodau staff yn darparu gwasanaeth Cymraeg, ond dyna'r unig ymgyrch o'i math rydym yn ymwybodol ohoni ar hyn o bryd. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn datblygu prosiectau ac ymgyrchoedd fel 'Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg; ac 'Eich Cyngor, Eich Iaith, Eich Dewis'.
- 2.4.13. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri wedi datblygu siarter iaith sy'n esbonio'n syml beth y mae'r safonau'n ei olygu i gwsmeriaid a staff. Mae poster i'r siarter yn cael eu dangos yn nerbynfeydd swyddfeydd y Gronfa yng Nghymru, yn ogystal ag ar y we.
- 2.4.14. Mae Heddlu De Cymru wedi datblygu ei strategaeth gyfathrebu allanol er mwyn defnyddio'r we, cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau lleol a chenedlaethol fel Eisteddfod yr Urdd er mwyn:

- Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r safonau
 - Rhoi gwybod i'r cyhoedd fod holl wasanaethau Heddlu De Cymru ar gael yn Gymraeg
 - Tawelu meddyliau'r cyhoedd na fyddant yn cael gwasanaeth israddol os byddant yn defnyddio gwasanaethau Heddlu De Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg
 - Rhoi gwybod i'r cyhoedd ble y gallant gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad.
- 2.4.15. Gwelsom enghreifftiau pellach o golegau addysg bellach yn targedu myfyrwyr o ysgolion Cymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod am ddarpariaeth Gymraeg y coleg.
- 2.4.16. Nododd llawer o sefydliadau eu bod yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i roi sylw i'w gwasanaethau Cymraeg yn achlysurol, gyda sawl sefydliad yn dweud eu bod yn manteisio ar ylliau Cymraeg a Chymreig fel Dydd Gŵyl Dewi, a diwrnod Shwmae Sumae i wneud hynny.
- 2.4.17. Enghraifft dda o sefydliad yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth yw cyfrif Twitter @laithAmgueddfa Amgueddfa Cymru. Mae'r cyfrif hwn yn rhoi cip y tu ôl i'r llenni ar wahanol agweddau ar waith yr Amgueddfa o ran y Gymraeg, fel dylunio dwyieithog, cyfieithu, dysgu Cymraeg a dathlu llwyddiannau dysgwyr gyda'r hashnod #dysgwyrdisglair. Mae hyn yn ffordd ddyfeisgar o roi sicrwydd i ddefnyddwyr am wasanaethau Cymraeg y sefydliad, yn ogystal â rhannu arferion i fwy o sefydliadau.

Diwrnod Hawliau

- 2.4.18. Cynhaliodd y Comisiynydd Ddiwrnod Hawliau am y tro cyntaf ar 4 Rhagfyr 2019. Crëwyd brand arbennig ar gyfer y diwrnod, gan ddefnyddio'r hashnod #maegenihawl. Darparwyd pecyn o adnoddau ar gyfer sefydliadau, a oedd yn cynnwys dyluniadau ar gyfer posteri, beiros, llofnodion e-bost, a delweddau cyfryngau cymdeithasol; rhestr o negeseuon cyfryngau cymdeithasol, tabl gyda geiriad syml ar gyfer disgrifio hawliau, dyfyniad gan y Comisiynydd ar gyfer datganiadau i'r wasg, a fideos a gifs ar gyfer hyrwyddo.
- 2.4.19. Ein bwriad oedd bod sefydliadau'n gallu defnyddio adnoddau a brand cyson, ond addasu'r negeseuon ar gyfer eu cynulleidfau eu hunain. Cymerodd nifer dda o sefydliadau ran yn y diwrnod, gyda'r hashnod yn trendio yng Nghaerdydd a nifer o sefydliadau'n cael ymgysylltiad mawr â'u negeseuon. Bwriadwn adeiladu ar lwyddiant y diwrnod mewn blynyddoedd i ddod, ond wrth gwrs dylai sefydliadau hyrwyddo'u gwasanaethau Cymraeg yn barhaus drwy gydol y flwyddyn.

2.5 Tystiolaeth am ddefnydd o wasanaethau

- 2.5.1. Nid yw'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol casglu data ar y defnydd o wasanaethau, ond rydym yn annog sefydliadau i wneud hynny fel ffordd o fesur a yw gwasanaethau'n ateb anghenion siaradwyr Cymraeg, ac a yw ymdrechion i hyrwyddo'r gwasanaethau'n gweithio.
- 2.5.2. Lle mae data pendant ar gael, mae modd defnyddio hynny i gynllunio gwelliant dros amser. Er enghraifft, mae Dŵr Cymru wedi lansio ymgyrch yn ystod 2019-20 i gynyddu nifer y cwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg y cwmni i 25,000 erbyn 2025.
- 2.5.3. Nid yw sefydliadau'n mesur y defnydd o'u gwasanaethau Cymraeg fel mater o drefn. Mae'r data a gesglir gan rai sefydliadau'n ymddangos yn is na'r hyn a ddisgwylid pe bai'r holl gwsmeriaid sy'n gallu siarad Cymraeg yn gwneud hynny wrth ddelio â'r sefydliad.
- 2.5.4. Fodd bynnag, mae rhai enghreifftiau calonogol o gynnydd yn y defnydd. Nododd rhai sefydliadau eu bod wedi gweld cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r Gymraeg, ond nad oes ganddynt ddata. Roedd eraill wedi casglu data a oedd yn cadarnhau'r duedd. Er enghraifft:
 - Yn dilyn cyhoeddi adnoddau e-lyfrau newydd ar wefan Amgueddfa Cymru, gwelsant 31% o gynnydd yn nifer yr ymweliadau â thudalennau Cymraeg adran addysg eu gwefan
 - Mae Heddlu De Cymru wedi gweld cynnydd o dros 10% yn nifer y galwadau Cymraeg a dderbyniant yn eu canolfan alwadau 101 yn sgil gwarchod 25 o swyddi fel rhai â sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Mae'r sefydliad yn ystyried cynyddu nifer y staff â sgiliau Cymraeg er mwyn ateb y galw cynyddol
 - Mae'r defnydd o nifer o wasanaethau ar-lein Cymraeg y DVLA wedi parhau i gynyddu, er enghraifft y gwasanaeth Trwyddedu Cerbyd wedi cynyddu 14%, Rhifau Cofrestru Personol wedi cynyddu 41%, a Rheolaeth Cerbyd wedi cynyddu 344%. Mae'r DVLA hefyd wedi gweld cynnydd o 35% mewn galwadau Cymraeg o gymharu â'r flwyddyn flaenorol – er bod nifer y galwadau Saesneg wedi gostwng yn yr un cyfnod.
- 2.5.5. Mae rhai sefydliadau wedi sylwi ar dueddiadau a all gynnig ffyrdd i sefydliadau eraill gynllunio'u darpariaeth mewn ffordd sy'n ateb anghenion y cyhoedd. Er enghraifft, nododd dau sefydliad sy'n prosesu ceisiadau am grantiau fod defnydd llafar o'r Gymraeg yn ystod prosesau'n fwy cyffredin o lawer erbyn hyn, tra bod defnydd ysgrifenedig yn is na defnydd llafar. Gall hyn fod oherwydd bod mwy o bobl, gan gynnwys ymgynghorwyr allanol, ynghlwm â cheisiadau ysgrifenedig, tra bod cyswllt llafar yn tueddu i fod un-i-un.

3 Trefniadau cydymffurfio

Mae'n anodd gen i gredu y gall unrhyw bennaeth sefydliad fod yn fodlon â sefyllfa lle mae ei sefydliad yn methu cydymffurfio â gofynion statudol sylfaenol.

Ni ddylai sefydliadau ddisgwyl am ganlyniadau monitro neu ymchwiliad gen i cyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol hyn.

Nid ymarferiad tic-yn-y-bocs yn unig ddylai cydymffurfio fod. Dylid gosod siaradwyr Cymraeg – cwsmeriaid y sefydliad – yn ganolog. Mae angen rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr fod prosesau'r sefydliad yn ddigonol. Mae angen deall profiadau defnyddwyr – drwy wirio gwasanaethau a gwranddo ar bobl. Mae angen ymateb yn gadarnhaol i gwynion a phryderon pobl.

Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol cael trefniadau i oruchwyllo cydymffurfiaeth. Gall sefydliadau ddewis pa bynnag ddulliau – gwirio, adrodd mewnol, risg, archwilio, cynlluniau gweithredu ac ati – sydd fwyaf addas ar eu cyfer nhw, ond mae'n rhaid rhoi trefniadau mewn lle. A dylai'r trefniadau hynny gael holl awdurdod llywodraethiant y sefydliad y tu ôl iddynt – mae angen i arweinwyr ei gwneud yn glir, drwy brosesau a diwylliant, fod cwrdd â'r gofynion yn flaenoriaeth.

Mae peidio â chael swyddog, rheolwr neu uned arbenigol yn gweithio'n benodol ar wella darpariaeth Gymraeg y sefydliad yn creu risg o fethu â hyrwyddo'r Gymraeg yn unol â'r Mesur.

Roedd yn dda gweld bod sefydliadau wedi sefydlu trefniadau boddhaol ar gyfer cyfieithu, a bod y costau wedi eu hamsugno i gostau arferol y sefydliad. Gallai arloesi o ran awtomeiddio gwaith, a hwyluso drafftio dwyieithog, greu arbedion i alluogi buddsoddi mewn agweddau eraill ar y ddarpariaeth Gymraeg.

Barn y Comisiynydd

"Dwi wedi gweld newid yn y cynllunio sy'n digwydd yma o ran y Gymraeg, o'i gymharu gyda'r amser cyn cyflwyno'r safonau. Crewyd grŵp tasg a gorffen a chael aelod o staff i weithredu – mae hyn wedi bod yn fuddiol iawn."

Aelod staff mewn grŵp trafod

"Mae'r ffordd rydyn ni'n gweithredu o ran y Gymraeg yn hollol ad-hoc – hap a damwain os oes rhywun yn siarad Cymraeg ac yn gwneud i bethau ddigwydd. Does dim blaen-gynllunio yn digwydd i sicrhau bod pethau wedi eu gwreiddio mewn polisïau a systemau."

Aelod staff mewn grŵp trafod

3.1 Monitro mewnol

- 3.1.1. Mae safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gyhoeddi trefniadau ar gyfer goruchwyllo'u cydymffurfiaeth. Mae'n bwysig fod gan sefydliadau drefniadau ar gyfer gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod beth yw lefel cydymffurfiaeth o fewn y sefydliad, ac adnabod unrhyw ddiffygion er mwyn mynd i'r afael â nhw.
- 3.1.2. Roedd gan gyfran o sefydliadau, ond nid y cwbl o bell ffordd, drefniadau rhagweithiol i ganfod sut roedden nhw'n perfformio. Dywedodd sawl sefydliad eu bod yn gweithredu pan oedd diffyg yn dod i'r golwg, ond ddim yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio canfod beth oedd lefelau cydymffurfiaeth.

Gwirio uniongyrchol

- 3.1.3. Gwelsom fod gan sawl sefydliad drefniadau i wirio gwasanaethau'n uniongyrchol. Er enghraifft:
- o Mae CBS Conwy'n defnyddio staff y Cyngor, sy'n siaradwyr Cymraeg, i wirio gwasanaethau e-bost, ffôn a derbynfa
 - o Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn defnyddio tîm staff mewnol i hapwrio gwasanaethau
 - o Mae'r BBC yn comisiynu cwmni allanol i wneud awdit, ac weithiau'n defnyddio tîm archwilio mewnol y BBC ar gyfer archwiliadau hefyd.
 - o Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n cynnal hapwiriadau ar gyfer y prif wasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd, fel y prif rif ffôn a'r wefan
 - o Yn Heddlu Dyfed Powys, mae aelodau'r grŵp laith ar Waith yn cael y dasg o fod yn siopwyr cudd ac adrodd yn ôl i'r grŵp, gyda'r swyddogion iaith yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n dod i'r amlwg. Cynhelir archwiliad allanol bob 6 mis er mwyn gwirio cydymffurfiaeth.
- 3.1.4. Mae gan rai sefydliadau drefniadau penodol ar gyfer rhai gwasanaethau. Er enghraifft, mae golygyddion gwefan Prifysgol Abertawe'n derbyn adroddiad dyddiol pan fo tudalennau'n cael eu addasu, fel bod y golygyddion wedyn yn sicrhau ansawdd yr addasiadau a bod deialog yn cael ei dechrau gyda'r adran briodol am bwysigrwydd dwyieithrwydd pan nad yw'r un addasiadau wedi digwydd i'r fersiynau Cymraeg.

Atebolrwydd mewnol

- 3.1.5. Mae sefydliadau eraill yn rhoi'r pwyslais ar hunan-werthuso ac adrodd yn fewnol. Er enghraifft:
- o Cynhaliodd CBS Blaenau Gwent archwiliad mewnol o gydymffurfiaeth yn ddiweddar, lle roedd yn ofynnol i bob pennaeth gwasanaeth adrodd ar weithredu'r safonau. Mae cyfrifoldeb am weithredu'r safonau'n effeithlon wedi ei ddirprwyo i staff ar draws pob cyfarwyddiaeth ac adran, ac felly roedd yr archwiliad yn gyfle i'r Tim Arweinyddiaeth Gorfforaethol gael sicrwydd am gydymffurfiaeth. Daeth yr archwiliad i'r casgliad fod 'sicrwydd rhesymol'
 - o Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi creu templed sgorio i Benaethiaid Gwasanaeth adolygu eu cydymffurfiaeth â'r safonau. Mae'r Prif

Weithredwr a'r swyddog iaith Gymraeg wedi cynnal cyfarfodydd un-i-un gyda phob Pennaeth Gwasanaeth am y drydedd flwyddyn yn olynol. Trafodwyd y canfyddiadau gan gymharu sgoriau eleni â rhai'r llynedd. Yn ystod y broses hon, roedd cyfle i adnabod unrhyw gefnogaeth bellach sydd ei hangen ar y gwasanaethau unigol

- Mae Estyn yn gweithredu prosesu hunanasesu ac asesu cymheiriaid sy'n cynnwys trafodaeth gyda chydweithwyr ynghylch cydymffurfiaeth, a pharatoi dadansoddiad i'w drafod mewn gweithgor iaith Gymraeg, lle mae'r safonau sy'n berthnasol i bob tîm yn cael eu dangos ar sgrîn a'r aelod staff arweiniol yn esbonio sut mae'r tîm wedi gweithredu'r safonau – nodar sefydliad fod y broses wedi creu perchnogaeth
- Mae Prifysgol Met Caerdydd yn defnyddio system raddio 1-5 ar gyfer hunanfonitro, ac yn cymharu'r canlyniadau â chanfyddiadau arolygon siopwr cudd. Newidiodd y Brifysgol o ddefnyddio system golau traffig gan fod graddio 1-5 yn ddull mwy effeithiol o olrhain cynnydd rhwng cyfnodau monitro.

3.1.6. Wrth baratoi i ddechrau gweithredu'r safonau, aeth byrddau iechyd ati i gynnal asesiadau i asesu lefel cydymffurfedd ac adnabod risgiau o fethiant, gan lunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a amlygwyd. Roedd rhai (fel BIP Betsi Cadwaladr a BIP Hywel Dda) wedi gwneud hyn ymhell cyn y diwrnod gosod cyntaf, fel bod digon o amser i wneud gwelliannau er mwyn cydymffurfio o'r diwrnod gosod ymlaen.

3.1.7. Erbyn hyn mae'r gofyniad i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn cael ei gynnwys gan archwilwyr annibynnol Partneriaethau Cydwasanaethau GIG Cymru pan fyddant yn cynnal archwiliadau. Yn ystod y flwyddyn roedd pump o gyrff GIG Cymru wedi derbyn archwililad. Mewn un achos, arweiniodd hyn at sefydliad yn cynnwys y diffygion mwyaf ar gofrestr risg gyffredinol y sefydliad, gan sicrhau bod y mater yn cael ei ddyrchafu yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.


3.2 Atebolrwydd cyhoeddus

- 3.2.1. Mae'n ofynnol i sefydliadau gyhoeddi adroddiadau blynyddol safonau'r Gymraeg, yn adrodd ar y ffordd y gwnaethon nhw gydymffurfio yn ystod y flwyddyn, ac yn cynnwys data penodol. Mae'r adroddiad blynyddol yn gyfle i sefydliadau ddangos pa drefniadau sydd ganddynt ar fynd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio, a rhoi sicrwydd cyhoeddus.
- 3.2.2. Mae hefyd yn ofynnol i sefydliadau gyhoeddi nifer o ddogfennau atodol. Dyma'r dogfennau sy'n rhoi cyfle i sefydliadau roi gwybod i ddefnyddwyr beth yw eu darpariaeth Gymraeg, a rhoi sicrwydd fod ganddynt drefniadau digonol i gadw golwg ar gydymffurfiaeth, i hyrwyddo defnydd o'u darpariaeth, ac i ddelio'n gadarn ag unrhyw gwynion.

Cyhoeddi adroddiadau blynyddol

- 3.2.3. Fe wnaethon ni wirio a oedd sefydliadau wedi llunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg, ac a oedd yr adroddiadau'n cynnwys yr holl ystadegau sy'n ofynnol.

	Cyfanswm	Rheoliadau rhif 1	Rheoliadau rhif 2	Rheoliadau rhif 4	Rheoliadau rhif 5	Rheoliadau rhif 6
Wedi llunio adroddiad blynyddol	87%	96%	77%	100%	64%	100%
Wedi adrodd ar nifer cwynion	85%	88%	77%	100%	64%	100%
Wedi adrodd ar sgiliau Cymraeg staff	82%	96%	74%	-	57%	92%
Wedi adrodd ar nifer / canran staff a fynychodd gyrsiau penodol	51%	58%	42%	-	29%	67%
Wedi adrodd ar gategori swyddi gwag / newydd	81%	88%	71%	-	64%	96%
Wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r adroddiad	18%	23%	26%	0%	14%	8%




- 3.2.4. Mae methiant rhai sefydliadau i gyhoeddi adroddiad blynyddol yn awgrymu methiant i oruchwylio cydymffurfiaeth â'r safonau, ac mae'n creu risg o ddiffyg tryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus.
- 3.2.5. Mae'n ymddangos fod y broblem yn gyfyngedig i sefydliadau rheoliadau rhif 2 a rhif 5, ac mae'r sefydliadau sydd heb gyhoeddi adroddiad yn tueddu i fod yn rhai llai, sy'n cael traweffaith cyfyngedig ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd ambell sefydliad heb gyhoeddi adroddiad ar ei wefan fel sy'n ofynnol, ond yn hytrach wedi ei anfon at y Comisiynydd.
- 3.2.6. Roedd bron y cwbl o'r sefydliadau a oedd wedi cyhoeddi adroddiad wedi adrodd ar nifer y cwynion y gwnaethon nhw eu derbyn. Mewn llawer o achosion, doedd y sefydliadau ddim wedi adrodd ar gwynion fesul dosbarth o safonau fel mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol, ond yn hytrach wedi rhoi swm cyffredinol.
- 3.2.7. Roedd bron y cwbl o'r sefydliadau a oedd wedi cyhoeddi adroddiad wedi adrodd ar nifer y staff sy'n siarad Cymraeg, ac ar sut cafodd swyddi gwag a newydd eu categoreiddio, hefyd. (Nid yw'r safonau gweithredu wedi eu gosod ar y mwyafrif o sefydliadau rheoliadau rhif 4 felly nid ydym wedi cynnwys data ar gyfer y sefydliadau hyn).

- 3.2.8. Mae'r canrannau is sydd wedi adrodd ar y nifer o staff a fynychodd gyrsiau iechyd a diogelwch, ymsefydlu ac ati yn Gymraeg yn codi cwestiwn ynghylch y sylw mae sefydliadau'n ei roi i ofynion y safonau. Mae rhai sefydliadau a wnaeth adrodd wedi gwneud hynny'n rhannol yn unig.
- 3.2.9. Awgrymai ein gwaith monitro nad oedd y mwyafrif o sefydliadau wedi mynd ati i roi cyhoeddusrwydd i'r adroddiad y tu hwnt i'w gyhoeddi ar y wefan. Ar ben methu â chydymffurfio â gofyniad penodol, mae hyn hefyd yn golygu bod sefydliadau'n colli cyfle i hyrwyddo'u darpariaeth Gymraeg i'r cyhoedd.
- 3.2.10. Yn ogystal â'r manylion uchod y mae'n rhaid eu cynnwys, gall sefydliadau hefyd ddefnyddio'r adroddiadau i sôn am y camau a roddwyd ar waith er mwyn cydymffurfio a hyrwyddo'r Gymraeg. Roedd yr adroddiadau'n amrywio'n fawr o ran eu hansawdd, gyda rhai'n mynd i fanylder defnyddiol wrth nodi gweithgareddau niferus yr ymgwymerwyd â hwy er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a hybu'r Gymraeg yn fwy cyffredinol, ac eraill yn cynnwys sylwadau a ffigurau moel yn unig.

Cyhoeddi dogfennau atodol

- 3.2.11. Gwiriwyd a oedd sefydliadau rheoliadau rhif 1, 2, 4, 5 a 6 wedi cyhoeddi'r dogfennau atodol sy'n ofynnol.

	Cyfanswm	Rheoliadau rhif 1	Rheoliadau rhif 2	Rheoliadau rhif 4	Rheoliadau rhif 5	Rheoliadau rhif 6
Wedi cyhoeddi cofnod o safonau a osodwyd ar y sefydliad	90%	100%	77%	100%	85%	96%
Wedi cyhoeddi esboniad o sut y bwriedir cydymffurfio	66%	65%	65%	83%	77%	58%
Wedi cyhoeddi trefniadau goruchwyllo, hybu a hwyluso	48%	46%	52%	0%	38%	63%



- 3.2.12. Mater o gyhoeddi'r hysbysiad cydymffurfio ar wefan y sefydliad yw cyhoeddi cofnod o'r safonau sy'n berthnasol i'r sefydliad, ac felly er bod 86% o'r sefydliadau a wiriwyd wedi gwneud hynny, mae'r ffaith fod 10% o sefydliadau heb wneud hynny'n codi cwestiynau am drefniadau'r sefydliadau hynny.
- 3.2.13. Mae traean o sefydliadau heb roi gwybod i ddefnyddwyr sut y byddant yn mynd ati i gydymffurfio, a dros hanner heb nodi trefniadau goruchwyllo a hyrwyddo. Mae'r ffaith eu bod yn anwybyddu'r gofyniad yn bryder ynddo'i hun, ond mwy difrifol yw'r amheuaeth fod y methiant hwn yn golygu nad oes trefniadau mewn lle gan y sefydliadau.
- 3.2.14. Mewn rhai achosion, roedd y dogfennau trefniadau a gyhoeddwyd yn dangos bod y sefydliad wedi meddwl o ddifri:
- Beth yw gofynion y safonau
 - Beth yw'r bwlch rhwng y ffordd yr oedd yn gweithredu'n flaenorol a sut mae angen gweithredu er mwyn cydymffurfio
 - Pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn cydymffurfio, beth yw'r amserlen a phwy sy'n gyfrifol.
- 3.2.15. Roedd rhai o'r dogfennau mwyaf effeithiol ar ffurf cynllun gweithredu ar gyfer cydymffurfio â phob safon neu bob grŵp o safonau. Roedd eraill yn canolbwyntio ar heriau mwy strategol yr oedd yn rhaid i'r sefydliad eu goresgyn, er enghraifft cael mwy o staff sy'n siarad Cymraeg. Doedd eraill yn gwneud fawr mwy na disgrifio gofynion y safonau, heb ddangos sut y byddai'r sefydliad yn gweithredu'n wahanol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg ar gael.


3.3 Gweithredu ar sail cwynion a phrofiadau defnyddwyr

- 3.3.1. Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gyhoeddi gweithdrefn gwyno, sy'n nodi beth yw trefniadau'r sefydliad ar gyfer delio â chwynion ynghylch cydymffurfio â'r safonau. Mae'n rhaid i sefydliadau gadw cofnod o gwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg hefyd. Mae cwynion yn ddull pwysig o ddysgu am yr hyn sy'n mynd o'i le, ac yn gyfle i gywiro diffygion. Gall trefniadau effeithiol i ddelio â chwynion yn lleol hefyd olygu bod defnyddwyr yn gyfforddus i wneud hynny yn hytrach na gwneud cwyn i'r Comisiynydd, a all arwain at ymchwiliad.
- 3.3.2. Yn ogystal â delio â chwynion fel mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol, gall sefydliadau fynd ati i ofyn neu chwilio am adborth gan ddefnyddwyr ynghylch eu profiadau – cadarnhaol a negyddol – o ddarpariaeth Gymraeg y sefydliad. Gall hyn fod yn ddull o oruchwyllo cydymffurfiaeth, a bydd yn gwella dealltwriaeth y sefydliad o'i berfformiad.

Cyhoeddi gweithdrefn gwyno a chofnodion cwynion

- 3.3.3. Roedd bron i 40% o'r sefydliadau a wiriwyd heb gyhoeddi gweithdrefn gwyno.

	Cyfanswm	Rheoliadau rhif 1	Rheoliadau rhif 2	Rheoliadau rhif 4	Rheoliadau rhif 5	Rheoliadau rhif 6
Wedi cyhoeddi gweithdrefn gwyno	63%	58%	58%	0%	100%	67%



- 3.3.4. Doedd nifer o'r gweithdrefnau cwyno ddim yn cyfeirio at bob agwedd y mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol, e.e. hyfforddi staff. Mewn sawl achos, y cwbl roedd sefydliadau'n ei wneud oedd nodi y byddent yn delio â chwynion am gydymffurfio'n unol â'u gweithdrefnau cwyno corfforaethol. Gall delio â chwynion am y Gymraeg mewn ffordd sy'n gyson â chwynion eraill fod yn ddull priodol ac effeithiol o weithredu, ond yn yr achosion a welwyd, doedd y gweithdrefnau corfforaethol ddim yn cynnwys fawr ddim gwybodaeth benodol am y Gymraeg. Doedd y sefydliadau ddim yn rhoi sicrwydd penodol, felly, eu bod yn delio'n effeithiol â chwynion am y Gymraeg.

- 3.3.5. Fel y nodwyd yn 3.2.3 uwchben, roedd bron y cwbl o'r sefydliadau a oedd wedi cyhoeddi adroddiad wedi adrodd ar nifer y cwynion y gwnaethon nhw eu derbyn (87% o sefydliadau wedi llunio adroddiad blynyddol, ac 85% wedi adrodd ar nifer y cwynion).
- 3.3.6. Wrth ddadansoddi'r niferoedd a gyhoeddwyd fesul sefydliad, gwelwyd mai canran eithaf isel o sefydliadau oedd wedi derbyn cwynion, a'r rhan fwyaf o'r rheiny wedi derbyn nifer isel o gwynion:
- Roedd hyn yn arbennig o wir ymysg sefydliadau rheoliadau rhif 2 (16% wedi derbyn cwynion), 4 (0%), a 5 (7%); 4 oedd y nifer uchaf o gwynion i unrhyw sefydliad ei dderbyn, gyda'r mwyafrif wedi derbyn 1-3
 - Roedd 42% o sefydliadau rheoliadau rhif 6 wedi derbyn cwynion, ac roedd y rhain yn cynnwys 3 sefydliad oedd wedi derbyn rhwng 6 ac 11 o gwynion
 - Sefydliadau rheoliadau rhif 1 oedd fwyaf tueddol o fod wedi derbyn cwynion yn lleol, gyda 64% o'r sefydliadau wnaeth adrodd wedi cael o leiaf un gŵyn. Roedd 32% wedi cael rhwng 1 a 5 cwyn, 20% wedi cael rhwng 6 a 10 cwyn, a 3 sefydliad wedi cael mwy na hynny.

Gweithredu ar sail cwynion ac ymchwiliadau

- 3.3.7. Gwyddom fod sawl sefydliad yn sicrhau bod pennaeth y sefydliad yn ymwybodol o gwynion. Er enghraifft:
- Yn y Gwasanaethau Tân ac Achub, mae cwynion yn cael eu monitro a'u trin gan yr Adran Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth. Mae cwynion a llythyron o werthfawrogiad yn cael eu hadrodd yn flynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub
 - Ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae adroddiad chwarterol ar gwynion yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethiant a Chydymffurfio, ac yna'n mynd ymlaen i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Cyngor, gan sicrhau bod adrodd ar gwynion ynghylch y Gymraeg wedi ei wreiddio ym mhrif lif llywodraethiant y Brifysgol.
- 3.3.8. Yn ystod 2019-20 rydym wedi rhoi ffocws manwl ar wirio bod sefydliadau'n gweithredu camau gorfodi mae'r Comisiynydd wedi eu gosod yn dilyn ymchwiliadau. Mae'n ofynnol i sefydliadau ein diweddarau ar gyflawniad camau gorfodi. Lle nad yw camau gorfodi'n cael eu cyflawni, rydym yn cymryd camau er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae gan y Comisiynydd nifer o bwerau y gall eu defnyddio mewn sefyllfa o'r fath, er enghraifft cynnal ymchwiliad neu wneud cais i Lys Sirol am orchymyn.
- 3.3.9. O'r camau gorfodi y gwnaethon ni eu monitro rhwng mis Mehefin 2019 a mis Mawrth 2020, roedd 103 wedi eu cyflawni. Rhoddwyd estyniad i'r sefydliadau gyflawni 13 cam gorfodi pellach, a byddwn yn sicrhau bod y camau hyn hefyd yn cael eu cwblhau erbyn y dyddiad gofynnol diwygiedig.

3.3.10. Mae ymchwiliadau'r Comisiynydd wedi arwain yn uniongyrchol at wella perfformiad sefydliadau. Er enghraifft:

- Cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad lle dyfarnodd fod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyhoeddi memorandwm esboniadol yn Gymraeg ar gyfer is-ddeddfwriaeth oedd yn ymwneud â'r Gymraeg. Yn unol â'r cam gorfodi i "gymryd camau i sicrhau eu bod yn asesu a oes angen i Femoranda Esboniadol gael eu gosod yn Gymraeg gan ystyried pwnc y ddogfen a'r gynulleidfa a ragwelir a'u disgwyliadau", mae'r sefydliad yn y broses o roi trefniadau trylwyr mewn lle. Mae'r trefniadau hynny'n cynnwys awdit o'r holl offerynnau statudol a gyflwynwyd mewn blwyddyn galendr, sefydlu proses ar gyfer blaenoriaethu memoranda, a chynnal asesiad llawn o'r cyfrif geiriau gyda'r nod o gynyddu'r nifer o femoranda a osodir yn ddwyieithog i'r dyfodol
- Cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad i wasanaethau ffôn Cyfoeth Naturiol Cymru. Gwnaeth yr ymchwiliad yn glir nad yw'n dderbyniol cynnig gwasanaeth Cymraeg drwy ffonio ymholydd yn ôl, a gosodwyd camau gorfodi'n ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad ddatblygu trefniadau – un ai drwy ddefnydd o staff sy'n medru darparu gwasanaeth Cymraeg, neu drwy ddefnydd o dechnoleg – er mwyn delio â galwadau Cymraeg yn eu cyfanrwydd yn Gymraeg, heb doriad yn y gwasanaeth Cymraeg. O ganlyniad i'r ymchwiliad, mae'r sefydliad wedi cyflwyno system galwadau ffôn newydd sy'n gwahodd galwyr i bwyso 1 am wasanaeth Cymraeg a 2 am wasanaeth Saesneg. Wedi hynny, mae'r rhai sy'n dewis gwasanaeth Cymraeg yn cael eu cyfeirio'n syth at siaradwr Cymraeg.

3.3.11. Clywsom mewn cyfarfodydd adborth hefyd am sefydliadau'n newid eu trefniadau mewn ymateb i gwynion uniongyrchol neu yn sgil ymchwiliadau'r Comisiynydd (a chatau gorfodi dilynol mewn rhai achosion). Er enghraifft:

- Yn dilyn ymchwiliad i gŵyn am ohebiaeth, mae CBS Rhondda Cynon Taf wedi datblygu coeden benderfynu ar gyfer sefydlu pa ohebiaeth sydd angen i wasanaethau ar draws y Cyngor ei hanfon yn Gymraeg
- Yn dilyn cwynion amrywiol, mae Amgueddfa Cymru wedi newid canllaw dylunio i sicrhau bod y Gymraeg yn fwy amlwg na'r Saesneg; sicrhau bod modd siarad Cymraeg yn y caffi sy'n cael ei redeg gan drydydd parti, er nad yw'n dod dan y safonau a bod y contract yn bodoli cyn y safonau; ac wedi newid strwythur staffio hwyluswyr a chyhoeddi canllawiau i staff
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymateb i gwynion drwy ddarparu hyfforddiant wedi ei deilwra i aelod staff penodol; newid peiriant hunanwasanaeth; a newid trefniadau staffio mewn canolfan
- Adolygodd Prifysgol Glyndŵr ei threfniadau ar gyfer hysbysebu swyddi yn sgil ymchwiliad gan y Comisiynydd, ac roedd ein gwaith gwirio eleni'n dangos gwelliant.

Chwilio am adborth defnyddwyr

3.3.12. Clywsom am rai sefydliadau'n mynd ati i ofyn i ddefnyddwyr am eu profiadau o ddarpariaeth Gymraeg y sefydliad. Er enghraifft:

- o Mae Estyn yn gofyn cwestiynau mewn holiaduron yn dilyn digwyddiadau ymgysylltu neu hyfforddiant allanol, sy'n ei alluogi i asesu a wnaeth y digwyddiad fodloni gofynion iaith Gymraeg cyfranogwyr
- o Mae Coleg y Cymoedd yn gweithredu rhaglen fonitro ansawdd cyffredinol drwy 'wythnosau ansawdd', cyfres o wythnosau lle bydd y Coleg yn cynnal ymarferion hunan-arolygu ar themâu amrywiol. Mae'r Coleg yn pwysu a mesur ymateb y dysgwyr i gyfleoedd i ddysgu am Gymru a'i diwylliant a defnyddio'r Gymraeg drwy gwestiynau yn yr wythnosau ansawdd ynghyd ag ymatebion i Arolygon Dysgwyr a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

3.4 Arweiniad ac arbenigedd

- 3.4.1. Yn adroddiad sicrwydd 2018-19, Hawlio Cyfleoedd, amlygwyd pwysigrwydd dwy brif rôl – arweinydd strategol ar y lefelau uchaf o fewn y sefydliad, ac arbenigwr sy'n cynnig cefnogaeth ac yn cydlynu gwaith y sefydliad ar lefel weithredol. Nid yw'n ofynnol i sefydliadau wneud hyn, ond ein dadansoddiad ni yw bod sefydliadau sydd â swyddogion yn cyflawni'r rolau hyn yn effeithiol yn cydymffurfio'n well â'r dyletswyddau.

Arweiniad strategol

- 3.4.2. Ein hargraff wrth holi sefydliadau eleni oedd bod gan y rhan fwyaf o sefydliadau unigolyn ar lefel uchel sy'n gyfrifol am y Gymraeg. Fel arfer, roedd yr unigolyn hwn yn gyfrifol am gadeirio grŵp yn cadw gorolwg ar gydymffurfiaeth, neu'n darparu atebolrwydd mewn ffordd arall, ac yn gweithredu fel rheolwr llinell (uniongyrchol neu anuniongyrchol) ar gyfer swyddog neu reolwr y Gymraeg. Roedd amrywiaeth o ran faint o ymwneud oedd gan yr unigolyn yma o'r gwaith o ddydd i ddydd – mewn rhai achosion, roedd y cyfrifoldeb am weithredu o ddydd i ddydd wedi ei roi'n llwyr i'r swyddog neu'r rheolwr penodol, gyda'r unigolyn ar lefel uchel ddim ond yn gweithredu pan oedd angen ymyrryd.
- 3.4.3. Yn y sector iechydd, mae'r cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am y Gymraeg yn gweithio mewn meysydd gwahanol i'w gilydd (e.e. iechydd cyhoeddus, gweithlu, llywodraethiant ac ati). Gan nad ydynt yn cyflawni'r un swyddogaeth o ddydd i ddydd, maent wedi penderfynu cyfarfod fel grŵp yn achlysurol. Yn yr un modd, mae Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol ym mhob sefydliad iechydd wedi dechrau cydweithio'n agosach a chwrdd i drafod materion ar lefel strategol.
- 3.4.4. Mae sicrhau arweiniad strategol effeithiol yn arbennig o bwysig yn achos sefydliadau sydd â'u pencadlys y tu allan i Gymru. Soniodd rhai sefydliadau yn rheoliadau rhif 5 wrthym ei bod yn anodd cael arweinwyr ym mhrif swyddfeydd y sefydliad yn Llundain i ddarparu cefnogaeth ac adnoddau gan nad oes ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o'r sefyllfa. Gwrthgyferbyniad â hynny yw sefyllfa Ofcom, lle mae cyfarwyddwr sy'n rhan o'r Uwch Dîm Rheoli'n gyfrifol am ystyried y Gymraeg ar lefel strategol, gyda Chyfarwyddwr Cymru ac Uwch Gynghorydd y Gymraeg yn gyfrifol o ddydd i ddydd. Mae'r trefniant hwn yn golygu bod cefnogaeth briodol yn cael ei roi ar lefel yr UDRh, gan sicrhau bod y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd yn ymwybodol o faterion perthnasol.

Arbenigedd gweithredol

- 3.4.5. Mae gan y mwyafrif o sefydliadau swyddog neu reolwr sy'n gyfrifol am y Gymraeg o ddydd i ddydd. Mewn nifer dda o sefydliadau, mae hon yn rôl llawn amser, ac weithiau'n rhan o dîm. Yn gyffredinol gwelwn fod hyn yn arwain at wella cydymffurfiaeth gan ei fod yn caniatáu mwy o adnodd i adnabod a datrys problemau a gweithio gydag adrannau ar draws y sefydliad i sicrhau cydymffurfiaeth. Mewn rhai sefydliadau, mae'r cyfrifoldeb am y Gymraeg yn atodol at brif gyfrifoldeb y swyddog, gan olygu nad oes cymaint o amser yn cael ei dreulio'n datblygu'r ddarpariaeth.
- 3.4.6. Mae nifer o sefydliadau wedi sefydlu rhwydwaith o gydlynwyr neu bencampwyr y Gymraeg yn fewnol. Mae cyfrifoldebau'r rhain yn amrywio, gan gynnwys cynnig cefnogaeth i gydweithwyr yn eu timau ynghylch defnyddio'r Gymraeg, codi ymwybyddiaeth o'r gofynion gyda chydweithwyr, ac adrodd yn ôl ynghylch perfformiad ac unrhyw broblemau. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu rhwydwaith o gydlynwyr iaith, gyda chynrychiolwyr ar draws y sefydliad, i roi sicrwydd bod y safonau'n cael eu dilyn wrth ddarparu gwasanaethau trwy'r gwahanol Grwpiau o fewn y Llywodraeth. Mae'r rhwydwaith yn caniatáu rhannu negeseuon allweddol ar gydymffurfiaeth o fewn y Grwpiau, yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cydweithwyr am gyngor ynghylch cydymffurfio, ac maent yn darparu sicrwydd ynghylch cydymffurfio o fewn y sefydliad. Cynhaliodd Heddlu Gogledd Cymru weithdy ar gyfer yr holl Bencampwyr, gydag anerchiad gan y Dirprwy Brif Gwnstabl, i ddiolch iddynt am eu gwaith ac i gytuno ar weithgareddau i hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog am y cyfnod i ddod.
- 3.4.7. Yn ystod haf 2019 cyhoeddodd Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru [ganllaw cyfathrebu](#) ar gyfer holl adrannau Llywodraeth y DU. Roedd y canllaw'n cynnig dulliau ar gyfer sicrhau bod adrannau'n cadw at, neu'n rhagori ar, ofynion eu cynlluniau iaith Gymraeg wrth gyfathrebu yng Nghymru, gan gynnwys wrth ymgynghori, cynnal digwyddiadau, llunio ymgyrchoedd a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Grwpiau a fforymau mewnol

- 3.4.8. Gwelsom fod nifer o sefydliadau wedi ffurfio gwahanol grwpiau o fewn y sefydliad er mwyn trafod rhoi'r ddarpariaeth Gymraeg ar waith. Mewn rhai sefydliadau, mae'r rhain yn fforymau o staff amrywiol sy'n cwrdd er mwyn diweddarau ei gilydd a rhannu arferion ar draws y sefydliad. Mewn sefydliadau eraill, mae'r grwpiau'n bodoli er mwyn darparu atebolrwydd neu er mwyn cynllunio gwaith. Er enghraifft:
- Mae gan Amgueddfa Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru grwpiau sy'n cynnwys cynrychiolaeth o wahanol adrannau, lleoliadau a lefelau o fewn y sefydliad. Mae'r grwpiau'n cwrdd er mwyn cael monitro gweithrediad y safonau a'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg
 - O fewn Cyngor Celfyddydau Cymru, yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth, mae rôl y grŵp yn cynnwys "gweithio'r sefydliad i fod yn flaengar o ran sicrhau darpariaeth Gymraeg gan y sefydliadau y mae'n eu hariannu" a

“bod yn flaengar o ran hybu gwasanaethau”. Caiff ei gadeirio gan Aelod o'r Cyngor yn hytrach nag aelod staff

- Yn Heddlu Gwent, ceir 'cyfarfod yr iaith Gymraeg' sy'n cymryd trosolwg o gydymffurfiaeth yn fewnol. Mae'r aelodau'n cynnwys arolygydd, ditectif uwch-arolygydd, a rheolwyr ar lefelau amrywiol. Mae'r cyfarfod yn gosod cynlluniau penodol i adrannau ac wedyn yn defnyddio statws RAG i wirio perfformiad a chydymffurfiaeth. Caiff materion sydd angen sylw eu ffiltro i bwyllgorau uwch
- Mae Prifysgol Met Caerdydd wedi sefydlu Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg ar lefel uwch reoli, sy'n monitro cynnydd ar safonau'r Gymraeg. Mae'n cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn ac yn derbyn adroddiadau gan yr uned Gymraeg, gan gyflwyno adroddiad blynyddol i Bwyllgor Cynllunio Strategol ac i Fwrdd y Llywodraethwyr
- Mae gan Brifysgol Aberystwyth Grŵp Gweithredol y Gymraeg sy'n cynnwys cynrychiolwyr o adrannau allweddol. Mae'r Grŵp hwn yn diweddarar ar gyflawniad cynllun gweithredol o ran y Gymraeg ac yn adrodd i fyny i'r Uwch Dîm Rheoli a Chyngor y Brifysgol.

3.4.9. Mae statws y grwpiau hyn o fewn y sefydliadau'n amrywio. Mae rhai ohonynt yn rhan ffurfiol a chydabyddedig o strwythur llywodraethu'r sefydliad, gyda threfniadau clir ar gyfer adrodd i fyny o'r grŵp i fforymau eraill. Gall sefydliadau ystyried a fyddent yn elwa o fabwysiadu'r grŵp fel rhan ffurfiol o lywodraethiant y sefydliad. Gall hyn roi mwy o sicrwydd fod penderfyniadau'r grŵp yn cael eu gweithredu.

3.5 Cyfieithu

- 3.5.1. Nid yw'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau drefnu eu gwaith cyfieithu mewn ffordd benodol. Yn sgil hynny, mae trefniadau cyfieithu'n amrywio'n unol ag anghenion busnes sefydliadau. Roedd y mwyafrif o sefydliadau'n fodlon fod eu trefniadau'n addas ar gyfer eu gofynion.
- 3.5.2. Er bod nifer o sefydliadau'n buddsoddi cryn dipyn yn eu gwasanaethau cyfieithu, roedd yn ymddangos fod y costau wedi eu derbyn fel rhan arferol o gostau darparu gwasanaeth. Roedd peth tystiolaeth fod sefydliadau'n datblygu eu gwasanaethau cyfieithu er mwyn gweithredu'n fwy effeithlon.

Rheoli'r gwaith cyfieithu

- 3.5.3. Mae gan rai sefydliadau uned gyfieithu fewnol sy'n gwneud yr holl waith cyfieithu ar gyfer y sefydliad. Mae gan eraill gyfieithwyr mewnol sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith, ond gyda threfniadau i allanoli gwaith dros ben yr hyn mae'r cyfieithwyr mewnol yn gallu ei wneud.
- 3.5.4. Mae eraill yn defnyddio cyfieithwyr allanol ar gyfer yr holl waith cyfieithu. Mewn sawl achos, nododd y sefydliadau hyn na fyddai digon o waith i gyfieithydd mewnol, neu y byddai llwyth gwaith cyfieithydd mewnol yn anghyson – gormod o waith ar rai adegau, a dim digon dro arall.
- 3.5.5. Mewn sawl sefydliad, roedd y swyddog iaith yn gyfrifol am reoli'r llwyth gwaith cyfieithu, a golygai hyn fod ganddynt drosolwg o ba ddeunydd sy'n cael ei gynhyrchu yn Gymraeg. Nododd sefydliadau fod hynny'n galluogi blaenoriaethu gwaith ac osgoi dyblygu.
- 3.5.6. Mae rhai sefydliadau sydd ag unedau cyfieithu eu hunain yn gwneud gwaith cyfieithu i sefydliadau eraill drwy gytundeb lefel gwasanaeth.
- 3.5.7. Pwysleisiodd nifer o sefydliadau eu bod wedi datblygu perthynas dros amser gyda'u cyfieithwyr allanol, a'u bod felly'n gyfarwydd â thôn llais a thermau arbenigol y sefydliad, ac yn gallu gweithio'n hyblyg gyda nhw.
- 3.5.8. Nododd ambell sefydliad broblemau o ran trefniadau gwaith a rheoli cytundebau â darparwyr allanol.

Gwneud gwaith cyfieithu'n fwy effeithlon

- 3.5.9. Roedd rhai trafodaethau yn ystod y broses o osod safonau ar sefydliadau iechyd yn awgrymu nad oedd y sefydliadau wedi ystyried dulliau o leihau'r gwaith cyfieithu, er enghraifft defnyddio cof cyfieithu neu gyfieithu peirianyddol, creu templedi a chyfieithiadau stoc ac ati. Golygai hyn fod amcangyfrifon ynghylch costau cydymffurfio'n rhy uchel.
- 3.5.10. Cynhaliwyd ymchwiliad i achos lle roedd cyngor wedi cyhoeddi gwybodaeth yn Saesneg yn unig ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, a hynny am nad oedd gan y cyngor gapasiti i gyfieithu negeseuon yn gyflym er mwyn gallu postio'n amserol. O ganlyniad i'r gŵyn a'r ymchwiliad, cynhaliodd y cyngor beilot yn defnyddio meddalwedd cyfieithu Microsoft Translator er mwyn galluogi cyfieithu negeseuon yn gyflym. Gosodwyd cam gorfodi'n ei gwneud

yn ofynnol i'r cyngor "sicrhau bod ganddo drefniadau priodol mewn lle ar gyfer cyfieithu gwybodaeth sydd angen ei chyhoeddi ar frys ar y cyfryngau cymdeithasol".

- 3.5.11. Nododd ambell sefydliad eu bod wedi buddsoddi mewn technoleg i hwyluso'r gwaith cyfieithu, er enghraifft mae Heddlu Dyfed Powys wedi sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth a chyflwyno meddalwedd cof cyfieithu er mwyn cyflawni'r gwaith yn fwy effeithlon.
- 3.5.12. Mae Coleg y Cymoedd wedi cyflwyno gwasanaeth prawfddarllen a chynllun mentora ar gyfer staff, er mwyn ceisio annog staff i roi cynnig ar ddrafftio gwaith yn Gymraeg.
- 3.5.13. Mae uned gyfieithu Amgueddfa Cymru'n cynnig gwasanaethau amrywiol, er enghraifft drafftio ochr yn ochr, golygu, gwirio gwaith cydweithwyr, prawfddarllen, geirfa ar-lein, a chynghori ar gynnwys a dylunio dwyieithog. Mae'r cyfieithwyr yn deall yr angen i fod yn greadigol a chyfathrebu'n naturiol â'r cyhoedd. Maent yn drafftio'n ddwyieithog yn hytrach na chyfieithu lle mae modd, gan roi pwyslais mawr ar greu testun sydd ddim yn darllen fel cyfieithiad. Maent yn ymdrechu i gynnwys cyfeiriadau cynhenid a dyfynnu o ffynonellau gwreiddiol Cymraeg yn hytrach na chyfieithu dyfyniadau Saesneg. Roedd hyn yn rhan fawr o brosiect ail-wneud Sain Ffagan.
- 3.5.14. Cynhaliwyd ymchwiliad i achos lle roedd cyngor heb brawfddarllen dogfennau ymgynghori a gyfieithwyd gan drydydd parti cyn i'r cyngor eu cyhoeddi. Golygodd hynny fod y dogfennau wedi eu cyhoeddi gyda chamgymeriadau. Gosodwyd y cam gorfodi canlynol: "Rhaid i'r Cyngor ddatblygu proses a chanllaw cysylltiedig ar gyfer prawf ddarllen, a mynd ati i godi ymwybyddiaeth o'r broses a'r canllaw ymysg swyddogion perthnasol." Yn dilyn gweithredu'r cam gorfodi, darparodd y cyngor ddogfennau diwygiedig fel tystiolaeth fod y cam wedi ei gyflawni.

3.6 Allanoli a phlatfformau trydydd parti

- 3.6.1. Mae'n rhaid i sefydliadau barhau i gydymffurfio â'r safonau pan fo gwasanaethau'n cael eu darparu ar ran sefydliadau gan drydydd parti. Mater i sefydliadau yw penderfynu pa drefniant i'w sefydlu gydag unrhyw drydydd parti sy'n cyflawni gweithgareddau ar eu rhan. Mae dogfen gyngor y Comisiynydd, [Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus: Ystyried y Gymraeg](#), yn delio â hyn.
- 3.6.2. Cynhaliwyd dau ymchwiliad i gyngor yn edrych yn benodol ar wasanaethau a ddarperir ar ei ran gan drydydd parti, sef cwmni sy'n darparu gwasanaethau hamdden. Mewn un achos, roedd aelod o'r cyhoedd wedi cael negeseuon awtomatig uniaith Saesneg yn cydnabod ymholiad, a gosodwyd cam gorfodi i'r cyngor gynnal adolygiad o'r holl negeseuon awtomatig sy'n cael ei anfon gan ei wasanaethau hamdden, ac i wirio o bryd i'w gilydd bod y negeseuon hyn yn cael eu hanfon yn unol â gofynion y safon. Mewn achos arall, derbyniodd aelod o'r cyhoedd wasanaeth uniaith Saesneg wrth ffonio canolfan hamdden, ac fe'i ffonwyd yn ôl gan aelod staff di-Gymraeg hefyd. Gosodwyd camau gorfodi i'r cyngor gynnal adolygiad o drefniadau'r darparwr i ateb galwadau ffôn a wneir i'r canolfannau hamdden y maent yn eu rhedeg drwy drefniant gyda'r cyngor, a gweithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad drwy gyflwyno polisi a gweithdrefn er mwyn cydymffurfio. Mae'r achosion hyn yn ei gwneud yn glir mai disgwyliad y Comisiynydd yw bod sefydliadau'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb o sicrhau bod gwasanaethau a gynigir ar eu rhan yn cydymffurfio â'r safonau.
- 3.6.3. Cynhaliwyd ymchwiliad yn dilyn cwyn am ohebiaeth uniaith Saesneg ynglŷn â chyfrifo treth cyngor. Esboniodd y cyngor nad oedd y feddalwedd trydydd parti sy'n cynhyrchu'r datganiadau'n gallu cynhyrchu datganiadau dwyieithog, a bod y system yn cynhyrchu ac yn anfon y llythyrau yn awtomatig heb yn wybod i swyddogion y Cyngor. Roedd y feddalwedd wedi ei sefydlu ers nifer o flynyddoedd a'r Cyngor wedi ceisio gweithio gyda'r cwmni er mwyn ceisio datrys y broblem. Yn sgil yr ymchwiliad mae'r Cyngor wedi paratoi cynllun gweithredu manwl er mwyn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd, gan gynnwys sefydlu dewis iaith hawlwyr, cofnodi galwad am wasanaeth gyda darparwr y system, a diweddarau paramedrau Cymraeg o fewn y system.
- 3.6.4. Cynhaliwyd ymchwiliad i gyngor arall mewn perthynas â diffygion ar wefan sy'n cael ei rhedeg gan y cwmni sy'n gweithredu gwasanaethau llyfrgell a hamdden ar ran y cyngor. Gosodwyd camau gorfodi i'r cyngor fonitro'r gwasanaeth a darparu hyfforddiant i staff y cwmni. Yn dilyn yr ymchwiliad cymerodd y Comisiynydd y cam gorfodi o roi sylw i'r methiant drwy ohebu ag awdurdodau lleol i'w haddysgu a chodi ymwybyddiaeth o'r angen i gydymffurfio yn y sefyllfa hon.
- 3.6.5. Ar y cyfan, nid oedd yn ymddangos fod llawer o wasanaethau newydd yn cael eu hallanoli o gymharu â chyfnodau blaenorol.

Caffael

- 3.6.6. Nododd nifer fawr o sefydliadau eu bod wedi ailedrych ar eu contractau i sicrhau eu bod yn cynnwys amodau safonol yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gydymffurfio â'r safonau sy'n berthnasol. Nododd nifer eu bod wedi addasu eu trefniadau caffael yn dilyn sesiwn a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg rai blynyddoedd yn ôl. Nododd sefydliadau hefyd y caiff cwestiynau penodol am y safonau sy'n berthnasol i gontract eu cynnwys yn y broses dendro.
- 3.6.7. Er enghraifft, yn Llywodraeth Cymru mae templedi caffael safonol yn sicrhau bod y safonau yn ystyriaeth bwysig wrth gontractio gwasanaethau gan drydydd parti. Datblygwyd canllawiau ar gyfer staff ar gydymffurfio â gofynion yn ystod ymarferion ymgynghori, gwasanaethau contractio, ariannu grantiau a chomisiynu ymchwil.
- 3.6.8. Nododd nifer o sefydliadau fod datblygu perthynas â'r adran gaffael yn fewnol wedi bod yn un o dasgau pwysicaf y swyddog iaith dros y blynyddoedd diwethaf, a bod canllawiau a gofynion safonol wedi eu diwygio i adlewyrchu gofynion y safonau.
- 3.6.9. Mae'n ymddangos fod sefydliadau'n cael profiadau cymysg wrth gaffael gwaith gan ddarparwyr trydydd parti, yn enwedig ym maes technoleg. Er enghraifft:
- Dywedodd Amgueddfa Cymru ei bod wedi ffurfio perthnasoedd da â'r sector breifat, gan arwain, er enghraifft, at gyhoeddi'r rhithdaith Gymraeg gyntaf ar Google Expedition, sef rhithdaith o Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru. Roedd un o'u contractwyr eraill wedi nodi bod gweithio ar brosiect dwyieithog Cymraeg / Saesneg wedi eu paratoi ar gyfer y farchnad Ewropeaidd
 - Nododd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ei hadroddiad blynyddol: "Mae her yn codi wrth ddatblygu gwefannau ac unrhyw adnoddau digidol yn ddwyieithog, yn enwedig os yw'n golygu gweithio gyda chwmnïau allanol. Nid yw cwmnïau allanol yn cynllunio a datblygu apiau mewn modd sydd yn trosglwyddo'n hwylus i fod yn ddwyieithog."
 - Mewn rhai achosion, mae Ofcom Cymru yn gyfrifol am gaffael gwasanaethau fel fideos ar gyfer Ofcom yn ganolog er mwyn sicrhau bod y cwmnïau sy'n cael eu defnyddio'n gallu darparu'r gwaith yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg
 - Mae Archwilio Cymru wedi penderfynu dechrau gwneud gwaith archwilio cynghorau tref a chymuned yn fewnol o 2021-22 ymlaen, yn hytrach na defnyddio cwmni allanol. Roedd gwella'r ddarpariaeth Gymraeg yn un ffactor yn y penderfyniad hwn.

- 3.6.10. Mae nifer o sefydliadau, gan gynnwys rhai sy'n gweithredu safonau yn ogystal ag adrannau a sefydliadau'r Llywodraeth, yn darparu rhai gwasanaethau ar brif blatfform ar-lein Llywodraeth y DU, sef GOV.UK.
- 3.6.11. Mae'r sefyllfa o ran cyhoeddi cynnwys Cymraeg ar GOV.UK wedi gwella wedi i'r Comisiynydd gymeradwyo cynllun iaith Gymraeg Swyddfa'r Cabinet ym mis Ebrill 2019. Ymhlith ymrwymadau eraill, mae'r cynllun yn ei gwneud yn glir beth yw cyfrifoldebau adrannau'r Llywodraeth a GDS wrth sicrhau bod cynnwys a gwasanaethau ar gael yn Gymraeg ar wefan y Llywodraeth.
- 3.6.12. Mae llawer o wybodaeth a gwasanaethau ar gael yn Gymraeg ar GOV.UK erbyn hyn. Er enghraifft, yn ystod 2019-20, yn dilyn trafodaethau â'r Comisiynydd, sicrhawyd bod gwiriadau sylfaenol DBS ar gael yn Gymraeg, ac mae ffurflen cais am basbort ar gael yn Gymraeg (cyflawnwyd hynny flwyddyn yn gynt na'r dyddiad targed). Fel y nodir yn adran 2.5, gwelwyd cynnydd calonogol yn y defnydd o nifer o wasanaethau ar-lein adrannau'r Llywodraeth.
- 3.6.13. Mae trafodaethau'n parhau rhwng y Comisiynydd a Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth ynghylch cynnig nifer o wasanaethau pellach yn Gymraeg yn parhau ar wasanaethau eraill. Rydym hefyd yn trafod sut y gellir gwneud gwasanaethau Cymraeg yn fwy amlwg ar y wefan.
- 3.6.14. Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, mae Cyllid a Thollau EM wedi gwneud gwaith ymchwil sylweddol i ymddygiad defnyddwyr, gan sicrhau canlyniadau dadlennol ynghylch sut i wella profiad ar-lein cwsmeriaid Cymraeg. Bydd y gwaith hwn yn bwydo i mewn i GOV.UK a sefydliadau eraill.

4 Capasiti'r gweithlu

Mae canlyniadau fy ngwaith monitro'n dangos bod angen i sefydliadau gael mwy o staff sy'n siarad Cymraeg mewn rolau allweddol. Mae hyn yn allweddol er mwyn i siaradwyr Cymraeg allu dibynnu ar y gwasanaethau y mae ganddynt hawl i'w derbyn.

Mae angen i sefydliadau wneud mwy i recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg. Rhaid cynnal asesiad bob tro y caiff swydd ei hysbysebu. Gyda nifer o sefydliadau'n methu â chynnig gwasanaethau'n unol â'r safonau, rwyf am i sefydliadau feddwl yn hirdymor ynghylch sut i sicrhau gweithlu sy'n hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

Mae cynnydd wedi ei wneud wrth asesu sgiliau, ac mae angen parhau nes bod sgiliau 100% o'r gweithlu'n cael eu hasesu'n flynyddol. Hoffwn weld cysondeb yn y dull asesu fel bod modd tracio'n well dros amser ac wrth i staff symud rhwng sefydliadau.

Mae hefyd yn galonogol gweld sefydliadau wedi datblygu eu darpariaeth gwella sgiliau, gan gydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i gael mwy o reolaeth ar y ddarpariaeth a thargedu'r hyfforddiant mewn modd fydd yn cael mwy o effaith.

Rwyf wedi clywed enghreifftiau o sefydliadau'n cael trafferth canfod staff addas sy'n siarad Cymraeg. Ond rwyf hefyd wedi dod ar draws sefydliadau'n meddwl i tu allan i'r bocs wrth hysbysebu swyddi, gan dargedu ymgeiswyr yn ddyfeisgar ac addasu gofynion swyddi er mwyn sicrhau bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn ymgeisio.

Mae nifer o weithgareddau'n digwydd er mwyn gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy o fewn sefydliadau, a rhoi cyfle i gydweithwyr ddefnyddio'r iaith. Ond nid wyf wedi gweld shift o ddifri tuag at ddefnydd sylweddol o'r Gymraeg fel iaith gweithredu mewnol. Mae hyn yn rhywbeth yr hoffwn weld datblygiad arno dros y blynyddoedd nesaf.

Mae potensial enfawr i ddysgu, gwella a defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith roi mwy o hyder i bobl yn eu sgiliau. Drwy fagu hyder yng nghyd-destun gwaith, gall pobl ddod yn fwy hyderus i ddefnyddio'r iaith yn y gymuned a'r cartref hefyd.

Barn y Comisiynydd

"Mae angen iddyn nhw edrych ar y ffordd y maen nhw'n recriwtio er mwyn cael siaradwyr Cymraeg i'r swyddi."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod

"Mae cynnydd mawr wedi bod yn faint o bobl sydd yn awyddus i falle datblygu eu sgiliau iaith nhw – ar lefel 3 ac ishe cryfhau i fod yn lefel 4 neu beth bynnag. Lot mwy o staff yn awyddus i ddatblygu sgiliau... a ma lot mwy o gyfleoedd i gael hefyd."

Aelod staff mewn grŵp trafod


4.1 Gosod gofynion sgiliau Cymraeg wrth recriwtio

- 4.1.1. Mae'n rhaid i sefydliadau gynnal asesiad o'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd wag a newydd maent yn ei hysbysebu, er mwyn ystyried a oes angen sgiliau Cymraeg i wneud y swydd. Mae'n rhaid nodi a yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, angen eu dysgu ar ôl penodi, neu ddim yn angenrheidiol ar gyfer y swydd, ac yna nodi hynny wrth hysbysebu'r swydd (oni bai nad yw'r sgiliau'n angenrheidiol).
- 4.1.2. Mae'n rhaid i sefydliadau gadw cofnod o'r asesiadau maent yn eu cynnal. Nid yw'r safonau'n manylu ynghylch natur y cofnodion na'r hyn ddylen nhw ei gynnwys. Rhaid adrodd ar niferoedd y swyddi a aseswyd yn yr adroddiad blynyddol.
- 4.1.3. Gyda chanlyniadau argaeledd gwasanaethau rhai sefydliadau'n annigonol, recriwtio staff â sgiliau Cymraeg yw un o'r dulliau mwyaf effeithiol o gynyddu capasiti Cymraeg sefydliadau er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o staff i gydymffurfio â'r gofynion.

Cofnodion ac ystadegau


- 4.1.4. Wrth wirio adroddiadau blynyddol sefydliadau, gwelwyd bod 81% o sefydliadau wedi adrodd ar gategorïau swyddi o ran yr angen am sgiliau Cymraeg. (Roedd y rhan fwyaf o weddill y sefydliadau heb gyhoeddi adroddiad o gwbl.)

	Cyfanswm	Rheoliadau rhif 1	Rheoliadau rhif 2	Rheoliadau rhif 5	Rheoliadau rhif 6
Wedi adrodd ar gategori swyddi gwag / newydd	81%	88%	71%	64%	96%



4.1.5. Ar sail y data a gyhoeddwyd gan sefydliadau a oedd wedi adrodd, roedd y ganran ar gyfer pob categori fel hyn:⁷


	Cyfanswm	Rheoliadau rhif 1	Rheoliadau rhif 2	Rheoliadau rhif 5	Rheoliadau rhif 6
Hanfodol	18%	20%	24%	19%	12%
Angen dysgu	3%	0%	2%	29%	2%
Dymunol	54%	46%	36%	53%	73%
Ddim yn angenrheidiol	26%	33%	39%	0%	14%



⁷ Heb gynnwys swyddi lle roedd sgiliau lefel 1 a 2 yn hanfodol / dymunol / angen dysgu

4.1.6. Gwiriwyd hysbysebion swyddi sampl o sefydliadau fel rhan o'r arolygon gwirio, gan gofnodi beth oedd categori iaith y swydd.

	Cyfanswm	Rheoliadau rhif 1	Rheoliadau rhif 2	Rheoliadau rhif 5	Rheoliadau rhif 6	Rheoliadau rhif 7	Cynlluniau iaith
Hanfodol	17%	32%	19%	7%	8%	1%	0%
Angen dysgu	0%	5%	0%	0%	2%	0%	0%
Dymunol	63%	38%	69%	46%	71%	87%	0%
Ddim yn angenrheidiol	2%	5%	0%	0%	0%	3%	0%
Dim categori wedi ei nodi	18%	20%	13%	46%	19%	8%	100%



4.1.7. Mae gwahaniaethau rhwng y canlyniadau mewn arolygon gwirio ac adroddiadau blynyddol i'w disgwyl, gan fod ein gwaith gwirio ni'n digwydd ar un amser penodol yn y flwyddyn, a bod patrymau recriwtio sefydliadau'n amrywio, ond mae'r un tueddiadau i'w gweld. Mae'r ffigwr uchel ar gyfer swyddi lle roedd angen dysgu Cymraeg yn adroddiadau blynyddol rheoliadau rhif 5 yn adlewyrchu'r gofyniad i staff gael sgiliau Cymraeg sylfaenol yn fuan ar ôl eu penodi.

- 4.1.8. Pan wiriwyd hysbysebion swyddi yn 2014-15, 4% o swyddi oedd yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Mae'r cynnydd o 4% i 17% yn ystod y cyfnod y bu'r safonau'n weithredol yn dangos effaith y safonau.
- 4.1.9. Yn ystod y broses o osod safonau ar sefydliadau iechyd, cafwyd rhai enghreifftiau o sefydliadau'n herio dyletswyddau ar y sail nad oes ganddynt gapasiti digonol i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg – ond, ar yr un pryd, mae'r ffigurau hyn yn awgrymu mai canran isel iawn o'u swyddi a hysbysebwyd gyda sgiliau Cymraeg yn hanfodol.
- 4.1.10. Fe wnaethon ni ofyn i 14 o sefydliadau o reoliadau 2, 5 a 6 rannu eu cofnodion asesiadau gofynion sgiliau Cymraeg â ni ar gyfer 6 mis cyntaf 2019-20. Ymatebodd 13 allan o'r 14 sefydliad i'r cais. Roedd 11 allan o'r 13 sefydliad wedi darparu cofnod o'r asesiadau ar gyfer pob swydd wag neu newydd a hysbysebwyd yn ystod y cyfnod, gyda dau sefydliad pellach wedi darparu cofnod ar gyfer y mwyafrif. Y dull mwyafrif cyffredin o gadw cofnodion o'r asesiadau oedd rhestr o'r swyddi a chanlyniad yr asesiad (8 sefydliad). Darparodd 2 sefydliad gopi o'r asesiadau gwreiddiol, ac un sefydliad gopi o'r swydd ddisgrifiad a manyleb person.
- 4.1.11. Cofnodion 4 sefydliad yn unig oedd yn dangos y rhesymeg a ddefnyddiwyd wrth wneud yr asesiad (2 sefydliad wedi darparu copi o'r asesiad gwreiddiol, a 2 wedi cadw cofnod o'r asesiadau ar ffurf tabl). Gan nad yw'r safonau'n nodi beth ddylai ffurf a chynnwys yr asesiadau fod, nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio, ond barn y Comisiynydd yw y dylai cofnodion sefydliadau ddangos y rhesymeg dros y penderfyniadau, er mwyn gallu eu hamddiffyn pe baent yn cael eu herio.

Proses asesu gofynion sgiliau Cymraeg swyddi

- 4.1.12. Nododd y mwyafrif o'r sefydliadau yn ein hastudiaeth eu bod wedi cynnal asesiad ar gyfer pob swydd wag a newydd. Nid oedd 2 sefydliad wedi cynnal asesiadau gan eu bod wedi mabwysiadu polisi o nodi bod y sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar gyfer pob swydd (nododd ambell sefydliad mewn cyfarfodydd eu bod yn gwneud hyn hefyd). Nid yw hyn yn dderbyniol – mae angen cynnal asesiad ar gyfer pob swydd. Ymysg y swyddi oedd heb eu hasesu roedd swyddog ymgysylltu â'r cyhoedd, swyddog marchnata'r cyfryngau cymdeithasol a digidol, a nyrs feithrin. Gallai asesiadau unigol ar gyfer pob swydd fod wedi adnabod y swyddi yma fel rhai allweddol ar gyfer cynnig gwasanaethau Cymraeg pwysig i'r cyhoedd.
- 4.1.13. Yn ein cyfarfodydd â sefydliadau, trafodwyd sut roedd sefydliadau'n sicrhau bod asesiad wedi ei gynnal, a bod yr asesiad hwnnw'n ddigonol. Roedd yr arferion yn cynnwys:
- Defnyddio proses neu system adnoddau dynol electronig er mwyn cymell cyflawni asesiad ac atal hysbysebu nes bod hynny wedi digwydd
 - Cynnwys staff arbenigol neu uwch yn y broses o gymeradwyo neu gwblhau asesiadau, er mwyn sicrhau ansawdd a gwneud yn siŵr fod y cyd-destun ehangach wedi ei ystyried

- Rhoi arweiniad – fel canllawiau, deunyddiau fel siart llif, neu hyfforddiant – i staff sy'n cynnal asesiadau ac yn craffu arnynt.

Ystyriaethau wrth gynnal asesiadau

- 4.1.14. Yn ein hastudiaeth, dim ond gan un sefydliad y gwelwyd tystiolaeth fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r pedwar categori posib (hanfodol, dymunol, angen dysgu, ddim yn angenrheidiol). Roedd 10 sefydliad yn defnyddio detholiad o'r categorïau, e.e. hanfodol / dymunol yn unig.
- 4.1.15. Roedd dau sefydliad yn nodi'r lefel rhuglder angenrheidiol ar gyfer swyddi, ond ddim yn cydymffurfio â'r safonau drwy nodi a yw'r sgiliau hynny'n hanfodol, dymunol neu angen eu dysgu. Mae'n rhaid cydymffurfio â'r gofyniad hwn yn y lle cyntaf (gellir disgrifio'r rhuglder angenrheidiol yn dilyn hynny os dymunir).
- 4.1.16. Soniodd nifer o sefydliadau wrthym mewn cyfarfodydd eu bod wedi gweld gwell cyfraddau penodi wrth gynnwys disgrifiad ystyrlon, ymarferol o sut bydd angen defnyddio'r Gymraeg wrth wneud y swydd.
- 4.1.17. Roedd yr ffactorau a ystyriwyd gan y 4 sefydliad a ddarparodd gofnod o'r rhesymeg dros eu penderfyniadau'n cynnwys:
 - A yw deiliad y swydd yn mynd i fod mewn cyswllt â'r cyhoedd / staff mewnol fydd eisiau defnyddio'r Gymraeg?
 - A yw'r swydd mewn gwasanaeth sy'n debygol o fod yn bwysig yng nghyd-destun y Gymraeg, e.e. gwasanaethau llinell flaen, addysg, gofal cymdeithasol, neu adnoddau dynol?
 - A yw deiliad y swydd angen sgiliau Cymraeg er mwyn cyrraedd amcan penodol yn y cynllun corfforaethol neu gynllun gweithredu'r iaith Gymraeg?
 - A oes angen sgiliau Cymraeg i wneud y swydd er mwyn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg mewn unrhyw ffordd?
 - A yw'r swydd mewn tîm neu adran sy'n brin o sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd?
 - A fydd y rôl yn un â phroffil cyhoeddus uchel, lle bydd angen cynrychioli'r sefydliad?
 - A yw'r swydd mewn tîm neu adran sy'n debygol o dderbyn cyfathrebiadau neu ddogfennaeth trwy gyfrwng y Gymraeg?
- 4.1.18. Roedd yn amlwg o'n cyfarfodydd â sefydliadau, hefyd, mai'r ffactorau a ystyrid fwyaf aml oedd gofynion y rôl, er enghraifft o ran cyswllt â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, a'r capasiti Cymraeg cyfredol. Roedd rhai sefydliadau wedi mynd ati i sicrhau bod anghenion tymor hir yn cael eu hystyried wrth wneud pob asesiad unigol. Roedd dulliau o wneud hyn yn cynnwys:
 - Adnabod y lleiafswm o siaradwyr Cymraeg sy'n angenrheidiol ym mhob tîm neu adran er mwyn cyflawni gofynion y safonau a chynyddu defnydd o'r Gymraeg.
 - Gosod targed hirdymor ar gyfer canran y siaradwyr Cymraeg o fewn sefydliad

- Mae rhai sefydliadau wedi penderfynu y dylai pob aelod staff newydd gael sgiliau Cymraeg sylfaenol. Mae hynny'n briodol er mwyn sicrhau bod modd i bob aelod staff ddangos cwrteisi sylfaenol tuag at aelodau'r cyhoedd. Mae'r sefydliadau sy'n gwneud hyn yn rhai sy'n ymroddedig i wella'u darpariaeth Gymraeg ac yn rhagweithiol wrth wneud hynny. Fodd bynnag, nid yw ei gwneud yn ofynnol i staff gael sgiliau Cymraeg ar lefel rhuglder isel, ar ei ben ei hun, yn mynd i alluogi sefydliadau i gydymffurfio. Ochr yn ochr â hyn, mae angen sicrhau bod digon o staff yn ddigon rhugl yn Gymraeg er mwyn gallu ymwneud yn estynedig â'r cyhoedd.
- 4.1.19. Roedd enghreifftiau o sefydliadau'n bod yn greadigol er mwyn sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg yn ymgeisio. Un dull o wneud hyn oedd addasu gofynion eraill swyddi, er enghraifft drwy hysbysebu am brentisiaid neu hyfforddeion, yn hytrach na phobl sydd â mwy o brofiad neu wedi cymhwyso. Dull arall oedd recriwtio mewn ffordd fwy targededig – er enghraifft hysbysebu'n lleol, ymweld ag ysgolion, ac anfon taflenni at bobl ifanc sy'n gadael ysgol.


4.2 Adnabod sgiliau Cymraeg y gweithlu

- 4.2.1. Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau asesu sgiliau Cymraeg eu staff; cadw cofnod o nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg (a'u lefel sgiliau pan fo hynny'n wybyddus); a chyhoeddi nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg yn adroddiad blynyddol y sefydliad.
- 4.2.2. Mae gwneud hyn yn allweddol er mwyn cynllunio gwasanaethau a gosod gwaelodlin i gynyddu'r capasiti dros amser.

Cynnal asesiadau o sgiliau Cymraeg staff

- 4.2.3. Wrth wirio adroddiadau blynyddol sefydliadau, gwelwyd bod 82% o sefydliadau wedi adrodd ar nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg.

	Cyfanswm	Rheoliadau rhif 1	Rheoliadau rhif 2	Rheoliadau rhif 5	Rheoliadau rhif 6
Wedi adrodd ar sgiliau iaith staff	82%	96%	74%	57%	92%



- 4.2.4. Roedd y rhan fwyaf o weddill y sefydliadau heb gyhoeddi adroddiad o gwbl, ac felly nid oes modd gwybod a yw'r sefydliadau hynny wedi asesu'r sgiliau.
- 4.2.5. Trafodwyd arferion o ran asesu sgiliau mewn cyfarfodydd â sefydliadau. Roedd rhai sefydliadau'n dal heb gofnodi data ar gyfer pob aelod o staff, ond nifer yn adrodd cynnydd ers y llynedd. Nododd rhai sefydliadau ei bod yn anodd cael staff sydd heb fynediad cyson at system gyfrifiadurol y sefydliad i gofnodi, e.e. diffoddwyr tân ar alwad, casglwyr gwastraff. Roedd systemau asesu rhai sefydliadau'n dal yn caniatáu i staff beidio ag ateb y cwestiwn ynghylch sgiliau Cymraeg – rhywbeth sy'n bosib ei ddatrys yn gyflym.
- 4.2.6. Roedd nifer o sefydliadau'n defnyddio systemau adnoddau dynol cyffredinol y sefydliad er mwyn cofnodi'r lefel ar gyfer pob aelod staff. Roedd nifer o sefydliadau hefyd yn manteisio ar feddalwedd sy'n golygu bod yr arolwg yn ymddangos ar gyfrifiaduron staff yn awtomatig, neu'n atal mynediad i'r cyfrifiadur nes bod yr arolwg wedi ei lenwi. Mewn sefydliadau eraill, roedd dull arall o gasglu gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio, e.e. arolwg ar-lein. Mae system benodol ar gyfer cofnodi sgiliau Cymraeg yn cael ei datblygu at ddefnydd holl sefydliadau'r sector iechyd.

Sail yr asesiad o sgiliau Cymraeg staff

- 4.2.7. Nid yw'r safonau'n nodi pa ddull y dylid ei ddefnyddio i asesu sgiliau Cymraeg staff. Hunanasesiad y staff oedd sail y cofnodion fel arfer, yn hytrach na rhyw fath o brawf wedi ei wirio neu asesiad gan diwtor.
- 4.2.8. Nid yw'r safonau'n nodi, chwaith, sut i fesur neu fynegi sgiliau Cymraeg staff. Golyga hynny fod sefydliadau'n defnyddio ffyrdd gwahanol o fynegi rhuglder staff yn y Gymraeg. Y modelau mwyaf cyffredin oedd:
- o Lefelau ALTE (lefelau 0-5)
 - o Model arall yn defnyddio lefelau 0-5 neu 1-5, ond heb fod yn cyfateb yn llwyr ag ALTE
 - o Lefelau cwricwlwm Dysgu Cymraeg (mynediad, canolradd, hyfedredd ac ati)
 - o Dosbarthiad wedi ei greu gan y sefydliad (e.e. 'rhugl / rhannol / dechreuwr / dim sgiliau' neu 'rhugl / dysgwr / ddim yn siarad Cymraeg').
- 4.2.9. Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddwyd cod ymarfer y Comisiynydd i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'r cod ymarfer yn argymhell y dylai sefydliadau ddefnyddio lefelau CEFR. Mae modd cyfateb lefelau CEFR â lefelau ALTE a lefelau'r cwricwlwm Dysgu Cymraeg. Pe bai sefydliadau'n defnyddio un o'r modelau hyn, byddai modd cael ffigurau cyfun ar gyfer yr holl sefydliadau perthnasol, a chymharu capasiti sefydliadau â'i gilydd.
- 4.2.10. Er bod y rhan fwyaf o sefydliadau'n cyhoeddi ystadegau am sgiliau iaith eu staff, oherwydd gwahaniaethau yn y ffyrdd y maent yn adrodd, nid oes modd cael ffigwr cyfun ar gyfer yr holl sefydliadau, na chymharu capasiti gwahanol sefydliadau â'i gilydd. Mae'r gwahaniaethau hyn yn cynnwys defnyddio lefelau gwahanol, ond hefyd arferion fel nodi canrannau heb niferoedd, neu nifer siaradwyr Cymraeg heb gyfanswm nifer staff.

4.3 Gwella sgiliau Cymraeg staff

- 4.3.1. Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddarparu cyfleoedd i staff gael gwersi Cymraeg sylfaenol, ac mewn rhai achosion i ddarparu cyfleoedd pellach i ddysgu neu wella sgiliau Cymraeg.
- 4.3.2. Gall hyn fod yn ffordd effeithiol o gynyddu capasiti'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg, ac o ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad. Gall gwella sgiliau Cymraeg yn y gwaith hefyd arwain at staff yn defnyddio'r iaith yn gymunedol neu gyda'u teuluoedd.
- 4.3.3. Gyda gwasanaethau Cymraeg nifer o sefydliadau'n parhau'n annigonol, mae'n glir nad oes digon o staff yn siarad Cymraeg ar hyn o bryd. Ni fydd yn bosib recriwtio staff newydd bob tro, ac felly mae angen edrych ar y potensial o fewn y gweithlu presennol.
- 4.3.4. Wrth wella sgiliau staff, bydd angen i sefydliadau dargedu'r ddarpariaeth at ble bydd y traweffaith uchaf. Nid yw hynny'n golygu, o angenrheidrwydd, sicrhau bod gan ganran uchel o staff sefydliadau sgiliau ar lefel isel. Mae angen sicrhau bod gan ddigon o staff sgiliau ar lefel rhuglder sy'n eu galluogi i ymwneud â'r cyhoedd. Byddem ni'n awgrymu:
 - Targedu'r rolau lle mae'r angen am siaradwyr Cymraeg ar ei fwyaf er mwyn cydymffurfio â'r gofynion a sicrhau llesiant siaradwyr Cymraeg
 - Targedu'r staff hynny sydd â rhywfaint o sgiliau Cymraeg yn barod, gan dargedu adnoddau er mwyn gwella'u sgiliau i'w cael i lefel lle gallant ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

Datblygiadau i'r ddarpariaeth dysgu Cymraeg

- 4.3.5. Dywedodd nifer fawr o sefydliadau wrthym fod eu darpariaeth dysgu Cymraeg ar gyfer staff wedi gwella drwy fanteisio ar raglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Roedd y gwelliannau fel arfer yn cynnwys cynyddu'r ddarpariaeth a gallu teilwra'r ddarpariaeth yn well ar gyfer anghenion y sefydliad. Mewn sawl achos, roedd gan sefydliadau diwtor penodedig yn gweithio o fewn y sefydliad.
- 4.3.6. Nododd CBS Conwy, er enghraifft, fod y model wedi newid yn ddiweddar, gan olygu bod gan y Cyngor fwy o fewnbwn i'r ddarpariaeth a bod modd cynllunio'r ddarpariaeth yn well. Bellach, mae un tiwtor sy'n cael ei chyflogi gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg yn gweithio'n benodol gyda'r Cyngor ac yn aelod o'r tîm i bob pwrpas. Mae'r Cyngor wedi sefydlu stafell dysgu Cymraeg yn y swyddfa sy'n cael ei defnyddio ar gyfer y pwrpas hwnnw'n unig, ac mae modd i staff gael amser mentora personol ochr yn ochr â'u gwersi. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei chynllunio mewn partneriaeth â'r Cyngor, gan alluogi targedu staff mewn meysydd penodol yn unol ag anghenion busnes y Cyngor. Mae galw uchel am gyrsiau – 100 o staff ar gyrsiau ar lefelau'n amrywio o fynediad i ganolradd ar hyn o bryd, ac 15 o staff ar gyrsiau gloywi iaith.
- 4.3.7. Mae enghreifftiau eraill o sefydliadau'n cymryd camau i sicrhau bod eu darpariaeth dysgu a gwella sgiliau Cymraeg yn fwy effeithiol. Er enghraifft:

- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi sefydlu system contract i sicrhau bod staff sy'n cofrestru ar hyfforddiant iaith Gymraeg yn manteisio'n llawn ar y cwrs. Mae'r contract yn cynnwys codi ffi am golli gwersi, ac ymrwymiad i sefyll arholiad. Cynhelir cyfarfod misol gyda'r darparwr i fonitro cynnydd staff
- Mae CBS Rhondda Cynon Taf wedi sefydlu swydd Tiwtor y Gymraeg i drefnu a chyflwyno sesiynau dysgu Cymraeg i holl weithwyr y Cyngor. Hyd at 31 Mawrth 2019, roedd y tiwtor mewnol wedi hyfforddi 455 aelod o staff ar bob lefel
- Mae Heddlu De Cymru wedi penodi hyfforddwr Cymraeg llawn amser, ac wedi datblygu methodoleg ar gyfer cyrsiau ar lefelau uwch lle mae hanner y dysgu'n digwydd ar-lein a hanner yn y dosbarth. Golyga hyn ei bod yn haws gweithio o gwmpas patrymau shifftiau
- Mae nifer o sefydliadau addysg wedi manteisio ar raglenni Cymraeg Gwaith Addysg Bellach ac Addysg Uwch, a fwriadwyd i wella sgiliau darlithwyr. Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi gostwng oriau dysgu darlithwyr er mwyn eu rhyddhau i fynychu sesiynau, gyda 45 aelod o staff yn mynychu gwersi yn 2019-20.

Gwella sgiliau siaradwyr Cymraeg

- 4.3.8. Mae rhai sefydliadau wedi penderfynu ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff gael sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg, ac yn rhoi darpariaeth gwella sgiliau mewn lle i gefnogi hynny, er enghraifft drwy ddarparu gwersi Cymraeg sylfaenol fel rhan o'r broses ymsefydlu, neu ei gwneud yn ofynnol i staff gwblhau cwrs Croeso ar-lein 10 awr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae budd amlwg i sicrhau bod gan ganran uchel o aelodau staff sgiliau Cymraeg sylfaenol.
- 4.3.9. Fodd bynnag, nid yw hynny'n ddigon ar ei ben ei hun er mwyn cydymffurfio a darparu gwasanaethau Cymraeg – mae angen i ddigon o staff fod â sgiliau ar lefel sy'n caniatáu iddynt gyflawni eu swydd ac ymwneud â'r cyhoedd yn Gymraeg.
- 4.3.10. Yn ystod 2019-20 daethom yn ymwybodol o nifer o gamau gan sefydliadau sy'n debygol o greu cynnydd cyflym yn y nifer o staff sy'n ddigon hyderus i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, drwy dargedu staff sydd â thipyn o sgiliau Cymraeg yn barod. Er enghraifft:
 - Mae Prifysgol Aberystwyth wedi penderfynu canolbwyntio ar staff sydd ar lefelau canolradd / uwch ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg gan mai dyma lle maent yn gweld y potensial mwyaf i ddatblygu sgiliau'n gyflym. Rhoddir pwyslais hefyd ar ddilyniant, gan annog staff i barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg fel cynllun hir dymor
 - Mae nifer o sefydliadau wedi cynnig cyrsiau penodol gan ddarparwyr allanol i godi hyder staff yn eu Cymraeg ysgrifenedig a sgiliau mwy penodol fel defnyddio'r Gymraeg ar-lein a chadeirio cyfarfodydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn annog staff i osod Ap Treiglo ac Ap Sglein ar eu ffôn i'w helpu i ddrafftio yn Gymraeg

- Mae Estyn wedi cynnal cynllun cysgodi i gynyddu hyder rhai arolygwyr i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae arolygon yn amgylchiadau pwysau uchel lle mae angen am safon iaith uchel a gwybodaeth fanwl o derminoleg, a gallu meddwl ar eich traed, ac felly mae magu profiad yn allweddol. Maent yn cychwyn gyda chysgodi neu gyfrifoldebau llafar yn unig ac yna'n graddoli profiadau i gynnwys elfennau ysgrifenedig yr arolwg.

4.3.11. Roedd rhai o'r mentrau hyn yn ymwneud yn benodol â defnyddio mentoriaid i sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio'u sgiliau yn y gwaith, nid dim ond yn yr ystafell ddosbarth. Er enghraifft:

- Mae Cyngor Sir Gâr wedi sefydlu 'fframwaith mentora' i helpu staff i ddatblygu eu sgiliau iaith. Hanfod y fframwaith yw paru dysgwyr gyda mentoriaid – yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, parwyd 38 o ddysgwyr â 32 o fentoriaid.
- Ers dros ddwy flynedd, mae cynllun peilot ar fynd rhwng BIP Betsi Cadwaladr a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg. Golyga'r cynllun fod mentor yn gweithio'n llawn amser i gefnogi staff sydd wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg, er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal eu defnydd o'r Gymraeg ar ôl dychwelyd i'r gweithle.

4.4 Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol fel iaith gwaith

- 4.4.1. Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gael polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Bwriad y polisi yw hybu a hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan staff y sefydliad wrth iddynt wneud eu gwaith.
- 4.4.2. Mewn arolwg gan y Comisiynydd yn 2017-18, gwelwyd mai 15 o 26 sefydliad a rannodd gopi o'u polisi. Ni chynhaliwyd arolwg meintiol o gydymffurfiaeth â'r gofyniad hwn yn 2019-20; yn hytrach, trafodwyd y camau a gymerwyd mewn cyfarfodydd â sefydliadau.
- 4.4.3. Daethom ar draws nifer o enghreifftiau o sefydliadau'n nodi argraff gyffredinol o fwy o ddefnydd mewnol o'r Gymraeg, yn enwedig ar lafar, a nifer o enghreifftiau o ymdrechion i gynyddu'r defnydd mewnol mewn cyd-destun penodol. Prin oedd yr enghreifftiau o newidiadau sylweddol, bwriadus ar lefel sefydliad cyfan, ond mae rhaglen dreigl Cyngor Sir Ynys Môn, y cyfeiriwyd ati mewn adroddiad blaenorol, yn parhau.
- 4.4.4. Nid oes modd dweud i ba raddau y mae'r enghreifftiau hyn yn gynrychioladol o'r sefyllfa drwyddi draw, ac mae'n hanfodol fod pob sefydliad yn paratoi polisi sy'n mynd ati'n systematig i wreiddio'r Gymraeg fel iaith weithredol o fewn sefydliadau.
- 4.4.5. Un sefydliad a soniodd am gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith oedd Estyn. Yn ei adroddiad blynyddol, nododd ei bod yn anodd mesur hynny'n systematig neu'n feintiol, ond bod mwy o ohebu mewnol yn digwydd yn Gymraeg, a bod mwy o gyflwyniadau'n cael eu paratoi'n ddwyieithog.
- 4.4.6. Nododd sefydliadau eraill fod y Gymraeg yn fwy gweladwy gan fod mwy o staff yn gwisgo'r logo iaith Gwaith, neu'n dangos y logo neu nodyn tebyg ar eu cyfrif e-bost, gan olygu bod staff yn sylweddoli bod eu cydweithwyr yn siarad Cymraeg.
- 4.4.7. Dywedodd nifer o sefydliadau fod peuoedd penodol wedi symud yn naturiol at ddefnyddio'r Gymraeg yn gynyddol. Dywedodd sawl sefydliad sydd â swyddfeydd mewn lleoliadau amrywiol fod y Gymraeg yn brif iaith eu swyddfeydd yn y gogledd a'r gorllewin, a dywedodd sawl sefydliad arall fod timau sydd â chanran uwch o siaradwyr Cymraeg yn tueddu i weithio drwy'r Gymraeg.
- 4.4.8. Soniodd sefydliadau hefyd fod gweithio'n hyblyg yn golygu bod mwy o staff yn siarad Cymraeg yn y swyddfa. Gan nad yw staff yn eistedd fesul timau bellach, mae'n haws i staff Cymraeg ddod at ei gilydd. Mae Cyngor Abertawe wedi penderfynu sefydlu 'llecyn hyblyg newydd'. Mae un rhan o'r llecyn hwn wedi'i neilltuo'n arbennig i staff sy'n dymuno siarad neu ymarfer Cymraeg gyda'i gilydd.

4.4.9. Mae nifer o sefydliadau'n gwneud ymdrech i sicrhau bod staff sy'n dysgu Cymraeg yn cael cyfle i ddefnyddio'u sgiliau a siarad â siaradwyr rhugl:

- Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru Gynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg, ymgyrch "Mercher Marfer", ac is-grwpiau ar gyfer Dysgwyr a Hyrwyddwyr ar Workplace Facebook. Eleni, crëwyd pecyn adnoddau newydd i'r Hyrwyddwyr er mwyn eu defnyddio yn y gweithle gyda Dysgwyr. Mae'r pecynnau yn cynnwys matiau A3, cardiau fflach, gemau a thaflenni gwaith sydd wedi eu dylunio i helpu pobl sydd yn dysgu Cymraeg. Mae'r adnoddau hyn wedi cael eu hanfon i'r holl orsafoedd tân a swyddfeydd ardal. Mae gwobr 'Dysgwr y Flwyddyn' / 'Ymrwymiad i'r Gymraeg' hefyd yn cael ei chyflwyno.
- Mae gan Heddlu Gwent rwydwaith dysgwyr Cymraeg sy'n rhoi cyfle i ddefnyddio ac ymarfer y Gymraeg
- Mae gan Heddlu Gogledd Cymru grŵp cerdded Cymraeg sy'n cyfarfod yn fisol ar ddydd Sul i alluogi siaradwyr Cymraeg a staff sy'n dysgu ymarfer eu Cymraeg yn ystod eu hamser eu hunain
- Mae Heddlu De Cymru wedi sefydlu grŵp 'Siop Siarad' ychwanegol yng Nghaerdydd sy'n caniatáu i swyddogion a staff yng Nghaerdydd ymarfer a gwella'u Cymraeg mewn lleoliad difyr ac anffurfiol
- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cynnal eisteddfod staff er mwyn hybu'r diwylliant Cymraeg.

4.4.10. Mae gan Coleg Caerdydd a'r Fro ei ymgyrch farchnata ei hun, sef #SiaradDysguByw, i hyrwyddo ei weledigaeth ar gyfer cynyddu cyfleoedd i siarad, dysgu a byw yn Gymraeg. Fel rhan o'r ymgyrch, mae prosiect arloesol yn cael ei redeg i gynyddu'r Gymraeg a glywir ar lafar ar y campysau ac i annog parodrwydd i ddefnyddio'r iaith ymhlith staff a myfyrwyr ar draws y Coleg. Mae wedi'i ddylunio ar gyfer bob lefel o allu, o siaradwyr rhugl i'r rheiny sydd heb sgiliau iaith Gymraeg blaenorol, gall unigolion sy'n cymryd rhan sganio cod QR unigryw ym mannau penodol o gwmpas y campysau wrth siarad Cymraeg a rhoddir eu henw mewn raffl fisol.

5 Hybu'r Gymraeg

Mae gan bob sefydliad draweffaith economaidd a chymdeithasol, sydd yn ei dro'n gallu effeithio ar sefyllfa'r Gymraeg a'r defnydd ohoni. Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ystyried sut y gallant ddefnyddio'r grym hwn er budd y Gymraeg, mewn dwy brif ffordd – mae'n rhaid i bob sefydliad ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi, ac mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol baratoi strategaethau hybu'r Gymraeg.

Caf yr argraff fod sefydliadau'n araf i sylweddoli maint ac arwyddocâd y cyfrifoldeb strategol mae'r gofynion hyn wedi ei osod arnynt.

Mae trefniadau mewn lle i asesu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, ond arwynebol yw'r ystyriaeth yn aml, ac nid wyf wedi gweld tystiolaeth sylweddol o sefydliadau'n gwneud newidiadau sylweddol i'w cynlluniau er mwyn gwneud lles i'r Gymraeg.

Mae gan strategaethau 5 mlynedd botensial enfawr i wneud awdurdodau lleol yn asiantaethau hybu'r Gymraeg o fewn eu hardaloedd, gan gydlyn a gyrru ymdrechion mewn meysydd mor amrywiol ag addysg, economi, cynllunio, ieuencid, twristiaeth, gofal ac ati. Mae'r strategaethau wedi arwain at roi sylw strategol i'r Gymraeg mewn nifer o sefydliadau, ond nid yw'n glir faint o weithgareddau newydd sydd wedi eu cychwyn o ganlyniad uniongyrchol i'r strategaethau, ac nid oes cyllid ac adnoddau newydd sylweddol wedi eu neilltuo i'w gweithredu yn y rhan fwyaf o achosion.

Mae cyfle ar y gorwel i newid hyn, gyda gofyniad i sefydliadau adolygu a llunio strategaethau newydd yn 2021 a 2022. Nawr yw'r amser i ddechrau cynllunio a mesur effaith er mwyn sicrhau bod y strategaethau'n cael effaith wirioneddol ar sefyllfa'r Gymraeg yn gymunedol yn ystod y ddegawd hon.

Barn y Comisiynydd

5.1 Asesu effaith penderfyniadau polisi

- 5.1.1. Mae'r safonau llunio polisi'n golygu bod disgwyl i sefydliadau ystyried sut y gall eu holl weithgareddau a'u penderfyniadau wneud lles i sefyllfa'r Gymraeg. Mae'n rhaid i sefydliadau gynnal asesiad ar gyfer pob polisi maent yn ei lunio neu ei ddiwygio, er mwyn ystyried yr effaith ar y Gymraeg.
- 5.1.2. Mae rheoliadau safonau'r Gymraeg yn diffinio penderfyniad polisi fel 'unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall'. Sonnir, er enghraifft, am benderfyniadau ynghylch 'cynnwys deddfwriaeth'; 'arfer pwerau statudol'; 'cynnwys datganiadau polisi'; 'strategaethau neu gynlluniau strategol'; 'strwythurau mewnol'; 'lleoliadau swyddfa' ac 'adeiladau', a 'recriwtio a defnyddio gwirfoddolwyr'.
- 5.1.3. Wrth gynnal yr asesiad, mae'n rhaid:
- Adnabod effeithiau'r penderfyniad polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
 - Adnabod a yw'r effeithiau hynny'n bositif ynteu'n andwyol
 - Ystyried sut y gellid gwneud neu weithredu'r penderfyniad mewn ffordd sy'n cynyddu'r effeithiau positif, ac yn lleihau'r effeithiau andwyol.
- 5.1.4. Mae'n rhaid i sefydliadau gadw cofnod o'r camau maent wedi eu cymryd i gydymffurfio â'r safonau llunio polisi. Nid yw'r safonau'n manylu ynghylch natur y cofnodion na'r hyn ddylen nhw ei gynnwys. Cyhoeddwyd cod ymarfer y Comisiynydd i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) ym mis Chwefror 2020. Mae'r cod ymarfer yn nodi y gall cofnodion gynnwys:
- Copïau o asesiadau a wnaethpwyd gan y corff wrth ystyried effeithiau penderfyniad polisi ar y Gymraeg;
 - Copïau o gofnodion o gyfarfodydd a gynhaliwyd i drafod effeithiau'r penderfyniad polisi ar y Gymraeg
 - Copïau o gylch gorchwyl gwaith ymchwil sy'n dangos bod angen i'r ymchwil ystyried effeithiau'r penderfyniad polisi ar y Gymraeg.

Cynnal asesiadau o effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg – cyffredinol

- 5.1.5. Fe wnaethon ni ofyn i 12 o sefydliadau o reoliadau 2, 4, 5 a 6 rannu eu cofnodion â ni ar gyfer 6 mis cyntaf 2019-20. Ymatebodd 11 allan o'r 12 sefydliad i'r cais. Y dull mwyaf cyffredin o ddarparu'r cofnodion oedd rhannu copi o bob ffurflen asesu effaith.

Asesiadau a gynhaliwyd

- 5.1.6. Roedd nifer yr asesiadau a gynhaliwyd yn amrywio, gyda'r mwyafrif wedi darparu 5 neu lai. Bydd gwahanol sefydliadau'n gweithredu mewn gwahanol ffyrdd o ran gwneud penderfyniadau polisi'n gyffredinol, a bydd hynny wedyn yn dylanwadu ar y nifer o benderfyniadau sydd angen asesiad o'r effeithiau ar y Gymraeg. Ond gan ystyried bod y diffiniad o benderfyniad polisi mor eang, mewn rhai achosion rydym yn amau y dylai mwy o benderfyniadau fod yn destun asesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Er enghraifft:
- Nododd un sefydliad fod 18 penderfyniad polisi wedi ei wneud ond mai dim ond 3 a fu'n destun asesiad o'r effaith ar y Gymraeg
 - Nododd 2 sefydliad nad oeddent wedi gwneud unrhyw benderfyniadau polisi yn ystod y 6 mis dan sylw
 - Nododd un sefydliad nad oedd cofnod ffurfiol yn cael ei gadw ar gyfer pob penderfyniad polisi. Nodwyd bod asesiad llai ffurfiol yn digwydd mewn ymgynghoriad â'r swyddog iaith. Yn yr achosion hynny lle bo'r sefydliad yn adnabod effaith bosib ar y Gymraeg, bydd asesiad llawn a ffurfiol yn cael ei gynnal. Hyd at y cyfnod adrodd, nid oedd unrhyw gofnod o'r asesiadau anffurfiol hyn, fodd bynnag mae'r sefydliad bellach wedi mabwysiadu trefn o gofnodi'r asesiad anffurfiol ar flaenddalén y papur polisi. Lle bo'r sefydliad yn hyderus nad yw'r penderfyniad yn debygol o gael unrhyw effaith ar y Gymraeg ni fyddai asesiad effaith ffurfiol wedi ei gynnal. Nid yw hyn yn cydymffurfio â'r gofynion
 - Roedd un sefydliad wedi cynnal ymarferiad sgrinio ar gyfer papurau pob cyfarfod bwrdd. Ar gyfer pob cyfarfod, daeth yr ymarferiad i'r casgliad fod y papurau oll yn ymwneud â materion sydd wedi eu heithrio o'r safonau neu'n ymwneud â materion nad oeddent yn berthnasol i amcanion Mesur y Gymraeg. Mae'n briodol sgrinio i weld a oes materion sydd wedi eu heithrio o ofynion y safonau, ond yn y mwyafrif o achosion, mae angen cynnal asesiad ar gyfer pob penderfyniad polisi.

Dulliau asesu

- 5.1.7. O'r 8 sefydliad oedd wedi darparu copïau o'r asesiadau effaith, roedd 4 ohonynt â phroses a ffurflen benodol ar gyfer asesu effaith ar yr iaith Gymraeg. Roedd y 4 sefydliad arall yn asesu effaith polisi ar yr iaith Gymraeg fel rhan o broses asesu effaith ehangach. Mae'n gwneud synnwyr i gynnal yr asesiadau gofynnol i gyd yr un pryd, ond mae angen i sefydliadau sicrhau eu bod yn cwrdd â holl ofynion penodol y safonau.

- 5.1.8. Roedd un sefydliad wedi cynnwys un cwestiwn yn unig am effaith y polisi ar grwpiau â nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, ac wedi cynnwys y Gymraeg o fewn hynny. Nid yw'r Gymraeg yn un o'r nodweddion gwarchodedig ac nid oedd y dull hwn yn sicrhau ystyriaeth o'r holl faterion a nodir yn y safonau.
- 5.1.9. Yn ein cyfarfodydd adborth â sefydliadau, soniodd nifer ohonynt eu bod yn symud i ddefnyddio asesiadau effaith integredig, sy'n cynnwys holl elfennau angenrheidiol asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, ochr yn ochr ag unrhyw asesiadau eraill fel cydraddoldeb, preifatrwydd, a diogelu data.
- 5.1.10. O'r 8 sefydliad oedd wedi cyflwyno copiau o asesiadau effaith, roedd 7 ohonynt yn cynnwys cwestiynau penodol a oedd yn adlewyrchu ofynion y safonau. Dyma enghreifftiau o'r math o gwestiynau a welwyd:
- A yw'r polisi yn cael effaith neu'n debygol o gael effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? A yw'r effaith yn 'bositif' neu 'andwyol' i'r Gymraeg?
 - A ellir llunio'r polisi i gael effaith bositif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?
 - A ellir llunio'r polisi fel nad yw'n cael dim effaith andwyol neu'n cael llai o effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?
 - A yw'r polisi yn cael effaith, neu'n debygol o gael effaith, ar beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
 - A ellir llunio'r polisi i gael effaith bositif neu fwy positif ar beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
 - A ellir llunio'r polisi fel nad yw'n cael effaith andwyol neu effaith llai andwyol ar beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ansawdd asesiadau

- 5.1.11. Ar y cyfan, doedd y ffurflenni asesu a welsom ni ddim yn cynnig llawer o awgrymiadau ynghylch y ffactorau y dylid eu hystyried wrth gynnal yr asesiad, ac mae risg fod hynny'n golygu nad yw'r sawl sy'n cynnal yr asesiad yn ystyried yr holl effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol posib. Ond roedd eithriadau i hynny:
- Roedd un enghraifft (prifysgol) lle roedd y ffurflen yn cymhell awdur yr asesiad i ystyried materion penodol fel lefelau sgiliau staff, darpariaeth academaidd, ac effaith ar wasanaethau rheng flaen y sefydliad
 - Roedd enghreifftiau ble roedd y ffurflen asesu yn annog awdur y polisi i ystyried sut gall y polisi gynnig cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a gwella deilliannau i'r Gymraeg, gan gyfeirio at amcanion strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050
 - Roedd asesiad effaith un sefydliad yn cyfeirio at amcanion ynghylch y Gymraeg o fewn Cynllun Strategol y sefydliad, gan ei gwneud yn ofynnol i'r awdur nodi sut byddai'r polisi'n gweithio tuag at gyflawni'r amcanion.
 - Roedd asesiad effaith sefydliad arall yn cynnwys targedau'r sefydliad ar gyfer y Gymraeg ac yn gofyn i'r awdur nodi sut byddai'r polisi yn gweithio tuag at gyrraedd y targedau hyn.

- 5.1.12. Roedd amrywiaeth eang yn ansawdd a rhychwant yr asesiadau a dderbyniwyd. Gwelwyd ambell enghraifft ble roedd yr awdur wedi cynnal asesiad ystyrlon drwy ystyried amrywiaeth eang o ffactorau a chyflwyno tystiolaeth i gefnogi ei ganfyddiadau.
- 5.1.13. Gwelwyd hefyd enghreifftiau o asesiadau oedd yn ymddangos yn arwynebol iawn, gyda'r ateb syml 'No' wedi ei nodi o fewn y blwch oedd yn gofyn a oedd y polisi yn debygol o gael effaith ar y Gymraeg. Yn ogystal, gwelwyd cyfres o ddatganiadau cyffredinol yn cael eu defnyddio fwy nag unwaith gan rai sefydliadau. Nid oedd yr enghreifftiau hyn yn cynnig sicrwydd fod y sefydliad wedi rhoi gwir ystyriaeth i'r amryw ffactorau all effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sut caiff yr iaith ei thrin.
- 5.1.14. Rhannodd rhai sefydliadau eu trefniadau ar gyfer sicrhau mewnbwn arbenigol i'r asesiad, e.e. drwy ymgynghori â swyddog iaith y sefydliad, ac er mwyn sicrhau craffu mewnol ar benderfyniadau. Nododd Cyngor Sir y Fflint ei fod wedi cynnwys y fenter iaith leol yn ei Grŵp Rhanddeiliaid Asesiad Effaith Integredig a bod y fenter felly'n cael cyfle awtomatig i gyfrannu at bob asesiad.
- 5.1.15. Dylai sefydliadau sicrhau bod ganddynt drefniadau digonol ar gyfer sicrhau bod asesiadau'n digwydd ar sail dealltwriaeth drylwyr o gyd-destun defnyddio'r Gymraeg, a'u bod yn derbyn sgrwtini effeithiol.

Asesiadau effaith sy'n effeithio ar addysg Gymraeg

- 5.1.16. Cynhaliwyd ymchwiliad yn dilyn cwyn nad oedd Cyngor wedi ymgynghori'n briodol cyn cynnig cau ysgol gynradd Gymraeg, nac wedi ystyried effaith newid eu polisi ar y Gymraeg. Nododd yr ymchwiliad na wnaeth yr asesiad a gynhaliwyd fynd i'r afael yn briodol ag effeithiau cau'r ysgol ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned yn ehangach, na ddefnyddiwyd digon o amrywiaeth o dystiolaeth gadarn, ac nad ystyriwyd sut y gellid cymryd camau er mwyn lleddfu effaith y penderfyniad ar y gymuned. Roedd diffygion yn y modd y gwnaeth y Cyngor ymgynghori ar y penderfyniad hefyd.
- 5.1.17. Rhoddodd y Comisiynydd gyhoeddusrwydd i'r adroddiad drwy gyhoeddi datganiad i'r wasg, a gosodwyd 14 o gamau gorfodi ar y Cyngor, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol:
- Mabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi ystyriaethau ar unrhyw effeithiau y byddai penderfyniad polisi yn ei gael ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
 - Creu neu adolygu canllawiau i staff sydd yn gyfrifol am gynnal asesiadau effaith o benderfyniadau polisi er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol yng nghyd-destun yr effaith posibl ar y Gymraeg.
 - Diwygio prosesau ar gyfer cyhoeddi dogfennau ymgynghori
 - Rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant drwy gyhoeddi'r adroddiad ar ei wefan.

- 5.1.18. Yn sgil derbyn gohebiaeth gan aelodau'r cyhoedd a grwpiau pwyso, cyhoeddodd y Comisiynydd ddogfen gyngor ynghylch sut i ystyried y Gymraeg wrth i awdurdodau lleol adolygu eu polisiau cludiant i ddisgyblion ôl-16 i'r ysgol neu fannau dysgu eraill. Bwriad y ddogfen oedd sicrhau bod sefydliadau'n cydymffurfio â'r safonau llunio polisi, a lleihau effeithiau andwyol posibl ar allu disgyblion i dderbyn addysg Gymraeg. Rhoddodd sefydliadau fwy o feddwl i'w penderfyniadau yn dilyn derbyn y cyngor, ond dylai hyn fod yn digwydd fel mater o drefn, heb i aelodau'r cyhoedd a'r Comisiynydd orfod ymyrryd.
- 5.1.19. Yn ogystal â llunio cyngor, anfonodd y Comisiynydd arolwg at awdurdodau lleol er mwyn casglu gwybodaeth am eu trefniadau darparu cludiant cyfredol, nifer y dysgwyr sy'n mynychu addysg ôl-16 yn yr ardal leol, costau cyfredol ac unrhyw ddiwygiadau sydd wedi eu gweithredu neu eu cynllunio. Dyma brif gasgliadau'r arolwg hwnnw:
- O safbwynt trefniadau cyfredol, mae'n galonogol fod y mwyafrif o'r awdurdodau a wnaeth ymateb i'r arolwg yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion ôl-16 oed, er bod y ddarpariaeth yn ddibynnol ar amodau penodol.
 - Serch hynny, mae'r anghysondeb o safbwynt naill ai pellter teithio o'r cartref i'r man dysgu, neu'r grantiau sy'n cael eu cynnig gan awdurdodau lleol, yn golygu nad yw'r mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn gyson o ran hwylustod o un ardal i'r llall.
 - Gan ystyried fod y mwyafrif o'r awdurdodau lleol a wnaeth ymateb i'r arolwg hwn yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion ôl-16 oed, mae'n galonogol nad oes gan y rhan fwyaf ohonynt gynlluniau i ddiwygio eu polisiau ar hyn o bryd. Serch hynny, mi fydd o leiaf dau awdurdod lleol yn diwygio eu polisiau cludiant dros y blynnyddoedd nesaf fydd yn golygu codi tâl am gludiant i ysgolion a mannau dysgu eraill.
- 5.1.20. Arweiniodd y gwaith hwn at addewid gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o deithio gan ddysgwyr ôl-16. Mae'r Comisiynydd wedi annog y Llywodraeth i ehangu'r adolygiad i ystyried polisiau teithio gan ddysgwyr yn gyffredinol, a hynny er mwyn sicrhau bod y polisiau hyn yn cefnogi strategaeth y Llywodraeth i ehangu'r niferoedd sy'n mynychu addysg Gymraeg. Mae'r Comisiynydd am weld cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi'n cyfrannu at sicrhau bod polisiau cludiant yn hwyluso mynediad at addysg Gymraeg.

Hybu'r Gymraeg wrth gyflawni swyddogaethau

- 5.1.21. Roedd nifer o sefydliadau'n mynd ati i hybu'r Gymraeg wrth wneud eu swyddogaethau arferol, a hynny weithiau yn sgil gofyniad penodol a osodir yn eu cylch gwaith gan y Llywodraeth, neu ymrwymiad yng nghyfansoddiad y sefydliad. Er enghraifft:
- Soniodd Amgueddfa Cymru fod y Gymraeg yn un o'i meini prawf ar gyfer penderfyniadau ynghylch arddangosfeydd a digwyddiadau i'w cynnal. Mae hefyd yn rhedeg gwersi Cymraeg ar gyfer y gymuned yn lleoliadau'r Amgueddfa, mewn partneriaeth â darparwyr lleol, gan roi gofod saff i ddysgwyr ddysgu Cymraeg, ac ymarfer eu Cymraeg mewn cyd-destun penodol. Cynhaliwyd Ar Lafar – gŵyl undydd ar gyfer 650 o ddysgwyr Cymraeg – mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
 - Mae Cyngor Caerdydd wedi mabwysiadu polisi o roi enwau Cymraeg ar strydoedd newydd y brifddinas, gyda'r bwriad o sicrhau nifer cydradd o enwau strydoedd Cymraeg a Saesneg dros amser, ac i hyrwyddo defnydd beunyddiol o'r Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg fel ei gilydd
 - Mae gweithgor addysg Gymraeg a dwyieithog Estyn yn ystyried sut i ddefnyddio swyddogaethau arolygu Estyn er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Caiff y Gymraeg ei hystyried fel rhan o rai o feysydd arolygu safonol y sefydliad, ac mae canllawiau wedi eu haddasu i bwysleisio hyn
 - Er nad yw'r safonau'n ymwneud â darlledu, mae'r BBC ac S4C yn hybu'r Gymraeg drwy eu cynnwys darlledu ac addysgol, ac hefyd drwy weithgareddau cysylltiedig fel gyrfaedd, sgiliau a phartneriaethau. Er enghraifft, roedd y gyfres Iaith ar Daith ar S4C yn bartneriaeth â Say Something in Welsh, ac arweiniodd at fwy o ddiddordeb mewn dysgu Cymraeg; yn ogystal, mae nifer o fentrau ar fynd gan S4C i ddatblygu sgiliau arbenigol mewn gwahanol feysydd darlledu er mwyn creu cyfleoedd cyflogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a gwasanaethu anghenion yr economi.

5.2 Polisi dyfarnu grantiau

- 5.2.1. Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n dyfarnu grantiau gael polisi'n ei gwneud yn ofynnol ystyried y Gymraeg wrth wneud hynny. Mae angen i'r polisi sicrhau bod ystyriaeth debyg i'r safonau llunio polisi'n digwydd – hynny yw, rhaid i'r sefydliad ystyried sut y gellir gwneud neu weithredu penderfyniad ynghylch grant fel ei fod yn cynyddu effeithiau positif ar y Gymraeg, ac yn lleihau effeithiau andwyol.
- 5.2.2. Barn y Comisiynydd yw nad yw'n ddigonol cael polisi yn unig – unwaith y mae polisi mewn lle, mae angen i sefydliadau sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â'r polisi. Diben y polisi yw sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r Gymraeg, ac os nad oes ystyriaeth wedi ei rhoi i'r Gymraeg, nid yw'r polisi sicrhau hynny yn unol â bwriad y safon.
- 5.2.3. Fe wnaethon ni chwilio am y polisi dyfarnu grantiau ar wefannau sefydliadau perthnasol, a chanfod mai canran isel iawn o sefydliadau oedd wedi cyhoeddi polisi fel roedd yn ofynnol. Dim ond 1 o'r 12 sefydliad oedd dan ddyletswydd yn rheoliadau rhif 2 oedd wedi cyhoeddi polisi, a dim un o'r 23 sefydliad perthnasol yn rheoliadau rhif 6.
- 5.2.4. Trafodwyd hyn mewn cyfarfodydd adborth â sefydliadau rheoliadau rhif 2. Mae nifer o sefydliadau wrthi'n datblygu polisïau er mwyn cydymffurfio wedi i ni bwysleisio'r angen i wneud hynny.
- 5.2.5. Roedd gan rai sefydliadau sy'n dyfarnu grantiau fel eu prif weithgaredd drefniadau ystyrllon ar gyfer sicrhau bod y grantiau hynny'n cael effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg.
- 5.2.6. Mae adroddiad blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru'n cynnwys dadansoddiad ystadegol trwyadl o gyfranogiad yn y celfyddydau drwy'r Gymraeg a gan siaradwyr Cymraeg, ac mae nifer o adolygiadau mwy ansoddol ar fynd gan y sefydliad, er enghraifft i 'fapio gweithgarwch celfyddydol yn y Gymraeg' ac 'asesu marchnata Cymraeg cyfredol ar draws sector y celfyddydau yng Nghymru'. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos ystyriaeth o'r Gymraeg wrth wneud ceisiadau am grantiau, gall methiant i wneud hynny fod yn rheswm dros beidio ag ariannu, a chaiff gofynion ynghylch gwasanaethau a marchnata yn Gymraeg eu cynnwys yn amodau grantiau. Mae'r sefydliad hefyd yn cynnal prosiectau i wella'r ddarpariaeth Gymraeg mewn meysydd celfyddydol penodol lle maent yn gweld diffyg, ac yn ceisio cyfeirio penderfyniadau ariannu at weithgareddau a fydd yn effeithiol ar gyfer hybu'r Gymraeg, e.e. cynrychiadau theatr ar gyfer teuluoedd
- 5.2.7. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri'n mynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg drwy ei grantiau. Mae hyn yn cynnwys grantiau mawr i fudiadau a sefydliadau sy'n hybu'r Gymraeg (e.e. Clybiau Ffermwyr Ifanc ac ailwampio Gwersyll yr Urdd Llangrannog). Gwelodd y sefydliad gwmp yn llwyddiant ceisiadau Cymraeg yn sgil newidiadau i'w trefniadau ariannu, ac felly rhoddwyd cyfarwyddyd i staff dreulio mwy o amser yn cefnogi ceisiadau Cymraeg. Mae'r sefydliad wedi gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau, gan gynnwys y

mentrau iaith, Merched y Wawr a'r Mudiad Meithrin er mwyn cyrraedd mwy o fudiadau Cymraeg.

- 5.2.8. Mae'r ddau sefydliad wedi gweithio gyda thîm Hybu a Hwyluso'r Comisiynydd i gynnig hyfforddiant er mwyn cynyddu gallu derbynwyr grant i weithio drwy'r Gymraeg.

5.3 Gweithredu strategaethau 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg

- 5.3.1. Mae'n rhaid i gynghorau sir ac awdurdodau parciau cenedlaethol gael strategaethau 5 mlynedd i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu hardal. Rhaid i'r strategaeth gynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal y ganran o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd, a datganiad yn esbonio sut mae'r sefydliad yn bwriadu cyrraedd y targed.
- 5.3.2. Mae'n ofynnol adolygu'r strategaeth 5 mlynedd ar ôl ei chyhoeddi. Gan dybio bod sefydliadau wedi cyhoeddi eu strategaethau yn 2016 or 2017, bydd angen eu hadolygu yn 2021 neu 2022. Rhaid i'r asesiad gynnwys nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, a'u hoedran, a rhestr o weithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd gan y sefydliad i hybu defnyddio'r Gymraeg yn ystod y 5 mlynedd y bu'r strategaeth yn weithredol.
- 5.3.3. Fe wnaethon ni ofyn i 11 cyngor sir a 3 awdurdod parc cenedlaethol ateb cyfres o gwestiynau am eu cydymffurfiaeth â'r safonau hyn. Ymatebodd yr 14 sefydliad i'r cais.

Gweithgareddau

- 5.3.4. Nododd sefydliadau eu bod wedi cynnal nifer o weithgareddau er mwyn gweithredu'r strategaethau. Roedd nifer eithaf sylweddol o'r gweithgareddau'n ymwneud ag addysg, ac yn clymu â chynnwys Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Roedd y mathau o weithgareddau a nodwyd yn cynnwys:
 - Hyrwyddo cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig addysg Gymraeg a gofal plant drwy'r Gymraeg
 - Creu cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn ysgolion, er enghraifft drwy'r Siarter Iaith yng Nghyngor Gwynedd
 - Cynyddu capasiti'r sir i gynnig addysg Gymraeg, er enghraifft drwy agor neu ddatblygu ysgolion (bydd gan bob sir Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg fydd yn delio mewn manylder â chymau o'r fath)
 - Cynnal digwyddiadau sy'n creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol neu sy'n benodol ar gyfer dathlu'r Gymraeg – gan amlaf drwy gefnogi neu ariannu gweithgareddau a drefnwyd gan y Fenter Iaith leol
 - Darpariaeth Dysgu Cymraeg
 - Codi ymwybyddiaeth staff y sefydliad o'r angen i ymwneud â'r cyhoedd yn Gymraeg, a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol
 - Darparu rhai o wasanaethau'r sefydliad yn Gymraeg drwy bartneriaeth, e.e. gweithio gyda'r Urdd ar gynllun prentisiaeth i ddarparu gwersi chwaraeon.

- 5.3.5. Mae rhai o'r gweithgareddau hyn yn rhai y byddai'n rhaid i'r sefydliadau eu cyflawni beth bynnag, er enghraifft er mwyn cydymffurfio â'r safonau neu yn sgil y gofyniad i gael Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Roedd awdurdodau parciau cenedlaethol yn tueddu i sôn am gynnal gweithgareddau neu brosiectau yn Gymraeg (e.e. teithiau cerdded a chysiau), neu roi sylw i'r Gymraeg o fewn mentrau (e.e. cynlluniau profiad gwaith a gwirfoddoli), ond doedd hi ddim yn glir a oedd y gweithgareddau hynny'n digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r strategaeth hybu.
- 5.3.6. Soniodd ambell sefydliad am weithgareddau nad oedd sefydliadau eraill yn eu gwneud. Er enghraifft, soniodd Cyngor Sir Ceredigion am:
- Rhoi sylw i'r Gymraeg mewn cynllun ar gyfer hybu economi'r sir
 - Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd yn annog gwarchod enwau tai cynhenid Cymraeg, ac yn sicrhau mai enw Cymraeg sydd ar bob stryd newydd.
- 5.3.7. Roedd Cyngor Gwynedd, yn enwedig, wedi adnabod cyfleoedd i gydweithio gyda sefydliadau eraill yn yr ardal, gan ddefnyddio Is-grŵp y Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol i gydweithio â Phrifysgol Bangor ac eraill ar brosiectau ym maes technoleg a defnydd mewnol o'r Gymraeg. Roedd Cyngor Gwynedd hefyd yn ceisio cael dylanwad ar sefyllfa'r Gymraeg drwy'r system cynllunio, gydag Uned y Gymraeg o fewn y Cyngor yn rhoi sylw ar asesiadau iaith a gyflwynwyd mewn ceisiadau cynllunio. Mae Is-Grŵp y Bwrdd Gwasanaethau hefyd yn cael ei ddefnyddio i adnabod cyfleoedd ar gyfer datblygu defnydd o'r Gymraeg, a chyfleoedd i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg, mewn achosion o gyd-ddarparu gwasanaethau.

Cyllid ac adnoddau

- 5.3.8. Gofynnwyd i'r sefydliadau pa adnoddau (e.e. cyllid, staff a chyfleusterau) sydd wedi eu neilltuo ar gyfer gweithredu'r strategaethau. Nid yw'n ymddangos fod sefydliadau wedi neilltuo cyllid ac adnoddau sylweddol, o bell ffordd, i weithredu'r strategaethau hybu. Mewn sawl achos mae'r swyddogion sy'n gyfrifol am y strategaethau hefyd yn gyfrifol am faterion eraill, e.e. cydymffurfiaeth â'r safonau, ac nid yw'n glir faint o amser y swyddogion hynny sy'n cael ei dreulio ar weithredu'r strategaethau. Yn benodol:
- Nododd 9 o'r 14 sefydliad nad oedd unrhyw gyllid ychwanegol wedi'i glustnodi ar gyfer cyflawni'r strategaethau hybu.
 - Roedd 2 o'r sefydliadau wedi penderfynu darparu cyllid ychwanegol ar gyfer penodi aelodau staff. Roedd un o'r swyddi'n un Cydlynnydd Iaith Gymraeg llawn amser, a'r llall yn swydd un diwrnod yr wythnos – nid cyflawni'r strategaeth yn unig yw diben y swyddi hyn
 - Nododd un cyngor ei fod wedi cyfrannu £4,000 i'r Fenter Iaith leol ar gyfer cynnal digwyddiadau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Fenter Iaith wedi penodi Swyddog Datblygu ar gyfer cydlynu'r prosiect
 - Roedd cyngor arall wedi rhoi cyllid ychwanegol ar gyfer cynnal digwyddiadau proffil uchaf ei Strategaeth 5 mlynedd, ond heb nodi swm.

- 5.3.9. Soniodd nifer o'r sefydliadau am bartneriaethau â mudiadau lleol sy'n ymwneud â hybu'r Gymraeg, a bod gan y partneriaid allanol dargedau eu hunain fel rhan o'r strategaethau. Gan amlaf roedd y partneriaid hyn yn dod ynghyd mewn fforwm iaith sirol. Roedd nifer hefyd yn nodi bod amser staff yn adnodd allweddol ar gyfer cyflawni'r strategaethau, ond heb nodi faint o amser staff sy'n cael ei dreulio ar hyn.

Adrodd a monitro

- 5.3.10. Nododd y mwyafrif o sefydliadau eu bod yn adrodd yn flynyddol ar weithrediad y strategaeth. Roedd y dulliau o wneud hynny'n amrywio, gyda rhai'n adrodd o fewn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg, ac eraill yn adrodd yn benodol ar gyflawni cynllun gweithredu'r strategaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y Cabinet neu'r Aelod Cabinet perthnasol yn derbyn yr adroddiad blynyddol. Mae'n dda fod strategaethau'n cael sylw gan aelodau etholedig yn flynyddol, ond gall fod lle i wella a chynyddu amllder monitro mewnol, er enghraifft drwy sicrhau bod uwch swyddogion a rheolwyr o fewn y sefydliadau'n darparu atebolrwydd yn fisol neu'n chwarterol ynghylch gweithredu'r strategaethau.
- 5.3.11. Nododd y mwyafrif o sefydliadau eu bod wedi sefydlu fforwm iaith sirol, yn dod â phartneriaid allweddol ynghyd, a bod y fforwm yn derbyn diweddariad cyson ar weithrediad y strategaeth. Roedd yn ymddangos fod y fforymau hyn yn amrywio o ran pa mor aml roeddent yn cwrdd a pha mor effeithiol oedd y sgrwtini.
- 5.3.12. Roedd gan ambell sefydliad grŵp gweithredu ar y Gymraeg yn fewnol, gyda'r aelodaeth yn gyfuniad o swyddogion ac aelodau etholedig. Roedd y grwpiau hyn yn tueddu i gyfarfod yn chwarterol a thrafod gweithredu'r strategaeth.
- 5.3.13. Wrth ymateb i'n cwestiwn ynghylch asesu'r strategaethau ar ddiwedd y 5 mlynedd, soniodd y mwyafrif o sefydliadau am eu trefniadau monitro ac adrodd rheolaidd. Mae'n amheus felly a oes ganddynt gynlluniau pendant mewn lle ar gyfer asesu eu cynnydd yn 2022.
- 5.3.14. Cyngor Sir Ceredigion oedd yr unig sefydliad i sôn am gynlluniau i ddefnyddio'r Cyfrifiad i ddadansoddi a yw wedi cyrraedd y targed yn y strategaeth ynghylch nifer siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. Soniodd un sefydliad am ddefnyddio ffigurau am y Gymraeg o Arolwg Blynyddol y Boblogaeth i fesur cynnydd yn erbyn y targed a osodwyd.
- 5.3.15. Rydym yn ymwybodol bellach o effaith Covid-19 ar gasgliadau data ac arolygon – mae'r Arolwg Defnydd Iaith, er enghraifft, wedi cael ei atal – felly mae'n hanfodol fod sefydliadau'n deall pa ddata sydd ar gael a pha fesuryddion sydd angen iddyn nhw eu datblygu er mwyn gallu cydymffurfio â'r gofyniad i asesu cynnydd.
- 5.3.16. Mae angen i bob sefydliad ddechrau cynllunio ar gyfer asesu llwyddiant y strategaethau yn 2021 neu 2022, gan roi sylw penodol i allu nodi a gyrhaeddwyd y targedau o ran nifer siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.

Methodoleg

1. Monitro

Roedd meini prawf pob arolwg ac astudiaeth yn seiliedig ar ofynion grŵp penodol o safonau'r Gymraeg.

Nid oedd pob sefydliad dan ddyletswydd i weithredu'r holl safonau a oedd yn sail i feini prawf yr arolygon – efallai fod y sefydliad yn gweithredu cynllun iaith, bod safonau heb eu gosod ar y sefydliad, bod y diwrnod gosod ar gyfer safonau heb basio, neu fod y sefydliad wedi herio'r ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau. Adrodd ar brofiad y defnyddiwr yw amcan yr adroddiad hwn gan amlaf. Mewn achosion lle cyfeirir yn benodol at gydymffurfio â safonau, dim ond sefydliadau oedd dan ddyletswydd sydd wedi eu cynnwys.

Dadansoddwyd canlyniadau pob ymarferiad gan un o swyddogion y Comisiynydd, gan adnabod canfyddiadau. Cafodd y canlyniadau eu gwirio gan gydweithwyr, a'u trafod a'u herio'n fewnol.

Arolygon gwirio

Cynhaliwyd y gwaith gwirio gan swyddogion y Comisiynydd (ac eithrio derbynfeydd, arwyddion a pheiriannau hunanwasanaeth, a gynhaliwyd gan Cwmni Iaith ar ran y Comisiynydd).

Ar gyfer pob arolwg, lluniwyd meini prawf a oedd yn seiliedig ar ofynion y safonau. Roedd swyddogion yn cyrchu'r gwasanaeth ac yn cofnodi i ba raddau roedd eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth yn cwrdd â'r meini prawf hynny.

Mae'r tabl isod yn dangos y gwasanaethau a arolygwyd a'r safonau perthnasol. Rhoddir rhifau safonau isod fel y maent yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015; mae'r rhifau'n wahanol mewn rheoliadau eraill, ond y gofynion yn debyg.

Arolwg	Safonau perthnasol	Dull cyrchu gwasanaeth	Amllder a chyfnod gwirio
Gohebiaeth	1, 6, 7	Anfon ymholiadau dros e-bost yn Gymraeg ac yn Saesneg at brif gyfrif y sefydliad	3 gwaith, ym misoedd Mehefin, Medi a Rhagfyr 2019
Galwadau ffôn	8, 9, 10, 11, 12, 13, 16, 17, 22	Ffonio prif rif y sefydliad gydag ymholiad	3 gwaith, ym misoedd Mehefin, Medi a Rhagfyr 2019
Derbynfeydd	64, 66, 67, 68	Mynd i brif dderbynfa sefydliad gydag ymholiad	2 waith, ym mis Hydref a mis Tachwedd 2019
Dogfennau	40 (Dogfennau at ddefnydd y cyhoedd) 43 (Llyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn) 46 (Datganiad i'r wasg) 50 (Ffurflen)	Chwilio am enghraifft o'r dogfennau ar wefan y sefydliad	Gwiriwyd 3 enghraifft o'r 3 math o ddogfen, ym mis Rhagfyr 2019
Hunaniaeth gorfforaethol	83	Chwilio am enghraifft o logo sefydliad ar wefan, cyfryngau cymdeithasol a dogfennau	Gwiriwyd 3 enghraifft, ym mis Rhagfyr 2019
Gwefannau	52, 53, 54, 55, 56	Gwirio tudalen hafan a thudalennau eraill ar brif wefan y sefydliad	Gwiriwyd 30 tudalen we, ym mis Rhagfyr 2019
Cyfryngau cymdeithasol	58	Gwirio negeseuon ar brif gyfrif Facebook a Twitter sefydliadau	Gwiriwyd 15 neges yr un ar Twitter a Facebook, ym mis Rhagfyr 2019
Peiriannau hunanwasanaeth	60	Defnyddio peiriant hunanwasanaeth ym mhrif dderbynfa'r sefydliad	Gwiriwyd un peiriant ar y ddau ymweliad â derbynfa'r sefydliad, ym mis Hydref a mis Tachwedd 2019
Arwyddion	61, 62, 63	Arsylwi ar arwyddion ym mhrif dderbynfa sefydliad	Gwiriwyd 3 arwydd ar y ddau ymweliad â derbynfa'r sefydliad, ym mis Hydref a mis Tachwedd 2019
Swyddi	136, 136A, 137, 137A, 137B, 138, 139	Edrych ar hysbysebion swyddi ar brif wefan y sefydliad	Gwiriwyd hyd at 30 hysbyseb swydd, ym mis Rhagfyr 2019

Gwiriwyd gwasanaethau sampl ar hap o draean sefydliadau perthnasol. Roedd cyfanswm o 48 sefydliad yn rhan o'r sampl, a chanlyniadau ar gyfer y sampl hon a nodir yn yr adroddiad oni nodir yn wahanol. Yn ogystal, gwiriwyd gwasanaethau holl sefydliadau rheoliadau rhif 1, ond ni chawsant eu cynnwys yn y canlyniadau cyffredinol oni nodir hynny. Y sefydliadau oedd yn rhan o'r sampl yw:

Grŵp o sefydliadau	Sefydliadau penodol
Rheoliadau rhif 1	APC Eryri; CBS Blaenau Gwent; CBS Conwy; CBS Rhondda Cynon Taf; Cyngor Dinas Caerdydd; Cyngor Sir Ceredigion; Cyngor Sir Gâr; Cyngor Sir y Fflint
Rheoliadau rhif 2	Amgueddfa Genedlaethol Cymru; Canolfan Mileniwm Cymru; Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru; Opera Cenedlaethol Cymru; Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth; Theatr Genedlaethol Cymru; Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig
Rheoliadau rhif 4	—
Rheoliadau rhif 5	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru; Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent; Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru; Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru; Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydain
Rheoliadau rhif 6	Addysg Oedolion Cymru; Coleg Caerdydd a'r Fro; Coleg Ceredigion; Coleg Merthyr Tudful; Grŵp Llandrillo Menai; Prifysgol Aberystwyth; Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; Prifysgol De Cymru; Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Rheoliadau rhif 7	Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru; BIA Powys; BIP Bae Abertawe; BIP Aneurin Bevan; BIP Betsi Cadwaladr; BIP Cwm Taf Morgannwg; BIP Caerdydd a'r Fro; BIP Hywel Dda; Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Cynlluniau iaith	Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion; Asiantaeth Safonau Bwyd; Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau; Gwasanaeth Llysoedd a Thribywnlysoedd EM; Ofgem; Swyddfa Cymru; Y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Astudiaethau thematig

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau ysgrifenedig ar y pynciau isod i'r sefydliadau a nodir.

Astudiaeth	Sefydliadau
Cyfarfodydd yn ymwneud â llesiant unigolion	CBS Caerffili; CBS Conwy; CBS Pen-y-bont ar Ogwr; Cyngor Dinas a Sir Abertawe; Cyngor Dinas Caerdydd; Cyngor Bro Morgannwg; Cyngor Sir Ddinbych; Cyngor Sir Fynwy; Cyngor Sir Powys; Cyngor Sir Ynys Môn; Cyngor Sir Gâr
Gweithredu strategaethau 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg	APC Arfordir Penfro; APC Bannau Brycheiniog; APC Eryri; CBS Blaenau Gwent; CBS Castell-nedd Port Talbot; CBS Merthyr Tudful; CBS Rhondda Cynon Taf; CBS Wrecsam; CBS Torfaen; Cyngor Gwynedd; Cyngor Sir Ceredigion; Cyngor Dinas Casnewydd; Cyngor Sir Penfro; Cyngor Sir y Fflint
Cofnodion asesiadau effaith penderfyniadau polisi	Canolfan Mileniwm Cymru; Comisiynydd Pobl Hyn Cymru; Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru; Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth; Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig; Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru; Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru; Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru; Addysg Oedolion Cymru; Coleg Ceredigion; Prifysgol De Cymru; Prifysgol Aberystwyth
Cofnodion asesiadau sgiliau recriwtio	Amgueddfa Genedlaethol Cymru; Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Opera Cenedlaethol Cymru; Theatr Genedlaethol Cymru; Cyngor y Gweithlu Addysg; Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru; Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent; Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydain; Coleg Caerdydd a'r Fro; Coleg Merthyr Tudful; Grŵp Llandrillo Menai; Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; Prifysgol Abertawe

Dyletswyddau sefydlog

Gwiriwyd a oedd pob sefydliad yn rheoliadau rhif 1, 2, 4, 5 a 6 wedi cyhoeddi dogfennau sy'n ofynnol eu cyhoeddi, ac aseswyd y cynnwys:

- Cofnod o'r safonau maent dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw (safonau 155, 161, 167, 173 ac 175)
- Gweithdrefn gwyno (safonau 156, 162 ac 168)
- Trefniadau goruchwyllo, hybu a hwyluso (safonau 157, 163 ac 169)
- Adroddiad blynyddol (safonau 158, 164 ac 170)
- Esboniad o'r modd y mae'r sefydliad yn bwriadu cydymffurfio (safonau 159, 165 ac 171).

(Rhifau fel yn rheoliadau rhif 1, fel yr esboniwyd uchod.)

2. Ymgysylltu â'r cyhoedd

Grwpiau trafod

Arweiniwyd trafodaeth strwythuredig gan swyddogion y Comisiynydd, gyda'r nod o gymell mynychwyr i rannu eu profiadau am argaeledd ac ansawdd gwasanaethau Cymraeg, a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar eu dewis iaith. Bu'n rhaid gohirio rhai sesiynau yn sgil yr argyfwng Covid-19. Cynhaliwyd y sesiynau canlynol:

- o Agored i'r cyhoedd – Wrecsam, 12/02/2020
- o Grwpiau cymunedol – dosbarth Dysgu Cymraeg, Aberteifi, 05/03/2020
- o Myfyrwyr – Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, 04/02/2020; Prifysgol Caerdydd, 12/02/2020; Prifysgol Glyndŵr, 25/02/2020
- o Staff sefydliadau – Prifysgol Abertawe, 27/06/2019; Cyngor Sir Gâr, 27/06/2019; Heddlu Dyfed-Powys, 11/07/2019

3. Cyswllt â sefydliadau

Mae swyddogion yn ymwneud yn barhaus â sefydliadau, gan ymateb i ymholiadau a thrafod materion yn ymwneud â chydymffurfiaeth. Yn ogystal â hynny, mae'r adroddiad yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd drwy ymwneud arall â sefydliadau:

- o Cyfarfodydd adborth – yn ystod hydref 2019 cynhaliwyd cyfarfodydd unigol â rhyw 80 o sefydliadau. Rhannwyd canlyniadau unigol gwaith gwirio 2019-20 â'r sefydliadau, a thrafod arferion llwyddiannus, heriau a datblygiadau o ran darparu gwasanaethau ar sail argymhellion adroddiad sicrwydd 2018-19
- o Gweithdai – yn ystod hydref 2019 cynhaliwyd 5 gweithdy ar gyfer sefydliadau, yn trafod dulliau o hyrwyddo a dylunio gwasanaethau'n well er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg
- o Gosod safonau – daeth y safonau cyntaf i rym ar gyfer sefydliadau rheoliadau rhif 7 yn 2019 wedi i'r hysbysiadau cydymffurfio gael eu rhoi iddynt ddiwedd Tachwedd 2018 yn dilyn cyfnod o ymgynghori. Cynhaliwyd rhagor o gyfarfodydd gyda sefydliadau yn ystod y flwyddyn wrth iddynt baratoi at weithredu'r safonau ac fel rhan o'r broses o ddelio â heriau a dderbyniwyd ganddynt
- o Ymchwilio a gorfodi – yn ystod 2019-20, agorwyd 65 ymchwiliad newydd, a dyfarnwyd ar 85 ymchwiliad. Cynhelir yr ymchwiliadau yn unol â Pholisi Gorfodi'r Comisiynydd.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

0345 6033 221

post@comisiynyddygymraeg.cymru

[@ComyGymraeg](https://twitter.com/ComyGymraeg)

comisiynyddygymraeg.cymru
